# Sianel newydd BBC Three: Prawf Budd y Cyhoedd

Cais Prawf Budd y Cyhoedd y BBC

Mehefin 2021

## Cynnwys


**Cynnwys** ..... 1

**1. Crynodeb gweithredol** ..... 3

1.1 Yr ymgynghoriad ..... 3

1.2 Bydd gwerth cyhoeddus sianel deledu newydd BBC Three yn uchel ..... 4

1.3 Bydd effaith sianel deledu newydd BBC Three ar y farchnad yn gymharol isel ..... 6

1.4 Prawf Budd y Cyhoedd ..... 7

**2. Cyd-destun ein cynigion** ..... 8

2.1 Hanes BBC Three ..... 8

2.2 Her y farchnad ..... 9

2.3 Her y gynulleidfa ..... 9

2.4 Yr her ariannol ..... 10

2.5 Ymateb y BBC i'r heriau hyn ..... 11

**3. Cynigion y BBC** ..... 13

3.1 Sianel deledu newydd BBC Three ..... 13

3.2 Cymysgedd genre ..... 15

3.3 Rhaglenni gwreiddiol o'r DU a rhaglenni wedi'u prynu ..... 17

3.4 Rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ac ailddarllediadau ..... 19

3.5 Rhaglenni wedi'u gwneud y tu allan i Lundain ..... 19

3.6 Oriau darlledu BBC Three a CBBC ..... 21

3.7 Dosbarthu ..... 22

3.8 Cyllideb ..... 24

**4. Asesiad o Werth Cyhoeddus** ..... 27

4.1 Ymagwedd at Werth Cyhoeddus ..... 27

4.2 Gwerth personol ..... 28

4.3 Gwerth cymdeithasol: Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC ..... 41

4.4 Gwerth i'r diwydiant ..... 61

4.5 Cost y cynigion a'r gwerth cyhoeddus posibl a ragwelir mewn gwasanaethau eraill ..... 65

4.6 Crynodeb o werth cyhoeddus y newidiadau arfaethedig ..... 68

**5. Effaith bosibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol ... 69**
5.1 Newid i lefelau gwylio’r BBC o ganlyniad i lansio’r sianel ... 69
5.2 Nodi gwasanaethau y bydd y cynnig yn effeithio arnyn nhw ... 74
5.3 Effaith ar ddarlledwyr ... 76
5.4 Effaith ar wasanaethau SVOD a theledu drwy dalu ... 90
5.5 Effaith ehangach ... 99
**6. Prawf Budd y Cyhoedd ... 101**
6.1 Y Cefndir ... 101
6.2 A yw'r newid arfaethedig yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r Genhadaeth ac o hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus? ... 102
6.3 A yw'r BBC wedi cymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr na chaiff y newid arfaethedig unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol lle nad yw hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn effeithiol? ... 102
6.4 A yw gwerth cyhoeddus y newidiadau arfaethedig yn cyfiawnhau’r effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol? ... 103
6.5 Casgliad ... 103
**Atodiad 1: Modelu’r lefelau gwylio disgwyliedig ar gyfer BBC Three, ac effaith hynny ar y farchnad ... 104**
**Atodiad 2: Ymatebion i'r Ymgynghoriad ... 105**

## 1. Crynodeb gweithredol

Sefydlwyd y BBC bron i ganrif yn ôl gyda chenhadaeth i hysbysu, addysgu a diddanu, ac ers hynny ein cyfrifoldeb ni yw cyflawni'r weledigaeth sylfaenol honno. Mae ein Siarter bresennol yn mynnu ein bod yn cyflawni'r genhadaeth honno drwy wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnwys a gwasanaethau diduedd, neilltuol o ansawdd uchel.

Ym mis Medi y llynedd, rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol bedair blaenoriaeth i'r BBC. Yr ail o'r rhain yw canolbwyntio ar gynnwys sy'n sicrhau'r gwerth gorau i'r rheini sy'n talu ffi'r drwydded. Mae hynny'n golygu gwaith unigryw sy'n cael effaith fawr, gan gynnwys gwaith gan y rheini sy'n teimlo'n bell oddi wrthym. Mae arnom angen mwy o gynnwys gwahanol, hynod atyniadol y mae cynulleidfaoedd yn teimlo sy'n addas iddyn nhw.

Fel y dywedodd Ofcom yn ei drydydd adroddiad blynyddol ar y BBC: "Mae cyrraedd pobl iau yn rhan bwysig o her y BBC i wasanaethu pob cynulleidfa ar draws y Deyrnas Unedig." Dywedodd hefyd: "Mae angen i'r BBC hefyd ehangu ei gyrhaeddiad ac apelio at rychwant ehangach o bobl, yn enwedig cynulleidfaoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a'r rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is."

Ers cau BBC Three fel sianel deledu yn 2016, mae wedi gweithredu'n bennaf fel brand cynnwys ar-lein ar BBC iPlayer. Mae BBC Three wedi parhau'n llwyddiant creadigol enfawr, gan ddarparu rhaglenni fel *Fleabag*, *Normal People*, *This Country*, *Ru Paul's Drag Race UK* a *Jesy Nelson: Odd One Out* i gynulleidfaoedd. Er hynny, mae'r ffaith bod BBC Three wedi symud i fod ar-lein wedi lleihau effaith y BBC ar gynulleidfaoedd iau – yn enwedig y rheini sy'n dal i fynd ati'n gyson i wylio teledu a ddarlledir ac sy'n defnyddio llai ar wasanaethau ar-alw.

Bydd adfer BBC Three fel sianel ddarlledu yn ein helpu ni i gyrraedd y cynulleidfaoedd hyn ac i sicrhau gwerth iddynt, ynghyd â chynyddu cyrhaeddiad ac effaith ein buddsoddiadau cynyddol mewn cynnwys newydd i oedolion ifanc.

### 1.1 Yr ymgynghoriad

Bydd sianel deledu BBC Three yn Wasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU, ac felly mae'n rhaid i'r BBC gynnal Prawf Budd y Cyhoedd a chael sêl bendith gan Ofcom cyn gallu ei lansio. I fodloni Prawf Budd y Cyhoedd, mae angen dangos bod gwerth cyhoeddus y cynnig yn cyfiawnhau ei effaith ar y farchnad.

Ym mis Mawrth 2021 roeddem wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori a oedd yn amlinellu ein cynigion ar gyfer y sianel newydd. Cawsom ymatebion ffurfiol gan amrywiaeth o randdeiliaid sy'n cynrychioli grwpiau cynulleidfa, Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus eraill, darlledwyr masnachol, llwyfannau dosbarthu, cwmnïau cynhyrchu, deiliaid hawliau eraill, academyddion ac aelodau o'r cyhoedd. Cawsom hefyd ddigwyddiadau trafod defnyddiol iawn gydag amrywiaeth o sefydliadau sy'n cynrychioli pobl ifanc, gan gynnwys Prince's Trust, Youth Futures Foundation, National Citizen Service ac Uprising.

Yn y ddogfen hon rydym yn amlinellu ein cynigion terfynol ar gyfer y sianel newydd, ein dadansoddiad o'i gwerth cyhoeddus, a'n hamcangyfrifon o'i heffaith ar y farchnad.

## 1.2 Bydd gwerth cyhoeddus sianel deledu newydd BBC Three yn uchel

Mae ein dadansoddiad – sy'n seiliedig ar ein hymchwil cynulleidfa a gynhaliwyd gan MTM, ymatebion i'n hymgynghoriad, a gwaith modelu o'r defnydd – yn dangos y bydd gwerth cyhoeddus ein cynigion yn amlwg yn uchel. Rydym wedi asesu'r gwerth hwnnw ar dair lefel: gwerth personol, gwerth cymdeithasol a gwerth i'r diwydiant.

*Gwerth personol*

Mae hyn yn golygu i ba raddau y bydd ein newidiadau yn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd, yn parhau i gynnig gwasanaeth gwirioneddol gyffredinol iddynt, ac felly'n darparu gwerth da am arian o ran ffi'r drwydded. Yn benodol, rydym wedi canfod y canlynol:

- Bydd y cynigion yn cynyddu cyrhaeddiad BBC Three ymysg y gynulleidfa darged, a'r amser maen nhw'n ei dreulio gyda BBC Three. Mae ein model economaidd yn amcangyfrif y gallai BBC Three (y sianel ddarlledu ac ar iPlayer), fel cyfartaledd wythnosol yn 2022, gyrraedd 12.4% o bob cynulleidfa, ac 16% o bobl 16-34 oed. Gallai'r amser sy'n cael ei dreulio gyda BBC Three gynyddu i 2.3 munud y person y dydd ar gyfer pob cynulleidfa yn 2022, ac i 3.1 munud y person y dydd ar gyfer pobl 16-34 oed.[1]

- Dywedodd 55% o bobl 16-34 oed y byddai'r sianel newydd yn ei gwneud hi'n haws gwylio neu ddod o hyd i raglenni BBC Three, a dywedodd 54% y byddent yn fwy tebygol o chwilio am raglenni newydd.

- Roedd ymchwil cynulleidfa hefyd yn dangos y bydd y sianel newydd yn gwella'n sylweddol ganfyddiadau cynulleidfaoedd ifanc o BBC Three (ac o'r BBC yn fwy cyffredinol).

- Nid oedd y gwerthfawrogiad o'r cynnig yn gwyro tuag at gynulleidfaoedd ABC1, a gwelwyd lefelau cyfartal o werthfawrogiad ymysg cynulleidfaoedd C2DE, a llawer mwy o werthfawrogiad ymysg cynulleidfaoedd BAME.

*Gwerth cymdeithasol*

Mae hyn yn golygu i ba raddau y gall ein newidiadau hybu gwerth cymdeithasol. Ein prif ddiffiniad ni o hynny yw sut bydd newid yn galluogi'r BBC i gyflawni ein

[1] Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys yr holl amser sy'n cael ei dreulio'n gwylio BBC Three ar y sianel linol ac ar iPlayer. Maen nhw wedi cael eu cyfrifo at ddibenion yr asesiad o'r effaith ar y farchnad, ac ni ddylid eu dehongli fel amcanestyniadau gwylio'r busnes ar gyfer y sianel newydd.

Cenhadaeth ac i hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn well. Yn benodol, rydym wedi canfod y canlynol:

- Bydd y cynigion yn cefnogi'r genhadaeth drwy wasanaethu cynulleidfa (pobl 16-34 oed) na fyddai'n cael ei gwasanaethu'n ddigonol gan y BBC fel arall;

- Bydd y cynigion yn darparu rhaglenni newyddion a materion cyfoes i gynulleidfaoedd iau ar sianel benodol (y diben cyhoeddus cyntaf – newyddion a gwybodaeth ddiduedd);

- Mae cynulleidfaoedd yn teimlo y bydd y sianel yn cefnogi'r ail ddiben cyhoeddus (dysgu ar gyfer pobl o bob oed) drwy ei rhaglenni dogfen amrywiol, ac yn tynnu sylw at faterion amserol fel iechyd meddwl a hunaniaeth o ran rhywedd;

- Bydd sianel deledu BBC Three yn dangos yr "allbwn mwyaf creadigol a neilltuol sydd o'r ansawdd gorau" (y trydydd diben cyhoeddus). Bydd gan y sianel amrywiaeth ehangach o genres, cyfran is o raglenni wedi'u prynu, a chyfran uwch o raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf nag unrhyw sianel debyg;

- Mae pwyslais golygyddol y sianel newydd yn ddeniadol i gynulleidfaoedd C2DE iau, i gynulleidfaoedd BAME iau, ac i gynulleidfaoedd y tu allan i Lundain.

### *Gwerth i'r diwydiant*

Ystyr gwerth i'r diwydiant yw'r graddau y gall ein newidiadau fod yn rym creadigol drwy gefnogi buddsoddiad, hybu arloesedd, a siapio ac ysgogi'r economi greadigol ledled y DU. Yn benodol:

- Mae rhoi 'ffenestr siop' fwy i BBC Three ac ehangu ei chyrhaeddiad / yr amser sy'n cael ei dreulio'n gwylio rhaglenni BBC Three yn debygol o gynyddu gwerth comisiynau i gynhyrchwyr mewn marchnadoedd eilaidd yn y DU a thu hwnt.

- Bydd hyn yn cael ei ategu gan delerau masnach diwygiedig sy'n ymwneud â BBC Three fel sianel ddarlledu, er budd sector cynhyrchu'r DU.

- Ein bwriad yw gwario dwy ran o dair o wariant rhaglenni BBC Three y tu allan i ardal yr M25, a bydd ein gwaith gydag asiantaethau sgrinio cenedlaethol a rhanbarthol yn cefnogi cwmnïau cynhyrchu annibynnol a'r economi greadigol ledled y DU. Gan ddefnyddio'r un dull a nodir yn adroddiad KPMG ar effaith economaidd y BBC[2], rydym yn amcangyfrif y bydd hyn yn cynhyrchu gwerth ychwanegol o £23.2m y flwyddyn ar draws gwledydd datganoledig y DU a rhanbarthau Lloegr (y tu allan i ardal yr M25).

---

[2] *An Assessment of the Economic Impact of the BBC*, KPMG, Mawrth 2021.

## 1.3 Bydd effaith sianel deledu newydd BBC Three ar y farchnad yn gymharol isel

Rydym ni o'r farn y bydd ein cynigion yn cael effaith niweidiol weddol fach ar gystadleuwyr, a'u bod yn annhebygol o gael effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Mae ein model yn seiliedig ar (a) lefelau gwylio gwrthffeithiol gwasanaethau masnachol heb y sianel newydd, ar sail data BARB a rhagolygon dadansoddwyr; (b) amcangyfrif o berfformiad sianel ddarlledu newydd BBC Three ac iPlayer ar sail perfformiad y sianel flaenorol, wedi'i addasu i ystyried newidiadau golygyddol, cyllideb, lleoliad ar y Cyfeirydd Rhaglenni Electronig (EPG) a'r gostyngiad o ran teledu llinol; (c) y lefelau gwylio a fydd yn troi oddi wrth wasanaethau masnachol (ar sail ymchwil feintiol); a (d) yr effaith ar refeniw hysbysebu wrth i'r lefelau gwylio hyn droi oddi wrth y gwasanaethau hynny.

O ystyried pwrpas Prawf Budd y Cyhoedd, rydym wedi delio ag ansicrwydd yn ein gwaith modelu mewn ffordd geidwadol – hy, goramcangyfrif effaith y BBC ar y farchnad. O'r herwydd, mae'r amcangyfrifon o'r effaith ar y farchnad yn cynrychioli'r 'senario gwaethaf posibl' rhesymol, ac ni ddylid eu dehongli fel amcanestyniadau gwylio'r busnes ar gyfer y sianel newydd.

Mae ein dadansoddiad wedi canfod:

- Y gallai sianel newydd BBC Three sicrhau cyfran gwylio'n fyw (hy, heb gynnwys PVR a dal i fyny) o 0.7% (4+) ac 1.5% ymysg y gynulleidfa darged (pobl 16-34 oed) yn 2022, sy'n llai na'r gyfran gwylio'n fyw ymysg pobl 16-34 oed o sianeli sydd wedi hen ennill eu plwyf ac sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc, fel ITV2 (4.9%) ac E4 (3.9%) heddiw.
- Ar sail statig, bydd y lefelau gwylio hyn yn dod o wasanaethau eraill y BBC (~30%), portffolio ITV (~20%), portffolio Channel 4 (~10%), portffolio Channel 5 (~7%), portffolio Sky (~6%), gwasanaethau BVOD / llinol eraill (~5%) ac SVOD (17%).
- Rydym yn amcangyfrif y gallai hyn leihau cyfanswm refeniw'r sector masnachol 0.5% (£22.9m) ar y mwyaf, gyda refeniw ITV yn gostwng ~0.6%, Channel 4 yn gostwng ~0.7%, a darlledwyr masnachol eraill yn gostwng 0.3%. Mae hyn yn cynnwys refeniw hysbysebu gwasanaethau BVOD a llinol. Rydym ni o'r farn y bydd yr effaith fesuradwy ar refeniw SVOD yn fach iawn, os bydd effaith o gwbl.
- Mae'r effeithiau hyn ar refeniw ar ffurf canran yn gymharol lai na'r rheini a nodwyd ar gyfer lansio BBC Scotland a darpariaeth estynedig iPlayer.
- Bydd gan gystadleuwyr masnachol amrywiol strategaethau i ymateb yn ddeinamig i lansiad BBC Three er mwyn lliniaru unrhyw lefelau gwylio a gollir, ac felly golledion refeniw – ee, mewn strategaethau rhaglennu.

- Wrth ystyried ein rhwymedigaethau dosbarthu, rydym ni o'r farn na fydd y cynigion yn cael effaith niweidiol ar y gadwyn gwerth fertigol chwaith.

### 1.4 Prawf Budd y Cyhoedd

Ystyr Prawf Budd y Cyhoedd yw ei bod yn rhaid i'r BBC fod yn fodlon –

> (a) bod y newid arfaethedig i Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r Genhadaeth ac o hyrwyddo un neu fwy o'r Dibenion Cyhoeddus;
>
> (b) ei fod wedi cymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr na chaiff y newid arfaethedig unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol lle nad yw hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn effeithiol; a
>
> (c) bod gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Bydd sianel deledu newydd BBC Three yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r pedwar diben cyhoeddus yn y DU drwy: (1) gynnwys newyddion a materion cyfoes sydd wedi'i anelu at gynulleidfaoedd iau; (2) rhaglenni ffeithiol a fydd yn helpu'r gynulleidfa darged i ddysgu; (3) rhaglenni neilltuol, creadigol o ansawdd uchel; a (4) adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cynulleidfaoedd iau o bob cwr o'r DU a phob grŵp amrywiol.

Mae ein dadansoddiad o'r effaith debygol ar y farchnad yn dangos effaith gymharol isel ar y farchnad.

O ystyried y gwerth cyhoeddus uchel a'r effaith gymharol fach ar y farchnad, rydym ni o'r farn bod Prawf Budd y Cyhoedd yn amlwg yn cael ei fodloni. Rydym yn gobeithio y bydd Ofcom yn gallu cyflymu ei asesiad cystadleuaeth er mwyn i'r BBC allu lansio sianel deledu newydd BBC Three ym mis Ionawr 2022.

## 2. Cyd-destun ein cynigion

Yn yr adran hon, rydym yn egluro'r cyd-destun allweddol sy'n sail i'n cynigion, gan gynnwys datblygiadau technolegol a datblygiadau yn y farchnad, newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd, cyd-destun ariannol y BBC a chyfeiriad strategol y BBC.

### 2.1 Hanes BBC Three

Lansiwyd BBC Three fel sianel deledu ddigidol ym mis Chwefror 2003 gyda chyllideb o £75m (tua £120m mewn arian heddiw), ac fe sefydlodd enw da am raglenni comedi, materion cyfoes a rhaglenni dogfen newydd o'r DU ar gyfer oedolion ifanc. BBC Three oedd y sianel deledu fwyaf poblogaidd ymysg pobl rhwng 16 a 34 oed yn ei horiau darlledu yn ystod y 4 o'i 5 mlynedd diwethaf o ddarlledu (rhwng 2011 a 2014).

Roedd yn llwyddiannus ym mhob genre – comedïau gwreiddiol o Brydain fel *Gavin and Stacey, Bad Education* a *Cuckoo*; cyfresi dogfen sydd wedi ennill gwobrau, fel *Life and Death Row*; rhaglenni adloniant poblogaidd fel *The Call Centre* a *Don't Tell The Bride*; a dramâu hynod lwyddiannus fel *Murdered by My Boyfriend*. Roedd BBC Three yn hybu doniau newydd yn y DU, gan helpu i gyflwyno pobl fel Stacey Dooley a Reggie Yates i'r sgrin. Roedd gan y sianel hefyd enw da am gyflwyno straeon amrywiol o'r DU ar y teledu gyda rhaglenni dogfen fel *Disabled in an Instant, Epilepsy and Me* ac *Excluded*: *Kicked Out of School*.

Yn 2015, cyflwynodd y BBC gynnig i gau BBC Three fel sianel ddarlledu a'i hail-greu ar-lein, gan leihau'r gyllideb o £81m (2013/14) i £30m (2017/18). Cafodd y cynnig ei gymeradwyo gan Ymddiriedolaeth y BBC mewn Prawf Gwerth Cyhoeddus, a ddaeth i'r casgliad mai:

> "pwysau ariannol oedd y cymhelliant i symud BBC Three ar lein ynghyd â newid strwythurol ym mhatrwm gwylio rhaglenni teledu ymhlith oedolion ifanc. Ond mae cau gwasanaeth yn benderfyniad anodd ac, wrth inni asesu, gwelwyd bod y dafol o blaid ac yn erbyn yn weddol gytbwys."[3]

Cafodd y penderfyniad i symud BBC Three ar-lein ei wneud yn gynharach na'r hyn roedd y BBC wedi'i fwriadu, ac roedd y BBC yn cydnabod y byddai'r newidiadau'n effeithio ar rai cynulleidfaoedd yr oedd teledu'n dal yn bwysig iddynt, neu ar bobl heb gysylltiad band eang derbyniol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ystyriwyd bod y cynnig yn debygol o sicrhau gwerth cyhoeddus cadarnhaol ac o gael effaith gadarnhaol ar y farchnad.

Ym mis Chwefror 2016, BBC Three oedd y sianel deledu gyntaf yn y byd i stopio darlledu ar y teledu a chynnig ei chynnwys ar-alw dros y rhyngrwyd.

Ers symud ar-lein, mae BBC Three wedi cyflwyno amrywiaeth o raglenni arloesol a neilltuol i gynulleidfaoedd. Roedd y rhaglenni amlwg yn cynnwys comedïau gwreiddiol o Brydain fel *Fleabag, This Country*, a *The Young Offenders*; dramâu cyfoes o Brydain fel *Normal People*, *Thirteen* a *Clique*; rhaglenni dogfen sy'n procio'r meddwl fel *Jesy Nelson: Odd One Out*; a rhaglenni adloniant poblogaidd fel *RuPaul's Drag Race*

---

[3] *Final decision on proposed changes to BBC television and online services*, Ymddiriedolaeth y BBC, Tachwedd 2015.

*UK*. Mae gwasanaeth ar-lein BBC Three wedi cael canmoliaeth fawr, gan gynnwys Gwobr Sianel y Flwyddyn gan y Gymdeithas Deledu Frenhinol yn 2017 a Gwobr Sianel Ddigidol y Flwyddyn gan y *Broadcast Magazine* yn 2020.

### 2.2 Her y farchnad

Heddiw, mae'r BBC yn wynebu cystadleuaeth newydd am amser cynulleidfaoedd ifanc. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y bobl sy'n defnyddio band eang cyflym a dyfeisiau â chysylltiad band eang wedi cynyddu'n gyflym (ee teledu clyfar, ffonau clyfar a dyfeisiau tabled). Mae hyn wedi galluogi cynulleidfaoedd i gael gafael ar amrywiaeth ehangach o gynnwys gan fwy o ddarparwyr. Rydym wedi gweld twf cyflym yn nifer y gwasanaethau tanysgrifio i fideo ar-alw (SVOD) byd-eang (o UDA yn bennaf) sy'n ymuno â'r farchnad ac yn cynyddu eu cyfran o'r farchnad yn y DU. Ar ddiwedd 2019, roedd dros 14 miliwn o gartrefi wedi tanysgrifio i o leiaf un gwasanaeth SVOD – Netflix, Amazon Prime Video neu NOW yn bennaf.[4]

Ar ddiwedd 2019 a 2020, roedd mwy o wasanaethau SVOD newydd yn ymuno â'r farchnad yn y DU – Apple TV+ a BritBox yn fwyaf amlwg ac, yn fwyaf diweddar, Disney+ ym mis Mawrth 2020. Erbyn dechrau mis Gorffennaf, roedd hyd at 16% o'r holl oedolion ar-lein wedi tanysgrifio i Disney+, gan basio NOW (10%) i fod y gwasanaeth ffrydio drwy danysgrifiad mwyaf poblogaidd ar ôl Netflix (45%) ac Amazon Prime Video (39%).[5] Wrth edrych i'r dyfodol, nid ydym yn disgwyl i gyflymder y newid na ffyrnigrwydd y gystadleuaeth sy'n wynebu'r BBC arafu.

### 2.3 Her y gynulleidfa

Er mai teledu sy'n cael ei ddarlledu'n fyw sy'n dal i gael y cynulleidfaoedd mwyaf yn y DU yn gyffredinol, mae'r datblygiadau hyn yn y farchnad wedi arwain at newidiadau sylweddol yn y ffordd mae gwylwyr yn treulio eu hamser. Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae nifer y bobl sy'n gwylio teledu a ddarlledir wedi parhau i ostwng, gan fod llawer o gynulleidfaoedd yn dewis gwylio rhaglenni ar-alw fwy a mwy – i ychwanegu at hynny, gwelwyd cynnydd enfawr yn y gystadleuaeth gan wasanaethau SVOD byd-eang sy'n cael eu hariannu'n dda, YouTube, gemau a fideos eraill ar-lein. Mae'r pandemig byd-eang wedi cyflymu'r frwydr dros wylwyr a'r newid i wylio rhaglenni ar-alw ar draws pob oedran, ond mae'n fwyaf amlwg ymysg gwylwyr iau.

Mae'r BBC wedi ymdopi â'r newid hwn mewn ffordd gymharol effeithiol. Mae wedi cyfuno ei gryfder ym maes teledu a ddarlledir, gan gynyddu'r nifer sy'n gwylio rhaglenni ar-alw ar iPlayer, ac erbyn hyn y BBC yw'r ail wasanaeth teledu ar-alw mwyaf yn y DU. Heddiw, mae'r BBC yn parhau i gyrraedd cynulleidfaoedd mawr, o bob oed, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau. Ar gyfartaledd, mae 80% o bobl rhwng 16

---

[4] *The Viewing Report 2020*, BARB. Ar ddiwedd 2020 roedd y ffigur hwn wedi codi i 17.3 miliwn o gartrefi yn y DU (ffynhonnell: *The UK multichannel TV landscape, Forecasts for 2021-2030,* fersiwn Gwanwyn 2021, a baratowyd ar gyfer y BBC gan 3 Reasons Ltd).

[5] *Cyfryngau'r Genedl 2020*, Ofcom, tudalen 5. Yn 2020, roedd Netflix, Amazon a Disney+ yn cynrychioli 90% o'r holl danysgrifiadau SVOD (ffynhonnell: *The UK multichannel TV landscape, Forecasts for 2021-2030*, fersiwn Gwanwyn 2021, a baratowyd ar gyfer y BBC gan 3 Reasons Ltd).

a 34 oed (12.5 miliwn) yn defnyddio'r BBC bob wythnos, a 93% (14.6 miliwn) bob mis – mwy nag unrhyw frand arall ar gyfer y cyfryngau.[6]

Fodd bynnag, nid yw'r BBC wedi gallu gwrthsefyll y newid strwythurol hwn mewn ymddygiad cynulleidfaoedd na'r gystadleuaeth gynyddol yn y farchnad. Mae cyrhaeddiad y BBC a'r amser sy'n cael ei dreulio gyda'r BBC yn parhau i ostwng, gan nad yw BBC iPlayer yn datblygu'n ddigon cyflym i wneud iawn am y gostyngiad yn achos y gwasanaethau teledu a ddarlledir gan y BBC. Mae angen i ni wneud mwy ar gyfer cynulleidfaoedd iau, yn enwedig y rheini yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Gogledd a Chanolbarth Lloegr. Mae'r un peth yn wir am gynulleidfaoedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol is.

Wrth i ni barhau i newid i fideo ar-alw, mae carfan sylweddol a gweddol sefydlog o bobl ifanc yn dal yn mynd ati'n gyson i wylio teledu a ddarlledir, ond nid ydynt yn defnyddio llawer ar wasanaethau teledu'r BBC. Maen nhw'n tueddu i fod yr un cynulleidfaoedd y mae angen i ni wneud mwy ar eu cyfer – cynulleidfaoedd y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr, o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, a'r rheini sydd â llai o fynediad at wasanaethau ar-alw[7]. Ar ôl symud BBC Three ar-lein yn 2016, collodd y BBC un o'i sianeli ar gyfer gwasanaethu'r grŵp demograffig yma ac o ganlyniad i hyn, rydym wedi cael trafferth sicrhau digon o werth iddynt gyda'n sianeli teledu presennol ac iPlayer.

Fel darlledwyr eraill, mae'r BBC yn parhau i wneud yn fawr o'i bortffolio o wasanaethau teledu, gan ddefnyddio cyfuniad o sianeli teledu byw ac iPlayer ar y cyd i wasanaethu pob cynulleidfa. Mewn byd lle mae arian yn brin a lle mae mwy o gystadleuaeth gan gwmnïau byd-eang o UDA, ein portffolio teledu a ddarlledir yw un o'n hasedau gorau. Mae iPlayer yn un o gryfderau allweddol y BBC yn erbyn cystadleuaeth gynyddol SVOD. Mae'n rhaid i ni ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl er mwyn cyrraedd pob cynulleidfa.

## 2.4 Yr her ariannol

Dros y degawd diwethaf, o ganlyniad i rewi cost trwydded deledu o 2010 ymlaen, yr Adran Gwaith a Phensiynau yn stopio talu am drwyddedau pobl dros 75 oed a'r gofyn i'r BBC ariannu rhwymedigaethau newydd, mae gwasanaethau'r BBC yn y DU wedi gweld gostyngiad o tua 30% mewn incwm. Ar adeg lle mae mwy o gystadleuaeth am gynulleidfaoedd, yn ogystal â gor-chwyddiant mewn rhannau o'r farchnad cyfryngau, mae'r BBC wedi gorfod ymgymryd â mwy o rwymedigaethau gyda llai o incwm, sy'n golygu bod ganddo lai i'w wario ar raglenni a gwasanaethau.

Er mwyn parhau i sicrhau gwerth i bob cynulleidfa, mae'r BBC wedi gwneud arbedion sylweddol. Ers 2016/17 mae'r BBC wedi gwneud arbedion cronnus gwerth

---

[6] Compass gan Ipsos MORI, 16-34, 2020.

[7] Roedd y nifer a oedd yn defnyddio band eang llinell sefydlog yn dal yn llai ymysg dosbarthiadau cymdeithasol D&E yn 2020, gyda'r grwpiau hyn yn fwy tebygol o barhau i ddibynnu ar gysylltedd symudol (ffynhonnell: *The UK multichannel TV landscape, Forecasts for 2021-2030, fersiwn* Gwanwyn 2021, a baratowyd ar gyfer y BBC gan 3 Reasons Ltd).

£618 miliwn, ac ar ddiwedd 2020/21 rydym yn rhagweld y byddwn wedi arbed mwy nag £800 miliwn i gyd.

Mewn adroddiad yn 2021, sef *The BBC's strategic financial management*, nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: Er gwaethaf lefelau uchel o chwyddiant yn y diwydiant adloniant, mae'r BBC wedi cynnal ei wariant ar gynnwys, ond bydd hyn yn her i'r dyfodol.[8] I sicrhau'r arbedion angenrheidiol pellach bydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd a fydd yn effeithio ar raglenni a gwasanaethau. Bydd ein ffocws ar werth i'r gynulleidfa fel blaenoriaeth strategol gyffredinol y BBC yn ein helpu ni i wneud y penderfyniadau hyn.

## 2.5 Ymateb y BBC i'r heriau hyn

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i ni wasanaethu'r holl gynulleidfaoedd drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd a neilltuol o ansawdd da sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.[9] Felly, mae'n hanfodol bod y BBC yn parhau i drawsnewid er mwyn diwallu anghenion a disgwyliadau ei holl gynulleidfaoedd ledled y DU, yn enwedig cynulleidfaoedd iau.

Yn sgil y newid cyflym mewn tueddiadau gwylio a'r cynnydd yng nghyllidebau cynnwys cystadleuwyr, mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffordd o gynyddu'n gyflym yr hyn rydym yn ei gynnig i gynulleidfaoedd iau, yn erbyn heriau ariannol a gweithredol sylweddol.

Ein portffolio teledu a ddarlledir yw ein hased gorau, ac wrth gyfuno'r portffolio ag iPlayer dyma yw ein cryfder unigryw allweddol yn y gystadleuaeth yn erbyn SVOD. Mae'n rhaid i ni ddefnyddio ein gallu i ddosbarthu darllediadau mor effeithiol â phosibl er mwyn cyrraedd pob cynulleidfa.

Mae maint yr her o ran denu a chadw cynulleidfaoedd iau yn gofyn am newid beiddgar o ran cynnwys, cyllidebau, y portffolio o sianeli teledu ac iPlayer. Fel y nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol ym mis Mai 2020, mae angen i ni wneud i'n portffolio cyfan weithio'n galetach byth fel 'Un BBC'. Yn benodol, rydym yn bwriadu cyflymu'r broses o symud gwariant ar draws ein cynnwys fideo er mwyn cynnig mwy o werth i gynulleidfaoedd iau a chefnogi datblygiad iPlayer. I grynhoi, bydd hyn yn cynnwys adeiladu ar gryfderau'r sianeli presennol, gan egluro a phwysleisio eu cymeriad a'u rôl wrth wasanaethu cynulleidfaoedd.

- **BBC One** fydd canolbwynt ein harlwy darlledu byw o hyd – sianel brif ffrwd gadarn sy'n dal i fentro'n greadigol. Drwy weithio'n unol â'n cyllideb bresennol i ddod o hyd i gyfleoedd i droi rhaglenni sy'n perfformio'n wael yn gynnwys sy'n cael effaith fawr ar gynulleidfaoedd, ac sydd hefyd yn gweithio ar iPlayer, gallwn wario'n fwy effeithlon a chynyddu'r amser sy'n cael ei dreulio gyda chynulleidfaoedd iau.
- **BBC Two** fydd cartref rhaglenni arbenigol y BBC. Bydd yn canolbwyntio ar raglenni ffeithiol neilltuol o'r safon uchaf, gan sbarduno mwy o effaith ar gynulleidfaoedd – diolch i raglenni sy'n cael eu hariannu'n well ac sydd ar gael

[8] *The BBC's strategic financial management*, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, tudalen 9.
[9] Erthygl 5, Siarter Frenhinol y BBC.

am gyfnod hirach ar iPlayer. Bydd yn parhau i fod yn sianel aml-genre (yn enwedig cadw ei rôl fel prif gyfrwng adloniant ffeithiol ar gyfer BBC One). Bydd BBC Two yn cael ei chyfoethogi drwy gymryd cynnwys gorau BBC Four, gan ddarparu'r rhaglenni hyn i gynulleidfa fwy ac ehangach. Byddwn yn cwtogi ar gomisiynu rhai genres cost uchel ar BBC Two (ee drama), lle gall yr arian hwnnw gael mwy o effaith ar BBC One neu BBC Three.

- Fel y dywedom ym mis Mai 2020, erbyn 2022/23 rydym yn cefnogi llwyddiant **BBC Three** ac yn dyblu ei chyllideb cynnwys er mwyn cynyddu ei chyrhaeddiad ar draws gwasanaeth darlledu ac ar lein, gan ehangu'r amrywiaeth o gynnwys y mae'n ei gomisiynu a chynnal ei phwyslais ar dalent newydd, dramâu difyr, materion cyfoes a ffeithiol, adloniant a chomedi.
- Byddwn yn cynyddu pwyslais **BBC Four** ar greu casgliadau o'r cynnwys mwyaf unigryw o archif werthfawr y BBC, yn enwedig ym myd y celfyddydau a cherddoriaeth.

Ers cau BBC Three fel sianel deledu yn 2016, mae wedi gweithredu'n bennaf fel brand cynnwys ar-lein ar iPlayer. Mae hyn wedi lleihau effaith y BBC ar gynulleidfaoedd iau – yn enwedig y rheini sy'n dal i fynd ati'n gyson i wylio teledu a ddarlledir, ac sy'n defnyddio llai ar wasanaethau ar-alw. Rydym yn credu y gall adfer BBC Three fel sianel ddarlledu ein helpu ni i gyrraedd y cynulleidfaoedd hyn a sicrhau gwerth iddynt, ynghyd â chynyddu cyrhaeddiad ac effaith ein buddsoddiadau cynyddol mewn cynnwys newydd i oedolion ifanc.

# 3. Cynigion y BBC

Yn yr adran hon rydym yn crynhoi ein cynigion cychwynnol, yn rhoi sylw i adborth rhanddeiliaid ar fanylion y cynigion, ac yn cyflwyno'r cynigion terfynol sy'n cael eu hystyried ar gyfer Prawf Budd y Cyhoedd. Mae adborth rhanddeiliaid ar werth cyhoeddus y cynigion hyn, a'u heffaith ar y farchnad, wedi'i nodi yn adrannau dilynol y ddogfen hon.

## 3.1 Sianel deledu newydd BBC Three

### 3.1.1 Ein cynigion ymgynghori

Yn ein hymgynghoriad ar 5 Mawrth 2021, roeddem wedi amlinellu ein cynigion cychwynnol i lansio sianel deledu newydd BBC Three o fis Ionawr 2022 ymlaen.

Roeddem yn cynnig y byddai gan sianel deledu newydd BBC Three gynulleidfa darged graidd, sef y grŵp oedran 16-34, ac y byddai'n canolbwyntio'n benodol ar y rheini sy'n mynd ati'n gyson i wylio teledu a ddarlledir. Roedd ein dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu bod y gynulleidfa hon yn debygol o ddod o grwpiau economaidd-gymdeithasol is a thu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr – grŵp demograffig nad yw'n cael ei wasanaethu'n ddigonol gan y BBC ar hyn o bryd.

Roeddem hefyd wedi dweud y byddai'r sianel yn gwasanaethu cynulleidfa eilaidd, sef pobl ifanc 13-15 oed, drwy gynnwys priodol cyn y trothwy.

### 3.1.2 Adborth rhanddeiliaid

Roedd llawer o randdeiliaid yn croesawu'r cynlluniau ar gyfer sianel deledu newydd BBC Three.

Roedd Pact yn cydnabod bod cyfran sylweddol o bobl 16-34 oed yn parhau i wylio teledu llinol ac y byddent yn elwa o ailgyflwyno BBC Three ar deledu llinol. Yn yr un modd, roedd Directors UK yn cydnabod y manteision y gallai sianel ddarlledu BBC Three eu cynnig i gynulleidfa o dan 35 oed ledled y DU – yn enwedig y rheini nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan y BBC, neu sydd â diffyg mynediad at wasanaethau digidol. Am resymau tebyg, roedd yr Athro Patrick Barwise a'r Athro Jonathan Hardy yn gryf o blaid dychwelyd i deledu llinol.

Roedd Writers Guild of Great Britain (WGGB) wedi canolbwyntio ar gyd-destun presennol pandemig Covid-19, gan ddadlau bod hyn wedi tynnu sylw at y bwlch digidol presennol yn y DU. Gan ystyried bod yr anghydraddoldebau hyn o ran mynediad yn debygol o aros yn eu hunfan neu gynyddu yn y tymor hwy o ganlyniad i'r argyfwng, cytunodd y gallai sianel ddarlledu BBC Three fod yn fodd o lenwi'r bwlch hwn.

Ategwyd hyn gan International Broadcasting Trust (IBT), a oedd yn cytuno mai gorau po fwyaf hwylus yw cynnwys y BBC i'w gynulleidfaoedd. Roedd Voice of the Listener and Viewer (VLV) hefyd yn gweld budd y cynnig i'r gynulleidfa darged – gan gytuno ei fod yn ffordd effeithiol i'r BBC gyflawni ei genhadaeth o ran darparu cynnwys i holl boblogaeth y DU.

Roedd British Film Institute (BFI) yn cytuno bod cynulleidfa C2DE 16-34 oed y tu allan i Lundain yn dal i wylio teledu llinol yn gyson, ac y gallai'r rheini sydd â llai o fynediad at wasanaethau digidol elwa o sianel ddarlledu bwrpasol BBC Three, gan ehangu'r amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael i'r gynulleidfa hon. Er bod yr Athro Barwise yn croesawu cwmpas y sianel, roedd ei ymateb yn awgrymu na ddylai'r BBC flaenoriaethu'r gynulleidfa darged 16-34 oed ar draul sicrhau apêl ehangach, fwy prif ffrwd. Roedd yr Athro Hardy yn galw am wasanaethu cynulleidfa C2DE yng Ngogledd Lloegr ar y cyd ag uchelgais BBC Three i gynrychioli cymunedau amrywiol ar hyd a lled y DU, nid ar draul y cymunedau hynny.

Roedd BFI hefyd yn gweld y fantais o gyrraedd cynulleidfa 13-15 oed cyn y trothwy. Roedd Children's Media Foundation (CMF), Directors UK a WGGB hefyd yn croesawu, mewn egwyddor, uchelgais y BBC i gyrraedd cynulleidfa eang o bobl ifanc o dan 16 oed, a amlinellir yn y cynnig.

Fodd bynnag, nid oedd rhai rhanddeiliaid o blaid sianel deledu newydd y BBC.

Roedd rhai darlledwyr yn cwestiynu a fyddai sianel ddarlledu BBC Three yn unigryw, ac yn dweud bod y farchnad darged eisoes yn cael ei gwasanaethu gan amrywiaeth o sianeli eraill, gan gynnwys portffolio Channel 4 a brandiau eraill sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc, fel Comedy Central ac ITV2. Ymysg ymatebion y darlledwyr, roedd pryderon hefyd y gallai sianel ddarlledu BBC Three droi gwylwyr hŷn oddi wrth sianeli eraill yn anfwriadol.

Roedd Channel 4 yn dadlau y byddai gweledigaeth olygyddol a chylch gwaith darpariaeth linol BBC Three yn anghymesur o niweidiol i bortffolio Channel 4 yn arbennig: gan arwain at golli cyfran a chwyddiant prisiau, a niweidio cyd-ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus (PSB) heb fanteision amlwg i'r gynulleidfa.

Soniodd nifer o randdeiliaid – gan gynnwys COBA, Channel 4 ac Youth, Media and Culture Network – fod cynulleidfaoedd iau yn tueddu i wylio llai a llai o deledu llinol, ac awgrymwyd y dylai'r BBC ganolbwyntio ar wasanaethu cynulleidfaoedd iau drwy iPlayer. Yn yr un modd, awgrymodd Sam Barcroft – er yn croesawu'r buddsoddiad ychwanegol mewn cynnwys gwreiddiol ar gyfer cynulleidfaoedd iau – y dylai'r BBC ganolbwyntio ar ddull sy'n cael ei arwain gan stiwdio o ran dosbarthu i drydydd partïon.

Gofynnodd Channel 4 i'r BBC ailystyried ei gynnig i lansio a gweithredu sianel ddarlledu, ac awgrymodd yn lle hynny bod y gyllideb uwch ar gyfer BBC Three yn mynd tuag at sicrhau bod yr holl raglenni ar iPlayer, a'r rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar BBC One, yn rhai gwreiddiol. Yn yr un modd, awgrymodd Youth Media and Culture Network y byddai'n well gwario'r arian ar ddiwygio a gwella ymarferoldeb a defnyddioldeb iPlayer er budd cynulleidfaoedd iau yn benodol.

Roedd Channel 4, ymysg darlledwyr eraill, yn gofyn am ragor o fanylion am y gynulleidfa ddarlledu a fyddai'n cael ei thargedu. Roedd rhai o'r ymatebion yn cwestiynu a oedd y ffigur o tua 3.5M a roddwyd yn cynnwys, er enghraifft,

cynulleidfaoedd rhanbarthol, cynulleidfaoedd C2DE, cynulleidfaoedd â diffyg mynediad digidol. Roeddent hefyd yn galw am adroddiadau cywir a thryloyw ynghylch y gynulleidfa darged: fel tystiolaeth i gefnogi'r cynnig, ac mewn ffordd barhaus ar ôl i sianel BBC Three gael ei lansio.

Cododd nifer o randdeiliaid gwestiynau am benderfyniad y BBC i gau BBC Three yn 2016, gan awgrymu bod angen i'r BBC roi sylw i'r dadleuon a wnaeth yn 2015-16, er mwyn cyfiawnhau'r hyn a oedd yn cael ei ystyried gan rai fel tro pedol ar y penderfyniad cynharach hwn.

### 3.1.3 Ein cynnig terfynol

Er ei bod yn amlwg bod cynulleidfaoedd iau yn defnyddio gwasanaethau ar-alw fwy a mwy, mae hefyd yn amlwg bod gan y grŵp oedran hwn gynulleidfa ddarlledu gref o hyd. Erbyn hyn mae gan y BBC brofiad sylweddol o wasanaethu cynulleidfaoedd iau drwy iPlayer a'r prif sianeli darlledu.

Ers i BBC Three symud ar-lein, mae wedi cyflwyno amrywiaeth eang o raglenni arloesol a neilltuol i gynulleidfaoedd, gan gynnwys llwyddiannau enfawr fel *Fleabag, This Country*, *Normal People* a *RuPaul's Drag Race UK*. Fodd bynnag, er hyn, mae ein hymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd iau yn ymgysylltu llai â'r BBC ers i'r strategaeth ar-lein-yn-unig gael ei chyflwyno ar gyfer BBC Three.

Felly, mae'r BBC yn dal o'r farn bod sianel ddarlledu newydd BBC Three yn ffordd briodol a chymesur o gyrraedd cynulleidfaoedd iau sy'n gwylio teledu llinol yn gyson, yn enwedig y rheini o gefndiroedd BAME neu economaidd-gymdeithasol is.

Yn y ddogfen hon rydym yn rhoi rhagor o fanylion am ein cynlluniau, ein cynulleidfa darged, ein hymchwil cynulleidfa ategol, a'n gwaith modelu economaidd.

Cynnig presennol y BBC, a nodir yma ar gyfer Prawf Budd y Cyhoedd, yw sianel deledu newydd i BBC Three. Mae'r sianel hon yn un newydd, ac er y bydd ganddi rai o'r un nodweddion â'r sianel a gafodd ei chau yn 2016, bydd hefyd yn wahanol mewn llawer o ffyrdd. Nid a wnaeth y BBC y penderfyniad cywir yn 2015 yw'r cwestiwn, ond a yw'r cynnig presennol i lansio sianel deledu newydd BBC Three yn bodloni Prawf Budd y Cyhoedd, fel sy'n ofynnol yn ôl y Siarter a'r Cytundeb presennol.

## 3.2 Cymysgedd genre

### 3.2.1 Ein cynigion ymgynghori

Yn ein hymgynghoriad, roeddem yn cynnig y dylai sianel deledu newydd BBC Three fod yn sianel aml-genre, gan gynnwys adloniant ffeithiol, drama, materion cyfoes, comedi, chwaraeon, ffilmiau a rhaglenni wedi'u prynu.

### 3.2.2 Adborth rhanddeiliaid

Roedd BFI yn croesawu gweledigaeth olygyddol y cynnig – gan ddadlau y byddai BBC Three, fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, yn cael cyfle i fod yn fwy cynrychioliadol o fywydau ar draws y DU nag y byddai'r farchnad fasnachol fyd-eang yn ei ganiatáu. Roedd yn gweld y cynnig 'ffenestr siop' ar gyfer y sianel fel ffordd o ehangu gorwelion a chwaeth cynulleidfaoedd iau wrth iddynt ddigwydd

gwylio teledu llinol. Hefyd, dywedodd y gallai sianel ddarlledu BBC Three fod yn ateb i'r 'siambrau adleisio' sy'n rhoi pwyslais ar algorithm, sydd i'w gweld yn amlwg mewn gwasanaethau digidol.

Roedd BFI o'r farn y byddai'r amrywiaeth o gynnwys a amlinellwyd gan BBC Three yn y cynnig yn annog buddsoddiad ehangach mewn cynnwys ar gyfer pobl 16-34 oed gan gystadleuwyr llinol y DU: gan wella ansawdd ac amrywiaeth y cynnwys sydd ar gael i'r gynulleidfa hon, ac felly cael effaith gadarnhaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Ymysg ymatebion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, cafwyd derbyniad da i weledigaeth y cynnig i gynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd amrywiol – gyda rhai awgrymiadau, er enghraifft, y gellid gwneud hyn drwy gomisiynu drama barhaus sydd wedi'i lleoli mewn cymuned leiafrifol yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Ond, mynegwyd pryderon ynghylch y gyllideb sydd ar gael i wneud hynny.

Awgrymodd Youth Media and Culture Network y dylid creu partneriaethau rhwng y BBC yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau, fel cydweithredu â *BBC Sesh* yng Nghymru.

Roedd IBT yn poeni nad oedd y cymysgedd o gynnwys a gynigir yn cyfeirio'n benodol at Faterion Cyfoes Rhyngwladol, o ystyried hanes y BBC o greu cynnwys arloesol a neilltuol yn y genre hwn, ac er mwyn cyfrannu at y Diben Cyhoeddus cyntaf. Pwysleisiodd y gwerth o gael y cymysgedd hwn o gynnwys yn amserlen linol BBC Three, gan ddadlau bod llawer iawn o'r heriau y mae'r DU yn eu hwynebu yn rhai byd-eang eu natur, ac felly bod materion cyfoes rhyngwladol yn bwysicach nag erioed wrth dynnu sylw'r cyhoedd yn y DU at y byd ehangach.

Ategwyd hyn gan VLV, a oedd â chwestiynau a phryderon am y diffyg darpariaeth o gynnwys materion cyfoes neu gynnwys ffeithiol rhyngwladol yn y cynnig – gan ddweud y bydda'n fuddiol cyfeirio'n benodol at y genre hwn.

Ymysg ymatebion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, roedd gwrthwynebiad i unrhyw gynlluniau gan y BBC i gynyddu lefelau gwylio ar sianel newydd drwy ddangos rhaglenni poblogaidd BBC One ar BBC Three yn gyntaf, gan ofyn i sianeli llinol y BBC aros yn driw i'w cylch gwaith eu hunain o ran cynulleidfa a genre gyda'u portffolio.

### 3.2.3 Ein cynnig terfynol

Rydym ni o'r farn bod ein dull aml-genre arfaethedig yn dal yn briodol, a byddwn yn sicrhau bod sianel deledu newydd BBC Three yn unigryw ac yn rhoi sylw i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd a diddordebau.

Gallwn hefyd gadarnhau y bydd y sianel newydd yn cynnwys materion cyfoes rhyngwladol pan fydd hynny'n bosibl ar ôl i'r cyfyngiadau presennol ar deithio rhyngwladol gael eu llacio. Mae materion cyfoes rhyngwladol wedi bod yn rhan bwysig o raglenni BBC Three erioed – er enghraifft, cyfres *Stacey Dooley Investigates* o raglenni dogfen sy'n ymchwilio i faterion cyfoes sy'n effeithio ar bobl ifanc ar hyd a lled y byd, a rhaglenni dogfen *The Insider* ac *Extreme* gyda Reggie Yates, sy'n


ymchwilio i faterion cymdeithasol pwysig ledled y byd – a bydd yn dal yn bwysig yn y dyfodol.

Rydym hefyd wedi penderfynu y dylai'r sianel newydd gael bwletin newyddion nosweithiol. Rydym yn dal i ddatblygu'r cynnig hwn.

Rydym yn nodi rhai o'r sylwadau gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ynghylch dangos rhaglenni poblogaidd BBC One ar BBC Three yn gyntaf. Mae'n debygol y bydd y sianel newydd yn cynnwys rhywfaint o ailddarllediadau naratif o raglenni a gomisiynwyd gan sianeli eraill sy'n cyd-fynd ag amcanion BBC Three, ac mae angen i ni gadw rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn ystyried effaith digwyddiadau chwaraeon neu newyddion o bwys, er enghraifft, ar yr amserlen ddarlledu. Ar ben hynny, mae arnom hefyd angen hyblygrwydd i ddod o hyd i'r cartref iawn i raglenni wrth iddyn nhw a'u cynulleidfaoedd ddatblygu, fel sy'n arfer safonol. Fodd bynnag, prif ffocws sianel newydd BBC Three fydd rhaglenni gwreiddiol o safon uchel o Brydain sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa darged, sef pobl 16-34 oed – nid cynyddu'r gynulleidfa wrth i raglenni a gomisiynwyd gan BBC One, a fwriedir ar gyfer cynulleidfa eang, gael eu dangos am y tro cyntaf ar BBC Three.

Mae Adran 4 ar Werth Cyhoeddus yn cynnwys rhagor o fanylion am yr amrywiaeth o genres ac am natur unigryw rhaglenni. Isod, rydym wedi nodi amserlen enghreifftiol ar gyfer sianel ddarlledu newydd BBC Three.

**Ffigur 1: Amserlen enghreifftiol ar gyfer sianel ddarlledu newydd BBC Three**




## 3.3 Rhaglenni gwreiddiol o'r DU a rhaglenni wedi'u prynu

### 3.3.1 Ein cynigion ymgynghori

Yn ein hymgynghoriad, roeddem yn cynnig y dylai o leiaf 70% o oriau darlledu sianel ddarlledu newydd BBC Three gynnwys cynyrchiadau gwreiddiol gan y BBC (hy,

rhaglenni wedi'u comisiynu gan y BBC, gan gynnwys rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ac ailddarllediadau).

### 3.3.2 Adborth rhanddeiliaid

Roedd Channel 4 yn anghytuno bod angen i BBC Three brynu unrhyw raglenni, gan bwysleisio y byddai'n cael effaith niweidiol ar y farchnad ehangach pe bai BBC yn mynd ati i brynu rhaglenni.

Ategwyd hyn gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, a oedd yn gofyn i BBC Three ymrwymo i beidio â chael unrhyw raglenni wedi'u prynu o'r Unol Daleithiau o leiaf, ar y sail y gallai hyn wanhau cyswllt diwylliannol y DU a rhoi pwysau cystadleuol diangen ar ddarlledwyr eraill.

Roedd yr Athro Hardy yn croesawu'r cynnig i gomisiynu dros 300 awr o raglenni a fydd yn cael eu dangos am y tro cyntaf, ond gofynnodd am gael targed uchel ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU o fewn hynny.

Yn yr un modd, roedd Pact yn galw am i nifer y rhaglenni gwreiddiol a fwriedir ar gyfer y sianel gael ei nodi yn y drwydded weithredu – gyda rhaniadau ffurfiol, a sicrwydd y byddai'r targedau'n cael eu cyrraedd.

### 3.3.3 Ein cynnig terfynol

Mae prynu rhaglenni yn rhan o strategaeth cynnwys pob sianel deledu bron.

Rydym yn cytuno na fyddai sianel sy'n cynnwys yn bennaf raglenni wedi'u prynu o America yn gynnig unigryw. Prif bwyslais sianel newydd BBC Three fydd rhaglenni gwreiddiol o safon uchel o Brydain sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa darged, sef pobl 16-34 oed. Bydd y rhaglenni hyn yn unigryw, yn rhai o safon uchel ac yn arloesol, a byddant yn cynnwys amrywiaeth ehangach o genres nag sydd ar gael ar sianeli eraill ar gyfer cynulleidfaoedd iau. Mae hyn yn cynnwys genres sy'n costio mwy, fel drama. Ar hyn o bryd, rydym yn amcangyfrif y bydd rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn cynrychioli tua 95% o gyllideb rhaglenni'r sianel newydd, gydag ailddarllediadau a rhaglenni wedi'u prynu yn cynrychioli tua 5%.

Fodd bynnag, er mwyn llenwi amserlen y sianel, byddwn hefyd angen oriau o raglenni sy'n costio llai, a bydd rhaglenni wedi'u prynu a chynnwys archif y BBC yn cael eu defnyddio i ddiwallu'r angen hwn (gweler isod).

Ni fydd sianel newydd BBC Three yn ceisio prynu rhaglenni sydd eisoes yn gwneud yn dda. Fodd bynnag, mae'n amlwg yn briodol i'r BBC brynu rhaglenni a fydd yn cyd-fynd â rhaglenni gwreiddiol y sianel newydd, ac yn gwasanaethu'r gynulleidfa darged.

Rydym yn disgwyl y bydd Ofcom yn gosod amod Trwydded Weithredu mewn perthynas â lefel rhaglenni gwreiddiol y BBC ar y sianel newydd, fel y mae wedi'i wneud ar gyfer pob un o sianeli teledu eraill y BBC. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi bod Ofcom wedi cyhoeddi ei fwriad i adolygu'r Drwydded Weithredu. Byddwn yn cydweithio'n llawn ag Ofcom ar yr adolygiad hwnnw. Byddwn hefyd yn parhau i drafod ag Ofcom, fel rhan o'i adolygiad o Brawf Budd y Cyhoedd, sut dylai sianel deledu newydd BBC Three fod yn rhan o'r Drwydded Weithredu yn y dyfodol, a sut dylem fesur ac adrodd ar berfformiad y sianel newydd.

## 3.4 Rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ac ailddarllediadau

### 3.4.1 Ein cynigion ymgynghori

Yn ein hymgynghoriad roeddem yn cynnig y dylai o leiaf 24% o oriau sianel ddarlledu newydd BBC Three, rhwng 7pm a hanner nos, gynnwys cynyrchiadau sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf (hy, rhaglenni sydd heb gael eu dangos ar deledu o'r blaen yn y DU).

### 3.4.2 Adborth rhanddeiliaid

Nid oedd Channel 4 yn deall cyfran uchel yr ailddarllediadau y bwriedir eu dangos ac ystyried maint cyllideb BBC Three.

Adleisiodd Directors UK y pryder hwn, gan nodi faint o ailddarllediadau y bwriedir eu dangos a chwestiynu'r effaith bosibl y byddai hyn yn ei chael ar greu rhaglenni gwreiddiol.

### 3.4.3 Ein cynnig terfynol

Fel y nodwyd uchod, prif bwyslais sianel newydd BBC Three fydd rhaglenni gwreiddiol o safon uchel o Brydain sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa darged, sef pobl 16-34 oed. Bydd y rhaglenni hyn yn unigryw, yn rhai o safon uchel ac yn arloesol, a byddant yn cynnwys amrywiaeth ehangach o genres. Mae hyn yn cynnwys genres sy'n costio mwy, fel drama. Oherwydd ein huchelgais, ni fyddwn yn gallu comisiynu cymaint o oriau o raglenni o safon uwch sy'n costio mwy.

Rydym hefyd yn nodi bod lefel y rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf o'u cymharu ag ailddarllediadau yn debyg i lefel sianel deledu BBC Three cyn iddi gau. Bryd hynny, mewn termau real, roedd ganddi gyllideb debyg a chostau cynhyrchu is. Ar y pryd, roeddem hefyd yn comisiynu rhaglenni 'llinol yn gyntaf' rhatach i lenwi'r amserlen, ac nid yw hynny'n rhan o strategaeth gomisiynu'r BBC bellach. Felly, rydym ni o'r farn bod cyfran o 24% ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn gyfran resymol.

Ar ben hynny, bydd yr ailddarllediadau'n gymysgedd o ailddarllediadau naratif (hy, ailddarllediadau o raglenni sydd wedi cael eu darlledu am y tro cyntaf yn ddiweddar) ac ailddarllediadau o'r archif. Gallai hynny ddarparu fersiwn ar ffurf darlledu llinol o'r ffordd y gall ffenestr hirach ar iPlayer helpu rhai rhaglenni i ddenu dilynwyr, fel rhaglenni comedi sy'n gallu cymryd amser hir i ganfod a chynyddu eu cynulleidfaoedd.

## 3.5 Rhaglenni wedi'u gwneud y tu allan i Lundain

### 3.5.1 Ein cynigion ymgynghori

Yn ein hymgynghoriad, roeddem yn cynnig y dylai o leiaf ddwy ran o dair o'r gwariant ar raglenni BBC Three gael ei gwario y tu allan i ardal yr M25.

### 3.5.2 Adborth rhanddeiliaid

Cafodd dyhead BBC Three i gefnogi a gweithio mewn partneriaeth â chynhyrchwyr annibynnol y tu allan i Lundain ac ardal yr M25 dderbyniad da gan lawer o ymatebwyr.

Roedd Directors UK yn cefnogi'r targed bod dwy ran o dair o gomisiynau wedi'u gwneud y tu allan i Lundain, ar yr amod nad strategaeth 'codi a symud' talentau presennol o'r brifddinas oedd hon. Roedd yn galw hefyd am wneud buddsoddiadau gwirioneddol – yn y cymorth a gynigir ac o ran cydnabyddiaeth ariannol a hawliau. Yn eu hymatebion, roedd WGGB a Pact yn ategu'r angen am gefnogaeth a chydnabyddiaeth deg, gydag WGGB yn galw am sicrhau bod awduron a phobl greadigol o'r holl grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn gallu elwa o'r uchelgais hon ar draws y DU.

Aeth Channel 4 a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill gam ymhellach â'r cynnig ledled y DU, gan alw am i bob un comisiwn a chynhyrchiad ar gyfer sianel ddarlledu BBC Three fod o'r tu allan i Lundain, gan ddadlau y dylai hyn fod yn ymrwymiad os yw'r BBC o ddifrif am gynrychiolaeth.

### 3.5.3 Ein cynnig terfynol

Ar 18 Mawrth, yn fuan ar ôl i ni gyhoeddi'r ymgynghoriad ar sianel newydd BBC Three, cyhoeddwyd *The BBC across the UK* gan y BBC, a oedd yn amlinellu cynlluniau uchelgeisiol i drawsnewid y BBC drwy symud pŵer a phenderfyniadau i bob cwr o'r DU rhwng 2022 a 2027. Yn y ddogfen hon, fe ddywedom:

> Am y tro cyntaf yn ein hanes, bydd y mwyafrif clir o'n rhaglenni teledu ar draws y DU yn cael eu gwneud ym mhob cwr o'r DU, nid yn Llundain. Byddwn yn gosod targed newydd, sef bod o leiaf 60% o gomisiynau ar gyfer teledu rhwydwaith, yn ôl gwariant, yn cael eu gwneud ym mhob cwr o'r DU, a'n bod yn cyrraedd y targed mewn ffordd gynaliadwy erbyn diwedd y Siarter. Bydd hyn o fudd i'r sector creadigol ar draws y DU, ac yn cefnogi'r gymuned cynhyrchu annibynnol.

Hefyd:

> Bydd ein buddsoddiad cynyddol yn BBC Three yn cryfhau ei rôl o ran adlewyrchu lleisiau go iawn pobl iau ym mhob cwr o'r DU. Byddai ein strategaeth i ail-lansio BBC Three fel sianel deledu ran-amser yn helpu i ddenu cynulleidfaoedd iau sy'n gwylio teledu llinol yn gyson, ond sy'n defnyddio llai ar wasanaethau teledu'r BBC. Mae'r rhain yn fwy tebygol o fod yn gynulleidfaoedd C2DE, yng ngogledd Lloegr, sydd yn aml â llai o fynediad at wasanaethau ar-alw digidol. Byddwn yn anelu at wario dwy ran o dair o wariant BBC Three y tu allan i Lundain.[10]

Mae'r amcan hwn yn hynod uchelgeisiol ar gyfer BBC Three, gan fod ei gwariant comisiynu ar hyn o bryd yn gwyro'n drwm tuag at Lundain. Fodd bynnag, byddai peidio â gwneud unrhyw raglenni yn Llundain yn golygu nad yw'r BBC yn gwasanaethu cynulleidfaoedd iau yn Llundain yn ddigonol, a byddai wedi golygu na fyddai'r BBC wedi gwneud, neu na fyddai'n parhau i wneud, rhaglenni gwych sydd wedi'u lleoli yn Llundain fel *Superhoe*, *Starstruck*, *Dreaming Whilst Black* a *Grime Kids*.

---

[10] *The BBC across the UK*, BBC, 18 Mawrth 2021, tudalennau 4-5.

Felly, rydym ni'n credu bod yr uchelgais hon yn dal yn briodol, y bydd yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yn dda, ac y bydd yn cefnogi'r economi greadigol ar draws y DU.

## 3.6 Oriau darlledu BBC Three a CBBC

### 3.6.1 Ein cynigion ymgynghori

Yn ein hymgynghoriad, roeddem yn cynnig y dylai sianel newydd BBC Three fod yn darlledu rhwng 7pm a 4am, gyda'r oriau gwylio brig rhwng 7pm a hanner nos.

Er mwyn cael lle i sianel newydd BBC Three o fewn y capasiti dosbarthu presennol, roeddem hefyd yn cynnig dod â CBBC i ben yn gynharach – am 7pm yn hytrach na 9pm – er mwyn lansio sianel ddarlledu newydd BBC Three o 7pm ymlaen.

### 3.6.2 Adborth rhanddeiliaid

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i ddarpariaeth benodol BBC Three ar gyfer pobl ifanc o dan 16 oed o blaid y cynlluniau i leihau oriau CBBC er mwyn creu lle i BBC Three.

Cytunodd BFI, CMF, Directors UK, WGGB a Youth Media and Culture Network fod uchelgais BBC Three cyn y trothwy i gyrraedd pobl ifanc dan 16 oed yn cynnig cyfle i'r BBC wasanaethu cynulleidfa nad yw'n ei chyrraedd ar hyn o bryd. Roedd rhywfaint o gonsensws bod y budd hwn yn bwysicach na cholli darlledu a gwylio ar CBBC o fewn yr un oriau.

Fodd bynnag, o fewn y cynlluniau hyn, roedd Directors UK, Youth Media and Culture Network, BFI a CMF hefyd ymysg y rheini a oedd yn galw am gynlluniau clir, gofalus a phendant ynghylch cynnwys ar gyfer grŵp oedran 13-15 oed. Roedd yr ymatebion hyn yn gofyn am gynnwys cynigion cliriach ar gyfer y gynulleidfa hon yng nghynlluniau BBC Three: gan gynnwys rhagor o fanylion am gomisiynu, y gyllideb a darpariaeth ar benwythnosau.

### 3.6.3 Ein cynnig terfynol

Bydd sianel newydd BBC Three yn darlledu rhwng 7pm a 4am. Fodd bynnag, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch patrymau gwylio ar y sianel newydd a'r angen i sianel ddarlledu newydd BBC Three addasu ac ymateb i anghenion y gynulleidfa, rydym ni o'r farn nad yw'n briodol nodi amser gwylio brig ar gyfer y sianel newydd.

I ddod o hyd i le i sianel newydd BBC Three o fewn y capasiti dosbarthu presennol, byddai'n rhaid i CBBC ddod i ben yn gynharach – am 7pm yn hytrach na 9pm – er mwyn lansio sianel ddarlledu newydd BBC Three o 7pm ymlaen.[11]

Nodwn sylwadau rhanddeiliaid ynghylch y rhaglenni a fydd yn cael eu dangos yn ystod y cyfnod rhwng 7pm a 9pm ar BBC Three. Ein bwriad ar gyfer y slot hwnnw yw y byddwn yn ystyried anghenion y grŵp oedran 13-15 ac yn amserlennu cynnwys cyn y trothwy a fydd yn apelio at y grŵp oedran 13-15 a'r grŵp oedran 16-

---

[11] Sylwer, am resymau technegol, y bydd CBBC yn dod i ben yn gynharach, am 7pm, o leiaf bythefnos cyn i BBC Three lansio fel sianel ddarlledu newydd.

34; fodd bynnag, pobl rhwng 16 a 34 oed yw cynulleidfa darged y sianel newydd, ac nid ydym yn sefydlu bloc penodol o raglenni ar gyfer pobl ifanc 13-15 oed.

Mae rhagor o fanylion wedi'u nodi yn Adran 4 ynghylch effaith lleihau oriau CBBC o safbwynt gwerth cyhoeddus, a sut byddwn yn lliniaru hyn.

## 3.7 Dosbarthu

### 3.7.1 Ein cynigion ymgynghori

Yn ein hymgynghoriad, roeddem yn cynnig y dylai sianel ddarlledu newydd BBC Three gael ei dosbarthu ar bob llwyfan teledu. Roeddem hefyd yn cynnig y dylai Ofcom ddiwygio'r Cod EPG i fynnu bod y sianel newydd yn cael safle amlwg priodol – slot 24 ar yr EPG yw ein hawgrym ni, neu'r slot gwag isaf sydd ar gael o fewn y 24 slot uchaf ar yr EPG.

### 3.7.2 Adborth rhanddeiliaid

Roedd rhaniad amlwg yn yr ymatebion gan randdeiliaid ynghylch lleoliad sianel ddarlledu BBC Three ar yr EPG. Er bod rhai rhanddeiliaid yn galw am i BBC Three gael safle amlwg ar yr EPG, roedd ymatebion eraill yn mynegi pryder penodol y gallai unrhyw ddisodli darfu ar ddarlledwyr eraill a chael effaith ar y farchnad. Mynegwyd pryderon hefyd gan gystadleuwyr ynghylch cyfnewid slotiau EPG o fewn portffolio'r BBC, ar ôl lansio.

Roedd Directors UK o blaid rhoi safle amlwg i sianel linol BBC Three ar yr EPG, fel ffordd bwysig o sicrhau ei bod yn hwylus a'i bod yn hawdd dod o hyd iddi. Yn yr un modd, dywedodd IBT, VLV, WGGB, yr Athro Hardy a rhai ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd yr hoffent weld sianel ddarlledu BBC Three yn cael safle amlwg.

Roedd COBA wedi mynegi pryderon difrifol am effaith sianel BBC Three arfaethedig ar y farchnad, o ran y costau i ddarlledwyr llai ac effaith y newidiadau i'r EPG arnynt: yn enwedig yn dilyn y broses gynharach i ad-drefnu'r EPG o dan arweiniad y rheoleiddiwr yn 2019.

Ategwyd hyn gan eraill – yn enwedig darlledwyr teledu drwy dalu – a oedd, ymysg eu hymatebion, wedi rhoi cyd-destun cyfnod o gostau ychwanegol a tharfu ac ansicrwydd parhaus i ddarparwyr, darlledwyr a defnyddwyr yn dilyn y newidiadau rheoleiddio yn 2019. Soniwyd mewn rhai o'r ymatebion am yr effaith anghymesur yr oedd y newidiadau blaenorol wedi'i chael ar wylwyr oedrannus a bregus. Felly, nid oedd rhai darlledwyr teledu drwy dalu o'r farn ei bod yn rhesymol nac yn gymesur i ddarparwyr EPG ddiwygio rhestrau sianeli eto er mwyn rhoi safle amlwg i BBC Three. Mynegwyd pryderon ynghylch cystadleuaeth. Dywedodd rhai darparwyr nad oedd slotiau gwag yn y 24 safle uchaf, ac aethant ymlaen i ddweud yn eu hymatebion na fyddent yn ail-negodi cytundebau cludo sianeli gyda darlledwyr er mwyn addasu i'r newid. Tynnwyd sylw hefyd at faterion yn ymwneud ag amlygrwydd BBC Three ledled y DU – gyda'r ymatebion yn rhoi enghreifftiau o ystyriaethau ychwanegol yng Nghymru a'r Alban.

Gofynnwyd am asesiad o'r effaith ar y farchnad wrth ddisodli safleoedd ar yr EPG – gan ganolbwyntio ar y refeniw a'r gyfran wylio a allai gael eu colli, ac ar faich

gwariant ychwanegol – a fyddai'n cael ei gynnal gyda darparwyr a darlledwyr mewn golwg.

Ymysg yr atebion gan ddarlledwyr teledu drwy dalu, cafodd y broblem gyda'r EPG ei disgrifio fel problem a oedd wedi cael ei chreu gan y BBC, ac roeddent yn dadlau mai'r gorfforaeth ei hun ddylai ei datrys o fewn ei phortffolio EPG presennol.

Gofynnodd Channel 4 am i waith gael ei wneud ar yr effaith ar y farchnad mewn perthynas ag amlygrwydd BBC Three a'i safle ar yr EPG. Fel rhan o hyn, gofynnodd am bwyslais penodol ar yr effeithiau a allai godi pe bai'r BBC yn cyfnewid y sianel hon ag un arall nes ymlaen (er enghraifft, BBC Four) ar ôl ei lansio. Fel arall, galwodd Channel 4 am warant y byddai BBC Three yn aros yn slot 24 ar yr EPG. Ategwyd hyn gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn eu hymatebion, a oedd yn galw am roi'r slot isaf posibl i sianel BBC Three er mwyn iddi gael yr amlygrwydd priodol.

### 3.7.3 Ein cynnig terfynol

Rydym wedi ystyried ymatebion rhanddeiliaid yn ofalus, ac o ganlyniad rydym wedi gwneud rhai newidiadau i'n cynigion ynghylch safle BBC Three ar yr EPG. Yn benodol, rydym yn nodi:

- Y gefnogaeth gref ymysg deiliaid hawliau a grwpiau cynulleidfa i roi safle amlwg i BBC Three;
- Dyhead ymysg llwyfannau a sianeli masnachol i hyn darfu cyn lleied â phosibl ar yr EPG ac ar safle sianeli eraill; ac
- Y galwadau gan Channel 4 a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill am ymrwymiad i gadw'r sianel newydd yn slot 24 am gyfnod amhenodol.

Rydym ni'n cynnig y dylai Ofcom fynnu lle amlwg i sianel ddarlledu newydd BBC Three o fewn 24 slot uchaf yr EPG, gan ei bod yn sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus sydd o ddiddordeb cyffredinol. Byddem hefyd yn annog Ofcom i gyflymu'r broses hon, ac i fynnu bod llwyfannau'n rhoi lle amlwg i sianel newydd BBC Three cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl.

Pan fydd y broses o ad-drefnu slotiau'r BBC yn y 24 safle uchaf ar yr EPG yn arwain at ryddhau slot ar gyfer y sianel newydd, gan darfu felly cyn lleied â phosibl ar yr EPG, byddwn ni'n mynd ati i wneud hynny. Mae'n bosibl cyflawni hyn o fewn y ddwy flynedd nesaf os bydd y BBC yn llwyddo i lansio fersiynau HD o holl amrywiadau rhanbarthol BBC One a BBC Two HD, gan na fyddai arnom angen safle amlwg ar restrau HD a SD mwyach ar gyfer BBC One a BBC Two yn Lloegr/Gogledd Iwerddon. Yn yr un modd ar Freesat, byddwn yn symud y gwasanaethau 'darlledu cydamserol' SD i lawr yn is er mwyn gallu rhoi BBC Three yn safle 110 ar yr EPG ar draws y DU.

Ar gyfer Freeview / YouView, rydym yn cynnig y dylai'r sianel newydd fod yn slot 24 ar yr EPG, neu yn y slot gwag isaf sydd ar gael o fewn y 24 slot uchaf ar yr EPG.

Nid oes gennym unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gyfnewid slotiau BBC Three a BBC Four ar yr EPG.

Er nad ydym o reidrwydd yn credu y byddwn wedi gallu sicrhau'r slotiau hyn ar yr EPG erbyn y lansiad ym mis Ionawr 2022, rydym yn obeithiol y byddant wedi cael eu sicrhau o fewn 18 mis i'r lansiad.

**Ffigur 2: Slotiau disgwyliedig BBC Three ar yr EPG, yn ôl llwyfan**

| **Llwyfan** | **Safle newydd ar yr EPG** | |
|---|---|---|
| | Lloegr / Gogledd Iwerddon | Cymru / Yr Alban |
| Freeview/Youview | 24 | 24 |
| Sky | 15 | 24 |
| Freesat | 10 | 10 |
| Virgin | 8 | 24 |

*Nodiadau: Mae'r safleoedd ar yr EPG yn adlewyrchu'r fersiwn uchaf o'r sianel ar yr EPG (SD neu HD, gan ddibynnu ar y llwyfan).*

Felly, yn ein dadansoddiad o'r farchnad sy'n edrych tua'r dyfodol, rydym wedi modelu'r slotiau hyn ar yr EPG. Ond yn hytrach na modelu gwahaniaethau rhwng safle'r slotiau fesul gwlad, rydym wedi defnyddio'r slot uchaf posibl rhwng y gwledydd ar bob llwyfan, sy'n geidwadol iawn. Mae'r gwaith modelu hwn yn rhan annatod o'n dadansoddiad o'r effaith ar y farchnad. Rydym ni o'r farn y dylai hyn roi digon o sicrwydd i randdeiliaid ynghylch ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

## 3.8 Cyllideb

### 3.8.1 Ein cynigion ymgynghori

Yn ein hymgynghoriad, roeddem wedi nodi mai £79 miliwn oedd yr amcangyfrif o'n cyllideb ar gyfer sianel newydd BBC Three, ac y byddai tua £72.5m o hynny'n mynd at y gyllideb cynnwys, gyda chostau gweithredu blynyddol o £6.5m (ond mai dim ond tua £2m y flwyddyn oedd costau gweithredu ychwanegol y sianel). Roeddem hefyd wedi amcangyfrif costau lansio untro o £3.5m.

### 3.8.2 Adborth rhanddeiliaid

Gofynnodd Pact am eglurder ynghylch cyllidebau comisiynu i BBC Three ar gyfer gwasanaethau ar-lein a llinol.

Pwysleisiodd Pact eto ei bod yn rhaid i'r Telerau Masnach fod yn berthnasol i'r holl gomisiynu, a gofynnodd am i becynnau hawliau newydd gael eu cynnig, a fyddai'n galluogi cynhyrchwyr i gadw a manteisio ar hawliau ar ôl y brif ffenestr. Gofynnodd am eglurder ynghylch tariffau ar-lein yn unig yn erbyn tariffau llinol, ac ynghylch gallu'r cynhyrchydd i gadw hawliau pan fydd y ffenestri hyn yn cael eu hymestyn neu eu newid. Gofynnodd Pact am sicrwydd na fyddai unrhyw gomisiynu drwy'r drws cefn i BBC One na BBC Two drwy Dariffau BBC Three, a gofynnodd am i hyn gael ei adlewyrchu'n deg yn y trafodaethau.

Roedd Directors UK yn croesawu trafodaethau'r BBC â Pact, a galwodd am dâl teg o ran hawliau yn yr un modd, gan gyfeirio at ddull comisiynu ar gyfer iPlayer yn gyntaf, ffenestri hawliau estynedig a breindaliadau. Mynegodd rai pryderon ynghylch pwysau cyllidebol BBC Three, yn enwedig y pwysau y gallai hyn ei achosi'n is i lawr ar wneuthurwyr rhaglenni sy'n gwneud mwy am lai.

Roedd WGGB yn ategu'r angen am dâl a defnydd teg o hawliau ar gyfer ymarferwyr creadigol. Mynegodd bryderon ynghylch cynyddu cyllideb BBC Three drwy leihau'r gwariant ar gomisiynau drama BBC Two, gan alw hyn yn economi ffug.

Mynegodd rhai darlledwyr teledu drwy dalu rywfaint o bryderon y gallai cynnydd yng nghyllideb BBC Three ehangu'r cynnwys sydd ar gael ar BritBox drwy driniaeth ffafriol a ffenestri hawliau eilaidd: gan fygwth gwasanaethau ar-alw eraill.

### 3.8.3 Ein cynnig terfynol

Mae'r amcangyfrif terfynol o'r gyllideb ar gyfer y sianel newydd wedi'i nodi yn Ffigur 3 isod. Mae ein hamcangyfrifon o'r gwariant cynnwys yn ôl math o raglenni wedi'u nodi yn Ffigur 4.

**Ffigur 3: Amcangyfrif o'r gyllideb ar gyfer sianel newydd BBC Three**

| | Costau Lansio | Costau Blynyddol |
|---|---|---|
| **Costau Lansio** | | |
| Technoleg, gweithrediadau a chostau marchnata untro ar gyfer y lansiad | £3.5m | - |
| **Costau parhaus cynnwys BBC Three** | | |
| Cyllideb cynnwys BBC Three | - | £72.5m |
| Cyfanswm costau parhaus cynnwys BBC Three | - | £72.5m |
| **Costau parhaus gweithredu'r sianel** | | |
| Marchnata<br>*(£1.2m o gynnydd ar gyllideb farchnata bresennol BBC Three)* | - | £5.7m |
| Technoleg a gweithrediadau | - | £0.8m |
| Cyfanswm costau gweithredu'r sianel | - | £6.5m |
| **Cyfanswm Costau** | **£3.5m** | **£79.0m** |

**Ffigur 4: Amcangyfrif o'r gyllideb cynnwys ar gyfer sianel newydd BBC Three, yn ôl genre**[12]

| **Genre Rhaglenni** | |
|---|---|
| Rhaglenni Gwreiddiol wedi'u Sgriptio | £29m |
| Rhaglenni Gwreiddiol heb eu Sgriptio | £38.5m |
| Rhaglenni wedi'u Prynu ac Ailddarllediadau | £5m |
| **Cyfanswm y Costau Cynnwys** | **£72.5m** |

Byddwn yn dechrau trafodaethau â Pact a deiliaid hawliau eraill ynghylch y fframwaith hawliau priodol i gefnogi lansiad y sianel newydd. Rydym yn fodlon rhoi sicrwydd i ddeiliaid hawliau na fydd unrhyw gomisiynu drwy'r drws cefn i BBC One na BBC Two drwy Dariffau BBC Three, ac na fydd gemau'n cael eu chwarae â chyd-gynyrchiadau comisiynu cenedlaethol / rhanbarthol. Bydd y BBC yn talu pris teg am

[12] Sylwch y bydd yr amcangyfrif hwn yn amrywio bob blwyddyn, wrth i BBC Three gomisiynu gwahanol raglenni ac wrth i gymysgedd cynnwys y sianel ddatblygu.

raglenni sy’n adlewyrchu cynnig y sianel, ei chynulleidfa a'r defnydd ohoni ar draws y sianel newydd ac ar iPlayer.

Nid oes cynnydd yn nifer y rhaglenni y mae’r BBC yn eu comisiynu o ganlyniad i lansio sianel deledu BBC Three. O’r herwydd, ni fydd unrhyw effaith ar y cynnwys a fydd ar gael ar BritBox UK o ganlyniad i lansio’r sianel newydd.

## 4. Asesiad o Werth Cyhoeddus

Mae'n rhaid i'r BBC fod yn fodlon bod gwerth cyhoeddus newid sylweddol i Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Yn yr adran hon, rydym yn egluro sut bydd lansio BBC Three fel sianel deledu newydd yn sicrhau gwerth cyhoeddus – i unigolion, i gymdeithas yn gyffredinol ac i ddiwydiant – yn unol â'n Cenhadaeth a'n Dibenion Cyhoeddus.

Mae hyn yn seiliedig ar:

- Ymatebion rhanddeiliaid i'n hymgynghoriad – mae'r manylion i'w gweld yn Atodiad 2;
- Ymchwil feintiol ac ansoddol ar y gynulleidfa gan MTM (a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ddogfen hon);
- Tri digwyddiad trafod â grwpiau buddiannau ieuenctid;[13]
- Dadansoddiad a gwaith modelu economaidd – mae'r manylion i'w gweld yn Atodiad 1.

### 4.1 Ymagwedd at Werth Cyhoeddus

Yn 2020 buom yn gweithio gyda'r Athro Mariana Mazzucato ac IIPP (Institute for Innovation and Public Purpose) yng Ngholeg y Brifysgol, Llundain ar ddatblygu fframwaith newydd i asesu gwerth cyhoeddus yn y BBC, a arweiniodd at adroddiad cwmpasu ar gyfer mesur gwerth cyhoeddus deinamig.[14] Mae llawer o elfennau gwahanol i werth cyhoeddus, ac wrth i'n hymagwedd ddatblygu, rydym yn ystyried gwerth cyhoeddus deinamig ar dair lefel:

1) Gwerth personol/i'r unigolyn – i ba raddau y bydd ein newidiadau yn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd, yn parhau i gynnig gwasanaeth gwirioneddol gyffredinol iddynt, ac felly'n sicrhau gwerth da am arian o ran ffi'r drwydded;
2) Gwerth cymdeithasol/i gymdeithas – i ba raddau y gall ein newidiadau hybu gwerth cymdeithasol. Ein prif ddiffiniad ni o hynny yw sut bydd newid yn galluogi'r BBC i gyflawni ein Cenhadaeth ac i hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn well; a

---

[13] Fe wnaethom gynnal tri digwyddiad trafod, y cyntaf â sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau pobl ifanc, sy'n cael eu galw yma fel 'digwyddiadau trafod â sefydliadau'. Dyma'r sefydliadau a oedd yn bresennol yn y sesiwn hon: Uprising, Youth Futures Foundation, MAMA Youth Project, Prince's Trust, National Citizen Service Trust, RECLAIM, Youth Focus North West, ac Ushine, Ishine. Cafodd y BBC gyfarfodydd hefyd ag aelodau o Future Voices Group, llysgenhadon ieuenctid ar ran Youth Futures Foundation, ac aelodau o Youth Voice Forum y National Citizen Service. Mae'r digwyddiadau trafod hyn yn cael eu galw'n 'ddigwyddiadau trafod â chynrychiolwyr ieuenctid'. Cynhaliwyd y sesiynau hyn er mwyn casglu barn a gwybodaeth am apêl a gwerth cyhoeddus y sianel newydd.

[14] *Creating and Measuring dynamic public value at the BBC – A scoping report*, Institute for Innovation and Public Purpose, Rhagfyr 2020.

3) Gwerth i'r diwydiant – gan edrych ar werth cyhoeddus yn ehangach, i ba raddau y gall ein newidiadau feithrin gwerth i'r diwydiant, gan fod yn rym creadigol drwy gefnogi buddsoddiad, hybu arloesedd, a siapio ac ysgogi'r economi greadigol ar draws y DU.

Mae'n bwysig nodi bod y newidiadau arfaethedig rydym yn eu hystyried fel rhan o Brawf Budd y Cyhoedd yn ymwneud â lansio BBC Three fel sianel deledu, ac nid y cynnydd yn y gyllideb cynnwys a'r rhaglenni a oedd eisoes wedi cael eu cyhoeddi. Felly, nid ydym yn honni bod gwerth cyhoeddus y newid yn ymwneud â'r cynnydd yn nifer y rhaglenni BBC Three a gaiff eu cynhyrchu gyda'r gyllideb hon. Yn hytrach, rydym yn nodi'r cynnydd o ran defnydd ac ymwybyddiaeth o'r rhaglenni hyn, a'r BBC yn ei gyfanrwydd, a fydd yn deillio o lansio'r sianel newydd. Hefyd, wrth ddisgrifio natur unigryw'r sianel arfaethedig mewn perthynas â gwasanaethau eraill, mae'n amlwg bod angen disgrifio'r rhaglenni y bydd yn eu dangos.

Mae gweddill Adran 4 yn egluro ein dadansoddiad o'r graddau y bydd sianel deledu newydd BBC Three yn cynnig gwerth personol, gwerth cymdeithasol a gwerth i'r diwydiant.

### 4.2 Gwerth personol

Mae gwerth personol yn rhan o berthynas uniongyrchol y BBC â chynulleidfaoedd, sy'n hanfodol er mwyn galluogi'r BBC i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Rhaid i'n cynulleidfaoedd deimlo bod y BBC yn darparu gwerth am arian ar gyfer ffi'r drwydded ar draws amrywiaeth o'i wasanaethau – o ran y cynnwys rydym yn ei ddarparu yn ogystal â'r ffordd rydym yn creu cysylltiad ac yn ymgysylltu ag unigolion ar lefel bersonol, gan ddod â nhw'n nes at y BBC.

Mae ein dadansoddiad – sy'n seiliedig ar ymchwil cynulleidfa, digwyddiadau trafod ac ymatebion i'n hymgynghoriad – yn dangos bod gwerth personol ein cynigion yn debygol o fod yn uchel am y rhesymau canlynol:

- Bydd sianel ddarlledu newydd BBC Three yn ymgysylltu ar lefel ddyfnach â chynulleidfaoedd iau, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, drwy'r ymdeimlad bod rhan o'r BBC yn perthyn "i mi";
- Bydd sianel deledu BBC Three yn ffordd ychwanegol a chyfleus i gynulleidfaoedd iau wylio rhaglenni sy'n bwysig iddyn nhw;
- Bydd sianel deledu BBC Three yn ffenestr siop i BBC Three, a fydd yn annog pobl i ddod o hyd i gynnwys BBC Three, gan gynnwys mynd ymlaen i iPlayer;
- Gall sianel ddarlledu BBC Three fod yn gartref i ddigwyddiadau chwaraeon a cherddoriaeth fyw na fyddent yn cael eu dangos ar deledu llinol fel arall;
- Gallai BBC Three (y sianel ddarlledu ac ar iPlayer) gyrraedd 12.4% o bob cynulleidfa, ac 16.0% o bobl 16-34 oed, fel cyfartaledd wythnosol yn 2022.

Hefyd, rhagwelir y bydd hyn yn codi 0.8 pwynt canran ymysg pob cynulleidfa erbyn 2024, ac 1 pwynt canran ar gyfer pobl 16-34 oed; a

- Bydd sianel deledu BBC Three yn cynnig mwy o werth am arian ar gyfer ffi'r drwydded.


### 4.2.1 Bydd sianel ddarlledu BBC Three yn ymgysylltu ar lefel ddyfnach â chynulleidfaoedd iau, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, drwy'r ymdeimlad bod rhan o'r BBC yn perthyn "i mi"

Mae angen i'r BBC ganolbwyntio ar gryfhau ei berthynas uniongyrchol â'n cynulleidfaoedd, gan gysylltu ac ymgysylltu ar lefel ddyfnach, yn enwedig gyda chynulleidfaoedd iau.

Mae ein hymchwil cynulleidfa dros y blynyddoedd diwethaf yn dangos yn glir nad yw cynulleidfaoedd iau yn ystyried bod gan y BBC ddigon o gynnwys perthnasol iddyn nhw. Er bod y BBC yn cynnig nifer o raglenni prif ffrwd ar BBC One a BBC Two sy'n addas i bawb, ac sy'n cael eu gwylio gan gynulleidfaoedd iau, nid ydym yn cynnig digon o gynnwys y mae pobl iau yn teimlo sydd wir yn berthnasol 'i mi' (ac nid i bawb arall).

Cynnwys 'i mi' yw'r cynnwys mwyaf poblogaidd a phwysig i gynulleidfaoedd iau – cynnwys sy'n eu helpu i greu eu hunaniaeth ac sy'n wahanol, yn deinamig, yn ddifyr ac yn uchelgeisiol. Mae Ffigur 5 yn dangos gwerth cyfryngau 'i mi'.

**Ffigur 5: Cyfryngau 'I mi'**




*Ffynhonnell: Cynulleidfaoedd y BBC*[15]

[15] Ymchwil Cynulleidfaoedd y BBC: *What do 13-30s value the most from media?*, Gorffennaf 2019, tudalen 11.

Mae'r brandiau sydd bwysicaf i gynulleidfaoedd iau yn darparu cynnwys 'i mi' mewn ffordd bersonol a rhwydd, sy'n gwneud iddyn nhw wylio'n amlach a, thrwy hynny, yn cynyddu gwerth y BBC yn eu llygaid nhw.[16]

Bydd sianel deledu newydd BBC Three yn cryfhau'r berthynas uniongyrchol â chynulleidfaoedd iau drwy alluogi'r rheini sy'n dal i wylio teledu llinol yn gyson i gael gafael ar gynnwys BBC Three, drwy fod yn ffenestr siop sy'n golygu bod cynnwys BBC Three ar gael yn fwy hwylus a'i bod yn haws dod o hyd iddo, a drwy ddyfnhau perthynas cynulleidfaoedd â BBC Three, iPlayer a'r BBC yn gyffredinol.

#### *4.2.1.1 Bydd sianel ddarlledu BBC Three hefyd yn gwella ymwybyddiaeth a chanfyddiadau cynulleidfaoedd iau o BBC Three a'r BBC*

Dangosodd ymchwil cynulleidfa MTM fod yr ymwybyddiaeth o frand BBC Three yn gymysg (gwelwyd hynny yn y digwyddiadau trafod â chynrychiolwyr ieuenctid hefyd), a bod dryswch hefyd ynghylch y berthynas rhwng BBC Three ac iPlayer. Canfu'r ymchwil fod llawer o wylwyr sianel flaenorol BBC Three heb ddilyn y sianel pan aeth ar-lein yn 2016.

Canfu'r ymchwil hefyd nad yw'r BBC, i lawer o gynulleidfaoedd ifanc, yn sefydliad sy'n cynhyrchu cynnwys iddyn nhw, ac nad yw'n ddarparwr y maen nhw'n troi ato. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymchwil flaenorol. Mae'r BBC yn cael ei ystyried yn hen, yn grand, yn rhy ddifrifol ac yn anaddas iddyn nhw.[17] Mae ailsefydlu rhan o'r BBC sy'n ymroddedig i'w hanghenion nhw yn rhan o'r rhaglen i feithrin y berthynas honno.

Er enghraifft, ar ôl edrych ar dudalen BBC Three ar iPlayer yn ystod ein hymchwil ansoddol, roedd nifer yn synnu at amrywiaeth y cynnwys a oedd ar gael, gydag un person yn dweud: *Roeddwn i wedi synnu braidd a bod yn onest, doeddwn i ddim yn disgwyl y byddai cymaint o raglenni y byddwn i'n awyddus i'w gwylio.*[18]

Dywedodd person arall:

> *Oedd cyfres Normal People ar BBC Three? Achos mi wnes i ei gwylio drwy iPlayer. Dwi ddim yn siŵr a oedd hynny drwy'r sianel ai peidio?*
>
> a dywedodd un arall:
>
> *Dwi wedi gwylio cyfres Bad Education ond, am ryw reswm, dwi wastad wedi meddwl ei bod ar Channel Four….*[19]

---

[16] Ibid, tudalennau 3 ac 8.
[17] Gweler ymchwil MTM, tudalennau 15 a 23.
[18] Ymchwil MTM, tudalen 16.
[19] Ymchwil MTM, tudalen 14.


Gwelwyd hyn dro ar ôl tro yn ein digwyddiadau trafod â chynrychiolwyr ieuenctid, lle dywedodd un person ifanc, er enghraifft:

> *Doeddwn i ddim yn sylweddoli cymaint o bethau sy’n gynnwys gan BBC Three, sy'n brawf y dylid ailgyflwyno’r sianel, oherwydd rydych chi’n gwneud cynnwys dydyn ni ddim yn gwybod ei fod ar gael.*
>
> a dywedodd un arall:
>
> *Mae llawer mwy o raglenni dogfen a phethau felly sy’n berthnasol i bobl ifanc, sy’n amlwg yn gynnwys gan BBC Three – a dyna dwi’n eu gwylio fwyaf, ond wnes i erioed sylweddoli mai rhaglenni BBC Three oedden nhw. Mae’n siŵr y byddwn i’n mynd i’r man hwnnw i wylio'r teledu.*

Bydd sianel deledu newydd BBC Three yn darparu sianel BBC benodol i gynulleidfaoedd iau, sy’n darlledu rhaglenni sy’n berthnasol iddyn nhw a’u bywyd. Bydd hefyd yn helpu i newid canfyddiadau ymysg cynulleidfaoedd iau a chynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu cynrychioli’n ddigonol (ee, BAME, LGBTQ+) bod y BBC yn draddodiadol, yn gul ac yn sych.[20] Bydd yn sianel sy’n annog y cynulleidfaoedd hyn i deimlo bod y BBC yn cynnig rhaglenni teledu iddyn nhw.

Yn ôl ein hymchwil feintiol, pan fydd cynulleidfaoedd yn cael gwybod am y cynnig i lansio BBC Three fel sianel deledu newydd, maen nhw’n edrych yn fwy ffafriol ar BBC Three (heblaw am y grŵp oedran hynaf). Mae hyn yn arbennig o wir ymysg cynulleidfaoedd iau (edrychwch ar Ffigur 6).

**Ffigur 6: Edrych yn ffafriol ar BBC Three, yn ôl grŵp oedran**





*Ffynhonnell: MTM*[21]

[20] Ymchwil MTM, tudalen 15.
[21] Ymchwil MTM, tudalen 21.

Roedd canlyniadau meintiol MTM yn dangos yn arbennig y newid mewn canfyddiadau ymysg pobl 16-34 oed ar ôl cael gwybod am y cynigion, fel sy'n cael ei grynhoi yn Ffigur 7.

**Ffigur 7: Canfyddiadau pobl 16-34 oed o BBC Three**





*Ffynhonnell: MTM*[22]

Ategwyd y canfyddiadau meintiol hyn gan yr ymchwil ansoddol, gydag un person ifanc yn dweud, *…mae'n gwneud i mi feddwl bod y BBC yn gwneud ymdrech i fod yn berthnasol i bobl ifanc, ac i gynnig rhywbeth ffasiynol y tu hwnt i BBC One a BBC Two.*[23] Ar ben hynny, mae apêl y cynnig ar ei chryfaf ymysg cynulleidfaoedd targed y sianel – sef cynulleidfaoedd iau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol – gyda'r cynnydd mwyaf o ran canfyddiadau o BBC Three i'w weld ymysg cynulleidfaoedd BAME 16-34 oed, fel y mae Ffigur 8 yn dangos.

---

[22] Ymchwil MTM, tudalen 30.
[23] Ymchwil MTM, tudalen 23.

**Ffigur 8: Effaith bersonol BBC Three**




*Ffynhonnell: MTM*[24]

Ar ôl cael gwybod am y newidiadau, mae gan hanner y cynulleidfaoedd BAME farn ffafriol am BBC Three, o'i gymharu â 32% o gynulleidfaoedd gwyn. Fel y dywedodd un person: *Mae yna bobl Asiaidd a phobl dduon. Dwi'n teimlo ei fod yn amrywiol iawn. Dwi'n meddwl bod hynny'n rhywbeth positif, ac yn rhywbeth dydych chi ddim yn tueddu i'w weld ar y teledu.*[25]

Mae'r ymchwil hefyd yn dangos cynnydd sylweddol ymysg cynulleidfaoedd C2DE, gan godi o 25% i 34%, a'r rheini sydd â chysylltiad gwannach â'r rhyngrwyd (sy'n cael trafferth ffrydio neu lawrlwytho cynnwys fideo ar eu cysylltiad band eang), gan godi o 30% i 40% – ar ôl cael gwybod am BBC Three yn dod yn sianel deledu.[26]

> Rwy'n credu ei fod yn benderfyniad sy'n edrych tua'r dyfodol. Yn ei hanfod, mae'n golygu rhoi neges i bobl ifanc i ddweud bod y BBC yn rhoi pwyslais arnoch chi, a'ch bod chi'n bwysig i ni. A'n bod ni, mewn cyd-destun darlledu, eisiau cael sgyrsiau pwysig am hunaniaeth, amgylchedd ac ati ar eich cyfer chi. ...mae byd darlledu a fideo ar-alw yn mynd law yn llaw. Mae'n bosibl gweld rhaglenni da ar y naill a'r llall. Pwrpas hyn yw dweud bod brand BBC Three yn weladwy, a bod y genhedlaeth ifanc yn bwysig i'r BBC.
>
> ~~ Ash Atalla, Cynhyrchydd, Roughcut TV, ar raglen *Today Programme*, 3 Mawrth 2021

24 Ymchwil MTM, tudalen 48.
25 Ymchwil MTM, tudalen 40.
26 Ibid.


### 4.2.2 Bydd sianel ddarlledu BBC Three yn ffordd ychwanegol a chyfleus o wylio

Mae cynulleidfaoedd eisiau gallu cael gafael ar gynnwys a'i wylio mewn ffordd rhwydd a chyfleus, ac – fel y trafodwyd uchod – nid ydynt o reidrwydd yn dod o hyd i gynnwys BBC Three ar hyn o bryd.

Felly, bydd sianel deledu BBC Three yn ffordd allweddol o ddod o hyd i raglenni BBC Three. Mae ein hymchwil yn ategu hyn, lle gwelwyd bod digwydd taro ar raglenni yn un o fanteision y sianel, yn ogystal â'i bod yn bwynt mynediad ychwanegol ar gyfer iPlayer.

Mae dros hanner y bobl 16-34 oed yn cytuno y bydd y sianel yn ei gwneud hi'n haws gwylio neu ddod o hyd i raglenni BBC Three, ac yn fwy tebygol o chwilio am raglenni newydd ar y sianel newydd, fel sy'n cael ei grynhoi yn Ffigur 9.

**Ffigur 9: Effaith bersonol lansio BBC Three fel sianel deledu yn ôl pobl 16-34 oed**




*Ffynhonnell: MTM*[27]

Bydd y sianel yn fwy cyfleus ac yn golygu bod rhaglenni BBC Three ar gael yn fwy hwylus, gyda chynulleidfaoedd iau hefyd yn awgrymu y byddan nhw'n troi fwy at BBC Three fel rhywle i wylio rhaglenni. Fel y dywedodd un person:

> *Mae'n rhaid i chi wneud ymdrech fwriadol i fynd ati i chwilio am y rhaglenni hyn ar iPlayer...Byddai sianel deledu yn helpu i arddangos rhai o'r rhaglenni hyn i bobl.*

Dywedodd un arall:

---

[27] Ymchwil MTM, tudalen 31.

*Mae ar flaenau'ch bysedd dydy…dim ond rhoi'ch teledu ymlaen. Dyna ydy'r ffordd hawsaf o ddod o hyd i'r hyn rydych chi'n chwilio amdano. Yr unig reswm nad ydw i'n gwylio BBC Three ydy oherwydd nad ydy BBC Three ar y teledu… pell o'r golwg, pell o'r meddwl!*[28]

Yn eu hymatebion i'n hymgynghoriad, mae rhai rhanddeiliaid hefyd yn tynnu sylw at werth cyhoeddus hwylustod y sianel, er enghraifft:

- Mae BFI yn dweud bod digwydd gwylio'n anfwriadol wrth wylio teledu llinol sy'n ffenestr siop yn gallu helpu i ehangu gorwelion ac ehangu chwaeth bersonol mewn ffordd na all gwasanaethau ar-lein ei wneud.
- Mae Directors UK, IBT, VLV ac WGGB i gyd yn cytuno y bydd sianel deledu BBC Three yn cyflawni'r egwyddor graidd o sicrhau'r un gwerth i bawb, a fydd yn arbennig o fuddiol i gynulleidfaoedd sydd â diffyg mynediad at wasanaethau digidol ar-alw.
- Mae Directors UK, IBT, VLV, WGGB a'r Athro Jonathan Hardy i gyd o blaid rhoi safle amlwg i sianel deledu BBC Three ar yr EPG, er mwyn sicrhau bod y sianel ar gael yn hwylus a'i bod yn hawdd dod o hyd iddi.

Ategwyd y teimladau hyn yn y digwyddiadau trafod â chynrychiolwyr ieuenctid.

Bydd sianel deledu BBC Three yn sicrhau bod cynnwys BBC Three ar gael i bob cynulleidfa, bydd yn bwynt mynediad cyfleus ychwanegol ar gyfer gwylio, a bydd hefyd yn ffordd allweddol o ddod o hyd i gynnwys BBC Three.

#### *4.2.2.1 Bydd sianel ddarlledu BBC Three hefyd yn annog pobl i ddod o hyd i gynnwys BBC Three ar iPlayer*

Mae pobl ifanc yn disgwyl dod o hyd yn rhwydd i gynnwys sy'n berthnasol iddyn nhw. Er bod rhaglenni BBC Three yn apelio at gynulleidfaoedd iau, mae canlyniadau ein hymchwil a'n trafodaethau mewn digwyddiadau trafod yn awgrymu ymwybyddiaeth gymysg o'r brand, dryswch ynghylch y berthynas rhwng BBC Three ac iPlayer, a bod llawer o raglenni BBC Three ddim yn cael eu priodoli i BBC Three (ee, yn cael eu cysylltu â brandiau eraill neu Netflix).



*Ffynhonnell: Tweetwatch, 3 Mawrth 2021*

Ar ôl edrych ar dudalen BBC Three ar iPlayer, roedd llawer o'r rheini a gymerodd ran yn yr ymchwil ansoddol yn synnu at amrywiaeth cynnwys BBC Three, ac wedi cael gwybod mai rhaglenni BBC Three yw rhai o'u hoff raglenni.

[28] Ymchwil MTM, tudalennau 23 a 31.

O ganlyniad, mae cynulleidfaoedd yn teimlo y bydd sianel ddarlledu BBC Three yn helpu i ddarparu 'ffenestr siop' ar gyfer cynnwys BBC Three ar iPlayer. Bydd hyn yn golygu bod mwy o bobl yn dod o hyd i'r cynnwys, a bydd yn help gyda phroblemau a nodwyd ynghylch ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r brand. Ategwyd y canfyddiadau hyn yn ein digwyddiadau trafod â chynrychiolwyr ieuenctid.

Ar ôl cael gwybod am y cynigion, mae 38% o'r boblogaeth a 46% o bobl 16-34 oed yn teimlo y bydd y sianel yn eu helpu i ddod o hyd i raglenni newydd, ac mae 35% o'r boblogaeth a 46% o bobl 16-34 oed yn teimlo y bydd y sianel yn cynnig rhaglenni teledu o safon uchel iddynt.[29] Hefyd, mae ~40% o gynulleidfaoedd iau yn cytuno y byddant, o ganlyniad i'r sianel, yn mynd i iPlayer i ddal i fyny gyda rhaglenni / i wylio penodau yn y dyfodol neu raglenni yr oeddent wedi'u gwylio ar BBC Three, a hefyd yn mynd i iPlayer i ddod o hyd i raglenni tebyg.[30]


Fel y dywedodd un person:

> *Dwi'n meddwl y bydd rhoi cynnwys ar sianel deledu yn annog pobl i ddod o hyd i raglenni newydd, pethau na fyddai pobl o reidrwydd yn chwilio amdanynt ar iPlayer. Mae'n fwy cynhwysol cael mynediad at wasanaethau ar-alw a sianel deledu.*[31]

Hefyd, dywed BFI yn ei ymateb ei fod yn credu y bydd cael sianel ddarlledu benodol fel BBC Three, sy'n gweithredu fel ffenestr siop, yn helpu cynulleidfaoedd i ymgysylltu â chynnwys y tu hwnt i'w chwaeth bersonol, gan ehangu eu gorwelion. Gwnaed pwynt tebyg yn y digwyddiadau trafod – bod pobl ifanc yn tueddu i fynd i iPlayer i chwilio am raglenni penodol i'w gwylio. Ond, gyda sianel deledu, maen nhw'n fwy tebygol o ddigwydd taro ar rywbeth diddorol na fyddent wedi ystyried ei wylio fel arall o bosibl.

Fel y dywedodd dau berson a oedd yn cymryd rhan:

> *Bydd [iPlayer] yn dod yn fwy o ganolbwynt ar gyfer y sianel*, a *bydd yn cyflwyno BBC Three i fwy o bobl. Dwi'n meddwl bod llawer o bobl ddim yn mynd i BBC iPlayer, felly os byddan nhw'n gweld BBC Three fel sianel eto, efallai y byddan nhw'n mynd i'r ap.*[32]



*Ffynhonnell: MTM*

Yn ei ymateb, mae IBT hefyd yn gweld gwerth yn ein strategaeth ddeuol o ganolbwyntio ar wasanaethu

[29] Ymchwil MTM, tudalen 29.
[30] Ymchwil MTM, tudalen 38.
[31] Ymchwil MTM, tudalen 29.
[32] Ymchwil MTM, tudalen 37.

cynulleidfaoedd iau ar y sianel ddarlledu a chefnogi twf iPlayer – gorau po fwyaf hwylus yw cynnwys y BBC i'w gynulleidfaoedd.

Felly bydd sianel deledu newydd BBC Three yn ffenestr siop i gynulleidfaoedd iau ar gyfer cynnwys BBC Three. Bydd hyn yn annog pobl i ddod o hyd i'r cynnwys ac i fynd ymlaen i iPlayer, gan gynyddu'r ymgysylltu â chynulleidfaoedd iau. Drwy weithio gyda'i gilydd, bydd y sianel ac iPlayer yn sicrhau bod y brand yn fwy byw ym meddwl pobl (gyda chynulleidfaoedd yn gallu deall yn well beth mae BBC Three yn ei gynnig iddynt) – a fydd yn codi ymwybyddiaeth o'r brand ac yn annog cynulleidfaoedd iau i ymgysylltu â'r BBC ar lefel ddyfnach.[33]

### 4.2.3 Gall sianel ddarlledu BBC Three fod yn gartref i ddigwyddiadau chwaraeon a cherddoriaeth fyw na fyddent yn cael eu dangos ar deledu llinol fel arall o bosibl

Mae sianel deledu BBC Three yn gyfle i ddarparu llwyfan ar gyfer cynnwys fel digwyddiadau chwaraeon a cherddoriaeth fyw na fyddent yn cael eu darlledu fel arall o bosibl, ac a allai fod yn eang eu hapêl hefyd, gan annog cynulleidfaoedd iau i fod yn rhan o achlysuron teledu ac i wylio ar amser penodol.

Canfu ein hymchwil y bydd cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi sianel deledu BBC Three sy'n dangos cynnwys na fyddai cartref iddo ar y BBC fel arall, fel chwaraeon byw ac uchafbwyntiau, a cherddoriaeth fyw (ee, *Live Lounge*). Byddai cynnwys nad yw'n debygol o gael ei ddangos ar BBC One na BBC Two – ac na fyddai cynulleidfaoedd o reidrwydd yn meddwl chwilio amdano ar iPlayer – yn cael cartref mwy hwylus ar sianel BBC Three.

Gallai'r cynnwys hwn hefyd greu achlysuron teledu sy'n denu cynulleidfaoedd neu'n angor iddynt – cynnwys i'w wylio ar adeg benodol bob wythnos sy'n eang ei apêl ac y byddai cynulleidfaoedd yn ei wylio gyda'u teulu. Mae'r elfen digwyddiad 'yn y foment' yn ychwanegu at apêl BBC Three fel sianel ddarlledu fyw, gyda'r posibilrwydd o gael eitemau ychwanegol ar iPlayer (ee, y tu ôl i'r llenni, mwy o gyfweliadau, setiau acwstig ac ati).[34]

Mewn un o'n digwyddiadau trafod, dywedwyd bod y farchnad cynnwys chwaraeon braidd yn orlawn, ond bod y gynulleidfa yn gweld gwerth mewn rhaglenni chwaraeon sy'n cael eu cyflwyno mewn ffordd wahanol – ee, yn rhyngweithiol. Dywedwyd hefyd eu bod yn gwerthfawrogi rhaglenni gyda chyflwynwyr sy'n teimlo'n angerddol iawn am y pwnc maen nhw'n ei drafod – ee, cyn-chwaraewyr pêl-

---

[33] Ymchwil MTM, tudalen 36.
[34] Ymchwil MTM, tudalennau 33-35.

droed – a lle mae'r gynulleidfa'n cael gweld eu personoliaeth, gan greu gwell cysylltiad â dilynwyr.

Mae BBC Three yn bwriadu darlledu'r mathau hyn o ddigwyddiadau cerddoriaeth a chwaraeon byw, er enghraifft, pêl-droed ieuenctid/menywod/rhyngwladol; fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar ar y cynlluniau hyn, gan eu bod yn ddibynnol ar sicrhau'r hawliau i ddigwyddiadau penodol.

Drwy ddarlledu cynnwys na fyddai cartref iddo ar y BBC fel arall o bosibl, bydd sianel deledu BBC Three yn cyrraedd mwy o bobl ac yn ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd ar lefel ddyfnach, gan hybu gwylio ar y cyd ar adegau penodol a chreu cyfleoedd posibl i gael cynnwys ychwanegol ar iPlayer.

### 4.2.4 Bydd sianel ddarlledu BBC Three yn cyrraedd mwy o bobl ac yn cynyddu'r amser sy'n cael ei dreulio gyda'r gynulleidfa darged

Mae defnydd y gynulleidfa yn rhan bwysig o werth cyhoeddus personol – hy, rhaid i unigolion wylio'r sianel newydd er mwyn cael gwerth ohoni. Rydym wedi amcangyfrif cyrhaeddiad sianel newydd BBC Three a'r amser a fydd yn cael ei dreulio gyda'r sianel, ac roedd ein hymchwil feintiol yn edrych ar y tebygolrwydd o wylio. Mae'r canlyniadau, a drafodir isod, yn dangos y bydd cynnwys BBC Three yn cyrraedd mwy o bobl, ac y bydd mwy o ddefnydd o'r cynnwys – ar deledu llinol ac ar iPlayer – yn sgil y sianel ddarlledu.

Fel gydag unrhyw ymarfer modelu, roedd angen symleiddio pethau a defnyddio rhagdybiaethau ar gyfer y model. Cafodd dull ceidwadol ei fabwysiadu ar gyfer ansicrwydd – gan oramcangyfrif y defnydd o'r BBC (a'r effaith ar y farchnad yn sgil hynny), yn hytrach na thanamcangyfrif. Serch hynny, mae canlyniadau'r arolwg meintiol ac ansoddol yn ategu'r farn bod cynulleidfaoedd targed yn debygol o wylio sianel deledu BBC Three ar ôl i'r sianel gael ei lansio. Mae rhagor o fanylion am y dull modelu i'w gweld yn Atodiad 1, ac yn Adran 5 y ddogfen hon rydym yn trafod rhagolygon y model o'r defnydd tebygol o'r sianel a'i heffaith debygol.

#### *4.2.4.1 Rhagolwg o'r amser a dreulir*

Mae ein model yn rhagweld y gallai'r amser a dreulir gyda BBC Three gynyddu i 2.3 munud y person y dydd ymysg pob cynulleidfa, (gan wylio am 1 funud drwy'r sianel linol) o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig, o'i gymharu â'r sefyllfa wrthffeithiol o 1.2 munud y person y dydd lle mae BBC Three ar gael drwy iPlayer yn unig.

Ar gyfer pobl 16-34 oed, rydym yn rhagweld y gallai'r amser a dreulir gyda BBC Three gynyddu i 3.1 munud y person y dydd (gan wylio am 0.8 munud drwy'r sianel linol), o'i gymharu â'r sefyllfa wrthffeithiol o 2.1 munud y person y dydd lle mae BBC Three ar gael drwy iPlayer yn unig.

### 4.2.4.2 Rhagolwg o'r cyrhaeddiad

Roeddem wedi cyfrifo cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog tebygol BBC Three ar sail ein hamcangyfrif o lefelau gwylio'r sianel newydd (ar deledu llinol ac ar iPlayer) rhwng 7pm a 4am (a drafodir uchod). I wneud hynny, roeddem wedi defnyddio'r berthynas weddol gyson rhwng lefelau gwylio a chyrhaeddiad rhwng 7pm a 4am.[35]

Mae ein hamcangyfrifon o gyrhaeddiad yn cael eu cyflwyno yn Ffigur 10 isod. Rydym yn amcangyfrif y gallai BBC Three (y sianel ddarlledu ac ar iPlayer) gyrraedd 12.4% o bob cynulleidfa bob wythnos ar gyfartaledd, ac 16.0% o bobl 16-34 oed yn 2022. Rhagwelir y bydd y cyrhaeddiad hwn yn cynyddu 0.8 pwynt canran erbyn 2024 ar gyfer pob cynulleidfa, ac 1 pwynt canran ar gyfer pobl 16-34 oed. Mae BBC Three eisoes yn bodoli fel sianel ar iPlayer, felly ni ellir priodoli'r holl gyrhaeddiad a amcangyfrifir i lansio'r sianel. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod hyn yn cynnwys cyrhaeddiad cyfunol BBC Three drwy deledu byw ac iPlayer *i gyd* (sy'n wahanol i gyrhaeddiad BARB, gan ei fod yn cynnwys yr holl gynnwys ar iPlayer ni waeth beth yw ei ddyddiad darlledu, a wyliwyd drwy unrhyw ddyfais).

**Ffigur 10: Rhagamcan o gyrhaeddiad wythnosol cyfartalog BBC Three (%)**

| | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|
| A4+ | 12.4% | 12.8% | 13.2% |
| A16-34 | 16.0% | 16.3% | 17.0% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*
*Nodiadau: Yn deillio o lefelau gwylio BBC Three ar deledu llinol ac ar iPlayer.*

### 4.2.4.3 Tebygolrwydd o wylio

Fe wnaethom hefyd ofyn cyfres o gwestiynau i gynulleidfaoedd yn yr arolwg meintiol i ddeall eu defnydd tebygol o'r sianel newydd. Canfu'r ymchwil yma fod 50% o'r bobl rhwng 16 a 24 oed yn debygol iawn neu'n eithaf tebygol o wylio sianel deledu newydd BBC Three, 57% o bobl 25-34 oed, a 50% o bobl 35-44 oed.[36]

O ran grwpiau poblogaeth targed y sianel, dywedodd 49% o gynulleidfaoedd C2DE 16-34 oed, 52% o gynulleidfaoedd BAME 16-34 oed a 54% o gynulleidfaoedd 16-34 oed y tu allan i ddinasoedd metropolitan yn ogystal â'r rheini yn y Gwledydd, eu bod yn debygol iawn neu'n eithaf tebygol o wylio'r sianel newydd.[37]

[35] Roeddem wedi defnyddio data C7 BARB ynghylch munudau gwylio a chyrhaeddiad wythnosol cyfartalog cymysgedd o sianeli mwy a llai yn 2019, yn ogystal â phortffolios darlledwyr a'r holl deledu a ddarlledir, i greu'r gymhareb orau i fapio ein munudau gwylio amcanol ar gyfer BBC Three i gyrhaeddiad cyfatebol (%).
[36] Ymchwil MTM, tudalen 24.
[37] Ymchwil MTM, tudalen 42.

### 4.2.5 Bydd sianel ddarlledu BBC Three yn cynnig mwy o werth am arian ar gyfer ffi'r drwydded

Rhaid i'r BBC ddarparu gwerth i holl gynulleidfaoedd y DU, fel y nodwyd yn ein Siarter a'n Cytundeb Fframwaith ac fel y trafodwyd yn ein hadroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef *BBC Value for Audiences*[38]. Gan fod costau gweithredol parhaus y sianel ddarlledu yn cynrychioli dim ond tua 2.5% o gyfanswm cyllideb flynyddol BBC Three, bydd sianel deledu newydd BBC Three yn cynnig mwy o werth am arian ar gyfer ffi'r drwydded.

Fel y dangosir yn Ffigur 11 isod, yn sgil lansio'r sianel ddarlledu newydd, amcangyfrifir y bydd BBC Three yn costio 8c fesul gwyliwr yn 2022, o'i gymharu ag 17c yn y sefyllfa wrthffeithiol o beidio â lansio'r sianel a bod cynnwys BBC Three yn cael ei wylio ar iPlayer.

**Ffigur 11: Amcangyfrif o'r gost fesul awr gwyliwr, 2022**

| | Sianel linol BBC Three + iPlayer | BBC Three ar iPlayer yn unig |
|---|---|---|
| Y gost fesul awr gwyliwr | 9c | 17c |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*

*Nodiadau: Yn deillio o ragolygon o lefelau gwylio BBC Three ar y sianel linol ac ar iPlayer, a chostau cynnwys a marchnata BBC Three. Cofiwch nad oes modd cymharu'r ffigurau hyn â'r gost fesul awr defnyddiwr ar gyfer sianeli eraill a nodir yn adroddiadau blynyddol y BBC, oherwydd nid yw'r enwadur yn cynnwys holl ffigurau gwylio iPlayer, ac maen nhw'n cynnwys elfennau cost gwahanol.*

Mae canlyniadau ein hymchwil yn awgrymu bod cynulleidfaoedd yn cytuno y byddant yn cael gwell gwerth am arian yn sgil lansio'r sianel newydd. Yn benodol, mae 57% o'r bobl 16-34 oed a holwyd yn teimlo y bydd sianel deledu newydd BBC Three yn arwain at well gwerth am ffi'r drwydded, gyda dim ond 13% yn anghytuno. Ymysg yr holl oedolion, roedd 44% yn cytuno y bydd yn arwain at well gwerth am ffi'r drwydded, gyda 28% yn anghytuno.[39]

Mae cynulleidfaoedd hefyd yn teimlo y bydd y sianel, drwy ddarparu mwy o gynnwys heb gost ychwanegol, yn cynnig gwerth yn arbennig i gartrefi sydd ond yn defnyddio gwasanaethau darlledu sydd ar gael am ddim, gan fod llai o amrywiaeth o sianeli ar gael iddynt (o'i gymharu â theledu drwy dalu).[40]

[38] *BBC Value for Audiences*, BBC, Chwefror 2021.
[39] Ymchwil MTM, tudalen 69.
[40] Ymchwil MTM, tudalen 61.

### 4.2.6 Crynodeb o'r gwerth cyhoeddus personol

Felly, rydym ni o'r farn bod ein dadansoddiad – sydd wedi'i ategu gan amrywiaeth o dystiolaeth feintiol ac ansoddol – yn dangos bod gwerth personol ein cynigion yn debygol o fod yn uchel.

## 4.3 Gwerth cymdeithasol: Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC

Rhywbeth arall sy'n ysgogi gwerth cyhoeddus yw i ba raddau y gall ein newidiadau hybu gwerth cymdeithasol. Ein prif ddiffiniad ni o hynny yw sut bydd newid yn galluogi'r BBC i gyflawni ein Cenhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn well.

Mae'r cynigion hyn yn ceisio gwneud hynny drwy lansio sianel deledu newydd BBC Three, a fydd yn darparu rhaglenni 'i mi' sy'n arloesol ac o safon uchel, ac sydd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd iau.

Mae ein dadansoddiad – sy'n seiliedig ar ein hymchwil cynulleidfa, digwyddiadau trafod â chynrychiolwyr ieuenctid, ac ymatebion i'n hymgynghoriad – yn awgrymu bod gwerth cymdeithasol ein cynnig yn debygol o fod yn uchel, oherwydd bydd ein newidiadau arfaethedig yn diogelu ein gallu i gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus i bob cynulleidfa – yn enwedig cynulleidfaoedd iau – ac felly'n cefnogi dyfodol tymor hir y BBC.

### 4.3.1 Bydd sianel ddarlledu BBC Three yn helpu'r BBC i gyflawni ei Genhadaeth

Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.41 Wrth wneud hynny, rhaid i'r BBC sicrhau gwerth da am arian yn gyfnewid am ffi'r drwydded.

Yn y digwyddiad trafod â sefydliadau, roedd brwdfrydedd a chefnogaeth i'r sianel, a chytundeb cyffredinol bod ein cynlluniau'n adlewyrchu llawer o'r hyn sy'n bwysig ym marn pobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys datblygu llif o dalent, cynnwys ac ymgysylltu â phobl ifanc drwy gydol y broses greadigol, amrywiaeth wirioneddol ac ystod eang o straeon – o safbwynt economaidd-gymdeithasol, ethnigrwydd, a llai Llundeinig.

Soniodd rhai sefydliadau am bwysigrwydd y sianel newydd fel budd cymdeithasol, wrth iddi ddarparu cynnwys ysbrydoledig sy'n rhoi sylw i bobl ifanc sydd wedi sefydlu eu busnesau eu hunain ac ati. Mae hyn hefyd yn cynnwys cyfeirio[42] pobl

[41] Erthygl 5, Siarter Frenhinol y BBC.

[42] Awgrymwyd y dylai'r sianel ddarparu mwy o adnoddau cyfeirio ar ôl rhaglenni, hy, at sefydliadau sy'n gallu cynnig mwy o gymorth a gwybodaeth. Ond, nodwyd hefyd fod tensiwn rhwng cyfeirio pobl at gymorth ac annibyniaeth y BBC a gofynion ein Canllawiau Golygyddol, sy'n ein hatal rhag hyrwyddo trydydd partïon (gan gynnwys elusennau).

ifanc at gymorth. A dywedodd un sefydliad ei fod yn teimlo'n gyffrous am y gefnogaeth uniongyrchol wirioneddol y bydd y sianel yn ei rhoi i bobl ifanc, fel arweinydd sy'n sbarduno newid fel sefydliad cyhoeddus.

Cafwyd gwybodaeth ddefnyddiol iawn am werth cyhoeddus y sianel yn y digwyddiadau trafod â chynrychiolwyr ieuenctid. Roedd un cyfranogwr wedi pwysleisio gwerth teledu wrth dyfu'n oedolyn – dyma lle rydych chi'n cael modelau rôl pan rydych yn iau, ac mae'n rhoi'r syniad cyntaf i chi o sut le yw'r byd, sy'n effeithio ar eich canfyddiadau o leoedd a phobl.[43]

Yn yr un modd, dywedodd person arall: *Mae'n teimlo fel llinell amser mewn bywyd – CBeebies, CBBC, wedyn dim byd*. Dywedodd fod pobl iau yn gwylio BBC One i gael newyddion, ond nad oes opsiwn teledu ar eu cyfer ar y BBC (dim ond iPlayer). Felly pe bai BBC Three yn sianel linol, byddent yn debygol o'i gwylio.[44]

Dywedodd llawer hefyd y bydd y sianel yn galluogi mwy o bobl i gael gafael ar gynnwys BBC Three, yn enwedig y rheini sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd (gan gynnwys rhai pobl o gefndiroedd incwm is) neu sydd â mynediad nad yw'n gynaliadwy sy'n cael ei ddefnyddio gan lawer o bobl.

Hefyd, dywedodd un person fod angen i bobl ifanc fod ychydig yn fwy strategol gyda'r hyn maen nhw'n ei wylio, ond nad ydyn nhw'n meddwl yn y ffordd honno, felly bod angen i ni (fel darlledwr) *arwain a hwyluso'r hyn sydd ar gael*.[45] Yn olaf, y geiriau a oedd wedi aros gydag un cyfranogwr fel rhai a oedd yn nodweddu BBC Three oedd *ysbrydoledig/cyngor, addysg, diddanu*.

Mae canlyniadau ein hymchwil ansoddol a meintiol ar y gynulleidfa hefyd yn awgrymu y bydd sianel deledu newydd BBC Three o fudd i gymdeithas, gyda chyfartaledd o 47% o'r boblogaeth yn cytuno, ac roedd hyn yn codi i 59% ymysg pobl 16-34 oed. Yn benodol, fel y gwelir yn Ffigur 12 isod, mae 53% o'r oedolion a holwyd yn teimlo y bydd yn haws gwylio raglenni BBC Three neu ddod o hyd iddynt, ac mae 51% yn teimlo y bydd mwy o bobl yn gwylio BBC Three nag sydd ar hyn o bryd o ganlyniad i'r newidiadau.


---

[43] Roedd hyn mewn ymateb i gwestiwn gan Reolydd y Sianel a oedd yn gofyn a fyddai unrhyw werth i sianel benodol ar gyfer profiad pobl iau.

[44] Roedd hyn mewn ymateb i gwestiwn gan Reolydd y Sianel a oedd yn gofyn a fyddai ailgyflwyno BBC Three fel sianel yn amherthnasol ynteu'n ddefnyddiol, ac a fyddai'n bwysig iddynt pe bai sianel benodol ar gael ar gyfer pobl ifanc.

[45] Roedd hyn mewn ymateb i'r cwestiynau: *I ba raddau mae teledu yn adlewyrchu bywydau pobl ifanc? A yw'n adlewyrchu ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth?*

**Ffigur 12: Effaith gymdeithasol**




*Ffynhonnell: MTM*[46]

Yn yr ymchwil ansoddol, soniodd cynulleidfaoedd am amryw o fanteision cymdeithasol o lansio'r sianel newydd:

- Yn ôl gwylwyr hŷn, bydd yn apelio at bobl sy'n iau na nhw – Er eu bod yn cydnabod nad yw BBC Three yn addas iddyn nhw, mae gwylwyr hŷn (yn enwedig pobl 55 oed a hŷn) yn dal i deimlo y gallai BBC Three ddenu cynulleidfaoedd ehangach – gyda rhaglenni dogfen Stacey Dooley a dramâu yn apelio fwyaf.
- Mae'n darparu cynnwys ychwanegol i gartrefi Freeview – Mae llawer yn teimlo y bydd y sianel yn sicrhau gwerth ychwanegol i gartrefi sy'n defnyddio gwasanaethau darlledu am ddim ac nad oes ganddynt wasanaeth teledu drwy dalu, drwy ddarparu cynnwys ychwanegol heb gost ychwanegol. Fel y dywedodd un person: *Mae'n fantais enfawr i unrhyw un sydd dim ond â Freeview. Mae'n sianel gyfan arall i'w gwylio.*
- Mae'n llwyfan newydd ar gyfer grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol – bydd lansio BBC Three fel sianel deledu newydd yn helpu i roi gwell llwyfan i gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol

[46] Ymchwil MTM, tudalen 63.

ac nad ydynt yn cael cymaint o amser ar y sgrin ar deledu daearol fel arfer – ee BAME, LGBTQ, y gwledydd a'r rhanbarthau, a phobl ifanc yn fwy cyffredinol.

- Gall apelio at y rheini sy'n ifanc eu hysbryd – Mae cynulleidfaoedd yn sylweddoli *nad yr oedran sy'n bwysig mewn gwirionedd, ond y meddylfryd...* (fel y dywedodd un cyfranogwr), ac yn gwerthfawrogi y bydd gan sianel BBC Three gynnwys sydd hefyd yn taro tant â chynulleidfaoedd hŷn, ac a fydd hefyd yn rhoi cipolwg iddynt ar sut mae cenedlaethau iau yn meddwl, yn ymddwyn, yn teimlo, yn siarad ac ati.[47]




*Ffynhonnell: Tweetwatch, 3 Mawrth 2021*

### 4.3.2 Bydd sianel ddarlledu BBC Three yn hyrwyddo Diben Cyhoeddus Cyntaf y BBC i ddarparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd

Diben Cyhoeddus cyntaf y BBC yw:

> **Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas**: dylai'r BBC ddarparu newyddion, materion cyfoes a rhaglenni ffeithiol sy'n ddigon cywir a diduedd i wella dealltwriaeth pobl am bob rhan o'r Deyrnas Unedig a'r byd ehangach. Dylai'r cynnwys gyrraedd y safonau golygyddol uchaf. Dylai gynnig amrywiaeth a dyfnder dadansoddiad a chynnwys nad ydynt ar gael yn eang gan ddarparwyr newyddion eraill yn y Deyrnas Unedig, gan ddefnyddio cyflwynwyr a newyddiadurwyr o'r radd flaenaf, a hyrwyddo rhyddid mynegiant, er mwyn i bob cynulleidfa allu ymgysylltu'n llawn â materion lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, y Deyrnas Unedig a byd-eang a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion gweithredol a gwybodus.[48]

Mewn cyfnod o gamwybodaeth a newyddion ffug, mae'r BBC yn parhau i fod yn un o'r ffynonellau dibynadwy o newyddion a gwybodaeth ar draws y DU ac yn fyd-eang. Er enghraifft, yn ystod pandemig Covid-19 na welwyd ei debyg o'r blaen, mae 83% o bobl wedi ymddiried yn y ddarpariaeth ar deledu'r BBC.[49]

Mynegodd rhai rhanddeiliaid (IBT a VLV) bryder ynghylch y diffyg sôn am gynnwys newyddion a materion cyfoes rhyngwladol yn y cynigion ymgynghori ar gyfer BBC Three. Roedd y ddau sefydliad o'r farn bod newyddion a materion cyfoes rhyngwladol wedi bod yn rhan fach ond pwysig o sianel flaenorol BBC Three, bod

[47] Ymchwil MTM, tudalennau 61-62.
[48] Erthygl 6(1), Siarter Frenhinol y BBC.
[49] Tystiolaeth ysgrifenedig y BBC i Is-bwyllgor yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar Ymchwiliad i Niwed Ar-lein a Gwybodaeth Anghywir Covid-19, Ebrill 2020

hyn yn elfen bwysig i'r gynulleidfa darged, ac y byddai'n gwasanaethu cenhadaeth y BBC a chynulleidfaoedd iau yn arbennig o dda.

Mae canlyniadau ein hymchwil yn awgrymu hefyd nad yw cynulleidfaoedd, yn gyffredinol, yn gallu gweld unrhyw effaith bosibl y sianel mewn perthynas â'r Diben Cyhoeddus cyntaf i ddarparu newyddion diduedd – yn bennaf oherwydd y diffyg cynnwys newyddion amlwg yn y rhaglenni roeddent yn eu gwylio.[50] Ond, yn wahanol i'r farn gyffredinol, mae bron i ddwy ran o dair o gynulleidfaoedd BAME (o'i gymharu â 42% o'r holl ymatebwyr) yn teimlo y bydd y sianel yn helpu pobl yn y DU i ddeall ac ymgysylltu mwy â'r byd o'u cwmpas.[51]

Hefyd, yn ystod ein trafodaeth gyda sefydliadau, tynnodd dau sefydliad sylw at y ffaith bod pobl ifanc yn awyddus i sbarduno newid a bod awydd am raglenni newyddion a thrafod sy'n edrych ar sut mae materion cymdeithasol yn effeithio ar fywydau pobl ifanc a sut gall pobl ifanc eu hunain greu newid cymdeithasol. Gall y sianel newydd ddangos sut mae pobl ifanc wedi defnyddio eu profiadau i greu newid cadarnhaol mewn gwahanol gylchoedd/bydoedd – fel y rheini sydd wedi byw drwy ddigartrefedd, wedi bod mewn gangiau, sefydlu eu busnes eu hunain, ac ati.

Mewn digwyddiad trafod â chynrychiolwyr pobl ifanc, roedd diddordeb hefyd mewn rhaglenni newyddion, gyda nifer yn nodi eu bod yn mwynhau gwylio *Newsround* pan oedden nhw'n iau. Fodd bynnag, maen nhw'n teimlo bod newyddion yn aml yn cael ei gyflwyno mewn ffordd sydd wedi'i strwythuro a'i sgriptio llawer a gan bobl sydd ychydig yn hŷn, sy'n golygu bod rhywfaint o ddiffyg cysylltiad. Roedden nhw'n awgrymu y byddai'n gwneud synnwyr cael rhywbeth sy'n fwy tebyg iddyn nhw – yn dod gan bobl ifanc i ddweud wrth bobl ifanc beth sy'n digwydd.

Mae'r pandemig Covid-19 presennol – gan gynnwys cyfyngiadau teithio rhyngwladol – yn golygu nad ydym wedi gallu llunio cynlluniau penodol mewn perthynas â rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar gyfer y sianel. Ond, rydym yn bwriadu darlledu amrywiaeth o raglenni newyddion, materion cyfoes a rhaglenni ffeithiol rhyngwladol (ee, rhaglenni dogfen ffeithiol gyda Stacey Dooley) ar y sianel.

Gan ystyried ymatebion rhanddeiliaid a safbwyntiau pobl ifanc, mae BBC Three wedi penderfynu y bydd y sianel hefyd yn darlledu bwletin newyddion bob nos i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynulleidfaoedd ifanc am ddigwyddiadau cenedlaethol a byd-eang a materion sydd o ddiddordeb iddynt. Bydd y bwletinau hyn yn cael eu cyflwyno gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc.

---

[50] Adroddiad MTM, tudalen 76.
[51] Adroddiad MTM, tudalen 69.

Felly, bydd sianel deledu newydd BBC Three yn helpu i gyflawni ein Diben Cyhoeddus cyntaf.

### 4.3.3 Bydd sianel ddarlledu BBC Three yn hyrwyddo Ail Ddiben Cyhoeddus y BBC i gefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed

Ail ddiben cyhoeddus y BBC yw:

> **Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed:** dylai'r BBC helpu pawb i ddysgu am wahanol bynciau mewn ffyrdd hygyrch a difyr sy'n eu hysbrydoli ac yn eu herio. Dylai'r BBC ddarparu cynnwys addysgol arbenigol er mwyn helpu i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig. Dylai annog mwy o bobl i archwilio pynciau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd drwy feithrin partneriaethau â sefydliadau ym meysydd addysg, chwaraeon a diwylliant.[52]

Fel rhan o'i gylch gwaith aml-genre eang, ochr yn ochr â drama, comedi ac adloniant gwych, bydd sianel deledu newydd BBC Three yn darparu rhaglenni ffeithiol penodol mewn slotiau oriau brig amlwg a fydd yn helpu cynulleidfaoedd iau i ddysgu am amrywiaeth eang o bynciau mewn ffordd hygyrch a difyr ac yn archwilio pynciau newydd. Bydd hyn yn gyfraniad pwysig i allbwn dysgu anffurfiol y BBC.

Mae ein hymchwil cynulleidfa yn dangos bod cynulleidfaoedd yn cytuno y bydd y sianel yn cyflawni ein hail Ddiben Cyhoeddus. Mae cynulleidfaoedd yn teimlo y bydd y sianel yn cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed drwy ei rhaglenni dogfen amrywiol, ac yn tynnu sylw at faterion amserol fel iechyd meddwl a heriau'r farchnad swyddi. Fel y dywedodd un a gymerodd ran yn yr ymchwil ansoddol, mewn perthynas â'r sianel: *Wrth edrych ar y rhaglenni dogfen, rhoi sylw i wahanol ddiwylliannau, iechyd meddwl, dysgu pobl am y pynciau pwysig hyn.*[53]

Yn ystod ein digwyddiad trafod â sefydliadau, tynnodd nifer ohonynt sylw at fyd gwaith y dyfodol a sut mae pobl ifanc yn deall ac yn canfod eu ffordd yn y byd hwn – yn enwedig yng ngoleuni pandemig Covid-19. Dywedwyd mai'r cyfryngau (ee, rhaglenni fel *Casualty* a *The Apprentice*), oedd yn gyfrifol am ddewis gyrfa un o bob pedwar person ifanc. Mae'r sianel yn cynnig cyfleoedd i ddangos amrywiol lwybrau gyrfaoedd, chwalu stereoteipiau, newid meddylfryd mewn gwahanol grwpiau, a chefnogi pobl ifanc i ddod o hyd i lwybrau at gyfleoedd gwaith. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod mwy a mwy o bobl ifanc yn penderfynu peidio â symud i Lundain ond yn aros yn eu cymunedau lleol, lle mae'r mwyafrif helaeth ar goll yn llwyr o ran eu dyfodol, yn ôl un sefydliad.

---

[52] Erthygl 6(2), Siarter Frenhinol y BBC.
[53] Ymchwil MTM, tudalen 76.

Dywedodd nifer o'r rheini yn y digwyddiadau trafod â chynrychiolwyr pobl ifanc hefyd ei bod yn well ganddyn nhw wylio rhaglenni teledu y gallan nhw ddysgu oddi wrthyn nhw ac sy'n ychwanegu gwerth, fel rhaglenni dogfen – yn enwedig gan nad oes ganddyn nhw lawer o amser rhydd. Yn benodol, fe wnaethon nhw nodi pwysigrwydd rhaglenni dogfen fel *Defending Digga D* a *Jesy Nelson*: *Odd One Out*, lle mae BBC Three wedi bod yn glyfar yn defnyddio dylanwadwyr i edrych ar faterion amserol fel iechyd meddwl mewn ffordd berthnasol – a lle gall pobl ifanc ddysgu oddi wrthyn nhw a helpu pobl eraill. Roedd un cyfranogwr yn cysylltu'r mathau hyn o raglenni dogfen (a oedd yn cael eu gwylio'n fyw ar BBC One neu BBC Two) ag ymdeimlad o realaeth ac emosiwn.

Bydd yr holl fathau hyn o raglenni yn helpu i gyflawni ein hail Ddiben Cyhoeddus, a bydd sianel deledu BBC Three yn rhoi llwyfan gwell i raglenni o'r fath ac yn hybu cyrhaeddiad a pha mor rhwydd yw canfod y cynnwys hwn, gan wella ein cysylltiad a'r ffordd rydym yn ymwneud â chynulleidfaoedd iau.

### 4.3.4 Bydd sianel ddarlledu BBC Three yn hyrwyddo Trydydd Diben Cyhoeddus y BBC i ddangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, unigryw o'r ansawdd gorau

Trydydd diben cyhoeddus y BBC yw:

> **Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau:** dylai'r BBC ddarparu allbwn o ansawdd uchel mewn nifer o wahanol genres ar draws amrywiaeth o wasanaethau a llwyfannau, sy'n gosod y safon yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Dylai ei wasanaethau fod yn wahanol i'r rheini sy'n cael eu darparu mewn mannau eraill, a dylai gymryd risgiau creadigol, hyd yn oed os nad ydy pob un yn llwyddiannus, er mwyn datblygu dulliau gweithredu newydd a chynnwys arloesol.[54]

Mae'r Cytundeb yn diffinio allbwn a gwasanaethau unigryw fel rhai:

> sy'n wahanol iawn i ddarparwyr tebyg eraill ar draws pob un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn ystod oriau brig ac yn gyffredinol, ac ar deledu, radio ac ar-lein, o ran -
>
> (a) y cymysgedd o wahanol genres ac allbwn;
> (b) ansawdd yr allbwn;
> (c) faint o allbwn gwreiddiol a gynhyrchir yn y DU;
> (d) lefel y risg a gymerir, yr arloesi, yr her a'r uchelgais creadigol; ac
> (e) yr amrywiaeth o gynulleidfaoedd mae'n eu gwasanaethu. [55]

[54] Erthygl 6(3), Siarter Frenhinol y BBC.
[55] Atodlen 2(1)(2), Cytundeb y BBC.

Bydd sianel deledu BBC Three yn sianel greadigol ac aml-genre o ansawdd uchel a fydd yn cynnig dewis ehangach i gynulleidfaoedd. Dyma farn sy'n cael ei chefnogi gan nifer o randdeiliaid:

- Mae'r BFI yn credu y bydd bwriad y sianel i gynnig cynnwys unigryw yn rhoi budd cymdeithasol a diwylliannol sylweddol i'w chynulleidfa, ac yn helpu i ehangu gorwelion a chwaeth bersonol y cynulleidfaoedd targed mewn ffordd na all cynnwys ar-lein personol sydd wedi'i gyflwyno'n algorithmig.
- Mae Directors UK yn cydnabod gwerth cyhoeddus sianel ddarlledu BBC Three fel ffordd o sicrhau amrywiaeth eang o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n amrywiol, yn diddanu ac yn rhoi gwybodaeth i gynulleidfaoedd iau.
- Mae Pact yn cefnogi'r newid sydd wedi'i gynnig, ac yn credu y bydd y sianel yn adfer proses comisiynu rhaglenni o ansawdd uchel sydd ei hangen i gadw a chynyddu cynulleidfaoedd iau.

Isod, rydym yn nodi sut bydd y sianel newydd yn hyrwyddo'r trydydd diben cyhoeddus, gan ddefnyddio'r pum maen prawf sydd wedi'u diffinio yn y Cytundeb.

#### *4.3.4.1 Cymysgedd o wahanol genres ac allbwn*

Bydd sianel deledu BBC Three yn wahanol i sianeli a gwasanaethau teledu eraill y farchnad, gan gynnwys sianeli sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc – yn enwedig E4 ac ITV2 – a sianeli sy'n gogwyddo at gynulleidfaoedd iau, fel Sky One. Er enghraifft, mae ITV2, E4 a Sky One yn darlledu bob awr o'r dydd, a bydd BBC Three yn darlledu rhwng 7pm a 4am yn unig.

Yn yr oriau sy'n gorgyffwrdd, mae gan y sianeli strategaethau rhaglennu gwahanol iawn. Er enghraifft yn ystod oriau darlledu brig (hynny yw, rhwng 7pm a hanner nos):


- mae strategaeth gomisiynu ITV2 yn seiliedig ar adloniant, gan ganolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar adloniant/adloniant ffeithiol, comedi a ffilm, heb unrhyw gynnwys ffeithiol na dogfennol. Yn wahanol i hyn, bydd gan BBC Three adloniant ysgafn a chynnwys ffeithiol sy'n procio'r meddwl. Bydd cyfran uwch o oriau darlledu brig BBC Three yn cynnwys rhaglenni drama, rhaglenni ffeithiol ac adloniant/adloniant ffeithiol, a bydd cyfran is yn cynnwys comedi a ffilm.
- Mae strategaeth gomisiynu E4 yn canolbwyntio ar adloniant, comedi, realiti a ffilm. Mae ei naws yn ysgafn ac yn cael ei harwain gan adloniant, ac nid oes cynnwys ffeithiol neu ddogfennol dwys. Yn wahanol i hyn, bydd arlwy BBC Three yn cynnig cynnwys mwy difrifol, gan gynnwys rhaglenni ffeithiol a rhaglenni dogfen. Felly, bydd cyfran uwch o oriau darlledu brig BBC Three yn

cynnwys rhaglenni drama ac adloniant/adloniant ffeithiol, a bydd cyfran is yn cynnwys comedi a ffilm.

- Mae Sky One yn canolbwyntio’n bennaf ar adloniant ysgafn, gan gynnwys cyfuniad o adloniant ffeithiol, realiti, comedi a rhaglenni drama. Nid yw llawer o raglenni Sky One yn targedu cynulleidfaoedd iau yn benodol, ond yn hytrach rhaglenni sy’n apelio’n ehangach. Yn wahanol i hyn, bydd arlwy BBC Three yn unigryw drwy ddarparu rhaglenni dogfen a rhaglenni ffeithiol mwy difrifol sy’n targedu cynulleidfaoedd ifanc.

Dangosir y gwahaniaethau hyn yn Ffigur 13 isod.

**Ffigur 13: Cymharu oriau sianeli yn ôl genre, 2019**




*Ffynhonnell:* *Disgwyliadau’r BBC a BARB ar gyfer BBC Three*[56]

Ar ben hynny, mae BBC Three yn comisiynu cynnwys nad oes yr un o’i gystadleuwyr yn ei wneud, er enghraifft cynnwys ffeithiol sy’n canolbwyntio ar bobl ifanc fel *Jesy Nelson*: *Odd One Out* a *Defending Digga D*, rhaglenni dogfen rhyngwladol Stacey

56 Wedi dewis 2019 i osgoi dylanwad Covid-19.

Dooley, ac adloniant ffeithiol, cydweithio â R1Xtra i gynhyrchu cipolwg go iawn o sefyllfa ddiwylliannol nad yw'n cael ei chynrychioli'n ddigonol ar deledu a ddarlledir yn y DU drwy *The Rap Game*.

#### *4.3.4.2 Ansawdd yr allbwn*

Mae BBC Three yn darparu cynnwys o ansawdd rhagorol ar draws pob genre, gyda'r tîm comisiynu yn darparu'r cynnwys mwyaf arloesol ac amrywiol sydd ar gael yn y DU sy'n gallu cael effaith sylweddol ar y gynulleidfa (ee, *Killing Eve*, *RuPaul's Drag Race UK*). Mae hefyd wedi cyflwyno llwyth o gynnwys sydd wedi ennill gwobrau fel a welwyd yn ddiweddar yn *I May Destroy You, This Country, Defending Digga D, Man Like Mobeen, Normal People,* ac ati.

Yn ein hymchwil cynulleidfa, gwelsom fod 60% o bobl 16-34 oed yn teimlo y bydd y sianel newydd yn cynnig dewis ehangach o gynnwys o ansawdd uchel, a chytunodd hanner â'r datganiad y byddai sianel newydd BBC Three yn unigryw ac nad oes sianel deledu arall fel hon.[57]

Ond, mae ansawdd yn gysyniad aml-ddimensiwn sy'n anodd ei fesur yn ei hanfod, gan ystyried ffactorau fel gwerthoedd cynhyrchu uchel, talent o ansawdd uchel, safonau moesol uchel, ansawdd a dyfnder ymchwil, cynnwys adloniant, syniadau gwreiddiol, didwylledd golygyddol, gwerth addysgol/emosiynol, cynnwys parhaus ac ystod o westeion.[58]

Er nad oes modd ei fesur yn bendant, mae'r BBC yn defnyddio nifer o ddulliau i geisio mesur ansawdd ei raglenni, gan gynnwys drwy ein panel Pulse, sy'n mesur gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd drwy sgorau AI (Mynegai Gwerthfawrogiad)[59], ac ymwneud â'r gynulleidfa ar gyfrifon cymdeithasol. Er enghraifft, mewn perthynas â rhaglenni BBC Three:

- Yn 2020, cyrhaeddodd *Normal People* (a ddarlledwyd ar BBC One) sgôr o 85 ar y mynegai gwerthfawrogiad, dim ond 3 phwynt yn is na'r ddrama sydd wedi perfformio orau ar draws cystadleuwyr, a oedd yn gyfres sefydlog. Roedd

---

[57] Ymchwil MTM, tudalennau 70 a 88.
[58] Ffynhonnell: *Audience Perceptions of Quality*, Ymddiriedolaeth y BBC 2007 / Grwpiau Ffocws Ymddiriedolaeth y BBC 2010.
[59] Mae'r panel Pulse yn arolwg a gomisiynwyd gan y BBC sy'n cael ei gontractio a'i reoli gan GfK ar ran y BBC. Mae'n banel cryf o 20,000 a mwy ac mae'n cynrychioli'r DU yn genedlaethol, gyda hybiau rhanbarthol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ynghyd â mesurau strategaeth eraill, mae'r sgôr AI (Mynegai Gwerthfawrogiad) yn un o swyddogaethau craidd y panel a dyma brif fesur ansawdd y BBC. Fel confensiwn sy'n caniatáu edrych ar y sgorau allan o 100, mae cyfartaledd yr holl farciau hyn allan o 10 ar gyfer rhaglen neu sianel yn cael ei luosi â 10. Mae hyn yn rhoi sgôr Gwerthfawrogiad neu AI. Er enghraifft, wrth gyfuno sgorau ar gyfer pob rhaglen ar gyfer teledu'r BBC rydym yn cael sgôr cyfartalog o 8.2, sy'n rhoi mynegai gwerthfawrogiad o 82 i ni. Mae'r arolwg yn canolbwyntio ar deledu sy'n cael ei ddarlledu, sy'n ei gwneud yn anoddach mesur rhaglenni BBC Three. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: *BBC Audience Information: Context & Glossary (Dogfen 2)*.

2.1m wedi gwylio fideos a 473k wedi ymweld â thudalen Instagram *Normal People*, a 573k o gysylltiadau ar dudalen Twitter y rhaglen. Gwyliodd dros 315k y sesiwn Holi ac Ateb fyw ar Twitter.

- *This Country* ar BBC Three oedd y gyfres gomedi a gafodd y sgôr uchaf ar gyfer pobl dan 45 oed gyda sgôr o 90, a sgôr cyson drwy gydol y gyfres olaf. Dyma hefyd oedd y trydydd teitl comedi uchaf ymysg yr holl gynulleidfaoedd.

- Mae *Famalam*, sioe sgetshis comedi, yn un o'r tri fideo gorau sy'n perfformio ar y cyfryngau cymdeithasol, gyda dros 22m o ymweliadau ar Facebook yn unig, 500k o ymatebion, ac wedi ei rannu dros 95k o weithiau.

- Mae BBC Three wedi creu sianeli cymdeithasol *RuPaul's Drag Race UK* arbennig gyda nifer fawr o ddilynwyr penodol: dros 540k ar Instagram, 280k ar Facebook a 165k ar Twitter. Ar gyfrifon cymdeithasol *Drag Race* gwyliodd dros 37m y fideos i weld eu cynnwys a mwy nag 11m o gysylltiadau ar lwyfannau cymdeithasol.

- *Mae Roman Kemp: Our Silent Emergency*, rhaglen ddogfen un-tro sy'n edrych ar iechyd meddwl a hunanladdiad ymysg dynion ifanc, wedi cael 3,826,669 o ymweliadau organig ar y cyfryngau cymdeithasol a 107,094 o gysylltiadau ar draws sianeli cymdeithasol BBC Three. [60] Mae'r cysylltiadau cymdeithasol yn cynnwys y trydariadau canlynol, sy'n dangos yr effaith mae wedi'i chael ar gynulleidfaoedd:




---


[60] Ffynonellau: BBC, *AI scores on TV: What do they mean?,* Ionawr 2021, a data mewnol y BBC. Nid yw gwylio fideos a chysylltiadau yn cynnwys gwylio fideos a chysylltiadau â thâl, ond y rheini sy'n deillio o weithgarwch cymdeithasol BBC Three yn organig.

#### 4.3.4.3 *Faint o allbwn gwreiddiol a gynhyrchir yn y DU*

Prif ffocws sianel newydd BBC Three fydd rhaglenni gwreiddiol Prydeinig o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gynulleidfa darged 16-34 oed. Bydd o leiaf 70% o oriau darlledu BBC Three yn gynyrchiadau gwreiddiol, hynny yw, rhaglenni wedi'u comisiynu gan y BBC, gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt yn cael eu cynhyrchu yn y DU hefyd.

Wrth edrych ar y 10 rhaglen sy'n perfformio orau (ym Mlwyddyn Ariannol 2020/21) ar gyfer BBC Three, ITV2, E4 a Sky One, mae gwahaniaeth cryf o ran y cymysgedd rhwng comisiynau a rhaglenni sy'n cael eu prynu. Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 14 isod, roedd 95% o'r 10 prif raglen ar BBC Three a wyliodd pobl 16-34 oed yn rhaglenni a gomisiynwyd gan y BBC a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf ac o'r archif. O gymharu â hynny, rhaglenni a oedd wedi'u prynu yn bennaf oedd y 10 prif raglen a wyliwyd ar y sianeli cymharol.

**Ffigur 14: Nifer y bobl 16-34 oed sy'n gwylio'r 10 prif raglen yn ôl comisiwn/prynu, Blwyddyn Ariannol 2020/21**




*Ffynhonnell: Data mewnol y BBC a data BARB*[61]


Fel y dywedodd Lara O'Reilly, Golygydd Cyfryngau Insider:[62]

> *Ers i BBC Three fynd ar-lein yn llwyr, mae wedi cael llwyddiant un ar ôl y llall; mae'r strategaeth fwyaf clyfar yn llwyddo – buddsoddi mewn cynnwys*

[61] Mae data BBC Three yn cynnwys iPlayer yn unig, mae data sianeli cystadleuwyr yn ddata BARB 28 diwrnod wedi'i gydgrynhoi. Er bod hyn yn ddefnyddiol i'n hasesiad, mae'n golygu nad yw'n gymhariaeth debyg am debyg, oherwydd cyfraddau ailadrodd ac ati ar deledu llinol o'i gymharu ag argaeledd parhaus ar-alw.
[62] *The Media Show*, BBC Radio 4, 3 Mawrth 2021.

*gwreiddiol. Yr ymdeimlad gan y BBC yw ei fod yn haeddu ei sianel ei hun yn seiliedig ar yr holl lwyddiant hwn – ac mae'n ymddangos bod y penderfyniad gwreiddiol i'w roi ar-lein yn unig yn dipyn o gamsyniad. Mae pobl ifanc yn dal i wylio teledu llinol; dim cymaint ag o'r blaen ond maen nhw dal yno; mae marchnad yno o hyd.*

### *4.3.4.4 Lefel y risg a gymerir, yr arloesi, yr her a'r uchelgais creadigol*



*Ffynhonnell: Tweetwatch, 3 Mawrth*

Mae BBC Three wedi llwyddo i gymryd risgiau creadigol drwy gefnogi syniadau newydd ar draws gwahanol genres ac yna helpu i droi'r rhain yn rhaglenni llwyddiannus iawn.

Mae llawer o enghreifftiau o raglenni BBC Three sydd wedi bod yn llwyddiant ysgubol gyda chynulleidfaoedd a beirniaid. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mae *Fleabag* gan Phoebe Waller-Bridge wedi ennill o leiaf 39 o'r 70 gwobr yr enwebwyd y rhaglen amdanynt, gan gynnwys dwy BAFTA a dwy wobr Golden Globe.
- Mae *Killing Eve* wedi cael clod rhyngwladol tebyg, gan ennill tair BAFTA, Gwobr Golden Globe a Gwobr Peabody.
- Mae *In My Skin*, a gynhyrchwyd gan Expectation Entertainment a'i ffilmio yng Nghymru, wedi cael canmoliaeth arbennig ac wedi ennill nifer o wobrau gan gynnwys pedair gwobr BAFTA Cymru a Gwobr Rhaglen RTS.
- Mae *Normal People*, a gynhyrchwyd gan Element Pictures yn Iwerddon, wedi cael canmoliaeth arbennig am y perfformiadau, y cyfarwyddo, yr ysgrifennu, yr estheteg ac am bortreadu cynnwys aeddfed. Mae hefyd wedi cael ei henwebu ar gyfer nifer o wobrau, a dyma gyfres y flwyddyn a gafodd ei ffrydio fwyaf ar iPlayer gyda 68 miliwn yn ei gwylio rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mai 2021.
- *Defending Digga D* oedd cynhyrchiad cyntaf y cyfarwyddwr newydd, Marian Mohamad – a chafodd y wobr Talent Newydd: Ffeithiol gan BAFTA yn 2021 am ei gwaith.
- Enillodd *Man Like Mobeen* wobr Crefft – Cynhyrchiad yng Ngwobrau RTS Canolbarth Lloegr 2020, ac enillodd Guz Khan wobr yr Awdur Gorau hefyd (gan rannu'r wobr â'i gyd-awdur Andy Milligan) a'i enwebu ar gyfer y wobr Actor Gorau yn y gyfres, ac enillodd Duaa Karim y wobr Actores Orau.

Ar ben hynny, mae cyfran uwch o raglenni BBC Three yn gyfresi newydd, yn hytrach na rhai sy'n dychwelyd, o'i gymharu â sianeli eraill y BBC. Hefyd, canfu ein hymchwil cynulleidfa fod cynulleidfaoedd yn teimlo bod sianel deledu newydd BBC Three yn greadigol o ran arddull, naws ac allbwn, gan ddarparu cynnwys o ansawdd uchel, yn enwedig dramâu a rhaglenni dogfen.[63]

#### *4.3.4.5 Yr amrywiaeth o gynulleidfaoedd mae'n eu gwasanaethu*

Mae BBC Three yn canolbwyntio ar gynnwys Prydeinig sy'n cael ei osod a'i wneud fwyfwy yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau. Mae'n canolbwyntio ar gyflwyno portread dilys o grwpiau amrywiol nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ledled y DU, gan adlewyrchu bywydau a diddordebau cynulleidfaoedd ifanc y DU. O'r herwydd, bydd yn rhan unigryw o bortffolio sianeli a gwasanaethau eraill y BBC.

Yn gyffredinol, canfu ein hymchwil cynulleidfa fod 47% o'r holl gynulleidfaoedd a 60% o bobl 16-34 oed yn cytuno y byddai'r newidiadau'n golygu bod y BBC yn apelio mwy i bobl yn gyffredinol, ac roedd 52% o'r holl gynulleidfaoedd a 60% o bobl 16-34 oed yn cytuno y byddai'r BBC yn apelio at amrywiaeth ehangach o bobl wahanol nag y mae'n ei wneud ar hyn o bryd.[64] Ar ben hynny, roedd y ffafriaeth gyffredinol tuag at BBC Three wedi gwella 9 y cant a mwy ar gyfer yr holl gynulleidfaoedd, a 19% a mwy ar gyfer pobl 16-34 oed ar ôl gwylio deunydd cyflwyno'r sianel newydd, gyda'r apêl ar ei huchaf ymysg pobl 25-34 oed ar 57%.[65]

Fel y trafodwyd uchod, mae ein hymchwil hefyd yn dangos bod y sianel yn y cynnig yn apelio fwyaf at gynulleidfa darged 16-34 oed, gan gynnwys cynulleidfaoedd C2DE, BAME ac anfetropolitan nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Mae'r cynnydd mwyaf o ran ffafriaeth i BBC Three i'w gweld ymysg cynulleidfaoedd BAME (50%), a gwelsom gynnydd mewn ffafriaeth hefyd ymysg cynulleidfaoedd C2DE (+9%) a chynulleidfaoedd sydd â chysylltiad rhyngrwyd gwannach (+10%) ar ôl dysgu bod BBC Three yn dod yn sianel deledu.[66]

Ar ben hynny, er nad ydynt efallai'n gwylio'r sianel eu hunain, mae cynulleidfaoedd hŷn (yn enwedig pobl 55 oed a hŷn) yn cydnabod bod gan y sianel fanteision i'r genhedlaeth iau, yn enwedig y rheini sydd â diddordeb mewn themâu/pobl fel nhw a fydd yn ymddangos yn rhaglenni BBC Three.[67]

Hefyd, mae sianel BBC Three yn cyflwyno cynnwys a fydd yn taro tant gyda chynulleidfaoedd hŷn (y rhai ifanc eu ffordd) sydd â diddordeb mewn materion

---

[63] Ymchwil MTM, tudalen 76.
[64] Ymchwil MTM, tudalennau 71-72.
[65] Ymchwil MTM, tudalennau 20 a 24.
[66] Ymchwil MTM, tudalen 40.
[67] Ymchwil MTM, tudalen 61.

amserol, gan greu cyfleoedd iddyn nhw weld sut mae cenedlaethau iau yn meddwl/gweithredu/teimlo/siarad, ac ati.[68]

Yn olaf, bydd arlwy BBC Three cyn y trothwy yn cynnwys rhaglenni sy'n addas ac yn apelio at gynulleidfaoedd 13 oed a hŷn, gan roi cyfle i blant hŷn barhau i ddarganfod a gwylio cynnwys y BBC wrth iddyn nhw dyfu i fod yn bobl ifanc yn eu harddegau/oedolion ifanc.

Felly, yn ôl Max Goldbart, bydd plant sy'n meddwl eu bod yn rhy hen i CBBC ond ddim yn cael gwylio rhaglenni teledu i oedolion, yn teimlo fel petai ganddyn nhw le eu hunain am y tro cyntaf.[69] Mae'r BFI, CMF, WGGB a'r Youth Media and Culture Network yn gweld cyfle i gael cynnwys cyn y trothwy ar gyfer pobl ifanc 13-15 oed a manteision hynny, gyda WGGB yn croesawu'r gynulleidfa eang hon.

#### *4.3.4.6 Casgliad*

Bydd sianel deledu BBC Three yn darparu llwyfan gwell ar gyfer rhaglenni unigryw o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd iau, gan wella cyrhaeddiad a pha mor rhwydd yw canfod y cynnwys hwn, a gwella ein cysylltiad a'r ffordd rydym yn ymwneud â chynulleidfaoedd iau.

Yn ein hymchwil feintiol, roedd hanner y bobl 16-34 oed yn cytuno y byddai sianel newydd BBC Three yn unigryw ac nad oes sianel deledu arall fel hon.[70]

O ran a fydd y sianel newydd yn cyflawni ein trydydd Diben Cyhoeddus, aeth un cyfranogwr cyn belled â datgan:

> *y byddai'n sicr yn cyfrannu at hynny – gallai hynny fod bron yn ddatganiad cenhadaeth ar gyfer BBC Three.*[71]

> Os ydych chi'n gofyn i mi, ni ddylid cuddio sioeau fel y rhain [Killing Eve, Fleabag a Shrill] ar lwyfan annigonol. Maent yn drysorau'r BBC, rhai o'r goreuon sydd gan y gorfforaeth i'w dangos. Mae'r potensial ar gyfer mwy o sioeau fel hyn, i weld sioeau mwy cymhleth, doniol a dirdynnol yn dod i'r amlwg, yn rhywbeth rwy'n ei ragweld yn fawr. ... Daw safon yn aml o'r llwyfan, ac nid oes cyfrwng gwell na theledu. ...does dim byd sy'n adrodd stori weledol well na'r teledu. Mae ymgolli mewn cyfres wych yn un o'm hoff bethau.
>
> ~~ *BBC Three's broadcast resurrection offers a fresh chance for TV dramas aimed at younger people*, Clara Hill, Broadcast, 4 Mawrth 2021

---

[68] Ibid.
[69] *BBC 3 return: what comes next?,* Max Goldbart, Broadcast, 3 Mawrth 2021.
[70] Ymchwil MTM, tudalen 88.
[71] Ymchwil MTM, tudalen 76.

### 4.3.5 Bydd sianel ddarlledu BBC Three yn hyrwyddo Pedwerydd Diben Cyhoeddus y BBC i adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol ar draws y DU a chefnogi'r economi greadigol

Pedwerydd diben cyhoeddus y BBC yw:

> **Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ar draws y Deyrnas Unedig**: dylai'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a'i wasanaethau. Wrth wneud hyn, dylai'r BBC gynrychioli a phortreadu bywydau'r bobl sy'n byw yn y Deyrnas Unedig heddiw mewn modd dilys a chywir, a chodi ymwybyddiaeth o'r diwylliannau a'r safbwyntiau gwahanol sy'n creu ei chymdeithas. Dylai sicrhau ei fod yn darparu allbwn a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC ddod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau a helpu i gyfrannu at lesiant a chydlyniant cymdeithasol y Deyrnas Unedig. Wrth gomisiynu a darparu'r allbwn, dylai'r BBC fuddsoddi yn economïau creadigol pob un o'r gwledydd a chyfrannu at eu datblygiad.[72]

Amcangyfrifir bod 16 miliwn o bobl rhwng 16 a 34 oed yn byw yn y DU. O'r rhain, mae tua 13.5 miliwn yn byw yn Lloegr, ac mae tua 11 miliwn o'r rhain yn byw y tu allan i Lundain. Yn yr Alban mae 1.3 miliwn o bobl 16-34 oed yn byw yno, 742k yng Nghymru a 454k yng Ngogledd Iwerddon. Mae llawer o'r bobl ifanc hyn yn perthyn i grwpiau economaidd-gymdeithasol is, yn enwedig gan mai megis dechrau y maent mewn bywyd. Un o brif ffactorau'r sianel newydd fydd gwyro tuag at fywydau a phrofiadau byw pobl ifanc a darparu cynnwys sy'n cynrychioli hynny, gan bortreadu a delio â materion fel cynhwysiant hunaniaeth a modelau rôl ym Mhrydain; eu cefnogi a rhoi sicrwydd iddyn nhw wrth iddyn nhw fynd drwy un o gyfnodau craidd mwyaf heriol eu bywydau, gan newid o fod yn bobl ifanc yn eu harddegau i fod yn oedolion yn eu 20au cynnar – dod o hyd i swydd, bod yn fwy annibynnol, gweld pwy ydyn nhw, ac ati, a mynd i'r afael hefyd â heriau ychwanegol sydd wedi dod yn sgil y pandemig.




*Ffynhonnell: Tweetwatch, 3 Mawrth*

Mae BBC Three eisoes yn adlewyrchu ac yn portreadu lleisiau a phrofiadau go iawn ledled y DU, gyda rhaglenni fel *Rap Game*, *Glow Up* ac *Angels of the North* gan ddangos straeon uchelgeisiol am bobl ifanc sydd wedi llwyddo oherwydd eu hymdrechion eu hunain, a'r holl ymrwymiad a'r bwrlwm maen nhw'n eu dangos i gyrraedd lle maen nhw, mewn ffordd sy'n siarad yn uniongyrchol â'r gynulleidfa. Mae *Meet the Khans* yn dangos

[72] Erthygl 6(4), Siarter Frenhinol y BBC.

bywyd cwpl o dreftadaeth Mwslim Pacistanaidd a briododd yn ifanc (realiti i rai mewn cymunedau De Asia) – ac maen nhw'n cael eu portreadu yn eu byd go iawn o ddydd i ddydd gyda'i uchafbwyntiau a'i isafbwyntiau y tu allan i fyd materion cyfoes.


Mae rhaglenni eraill sydd ar y gweill yn cynnwys cystadleuaeth tractorau wedi'i ffilmio yng Ngogledd Iwerddon yn cyflogi'n lleol o ddinas sydd yn ei chael hi'n anodd yn economaidd, ac yn cyflwyno ffermwyr ifanc – cipolwg ar fywydau gwledig pobl ifanc sydd prin yn cael ei weld ar y teledu. Bydd cystadleuaeth dillad stryd yn tynnu sylw at straeon pobl ifanc o bob cwr o'r DU, sy'n mentro ac yn agor eu busnesau eu hunain, ac mae BBC Three yn cynhyrchu sioe gerddoriaeth a fydd yn dathlu cerddoriaeth Ddu Brydeinig.

Ond, mae angen i'r BBC wneud mwy, ac mae wedi ymrwymo i fuddsoddi mwy yn BBC Three a lansio'r sianel deledu a fydd yn cael ei darlledu i helpu i adfer cydbwysedd yr adnoddau presennol er mwyn i ni adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu pawb yn well. Bydd hyn yn golygu gwneud mwy ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu na'u cynrychioli'n ddigonol ar hyn o bryd, fel cynulleidfaoedd iau C2DE a BAME ledled y DU.

Canfu ein hymchwil cynulleidfa fod cynulleidfaoedd yn cytuno mai un o gryfderau allweddol sianel newydd BBC Three yw y bydd yn helpu i ddarparu llwyfan gwell i grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol (fel BAME, LGBTQ+), ac y bydd y gwahanol ranbarthau, gwledydd a chefndiroedd ar draws y DU yn cael eu hadlewyrchu yn ei gymysgedd o raglenni.[73] Ar ôl dysgu am y sianel newydd, mae cynulleidfaoedd BAME yn ymateb yn arbennig o dda i'r newidiadau arfaethedig, fel y dangosir yn Ffigur 15. I'r gwrthwyneb, mae ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2019/20 yn nodi mai dim ond 43% o gynulleidfaoedd BAME sy'n meddwl bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw.[74]

[73] Ymchwil MTM, tudalen 76.
[74] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Grŵp y BBC 2019/20, tudalen 39.


**Ffigur 15: Effaith gymdeithasol**




*Ffynhonnell: MTM*[75]

Fel y dywedodd dau o'r cyfranogwyr:

> *Mae'n dal i fyny â'r oes… y cynnwys sy'n dangos y gymuned LGBTQ, hil, gwahanol rannau o'r DU, llawer o lefydd a genres gwahanol y gall pobl droi ato. Portreadau realistig o gymeriadau, a byddai'r straeon sy'n cael eu dangos yn gwneud mwy i dynnu sylw at grwpiau nad ydych chi'n eu gweld yn aml ar y teledu.*[76]




*Ffynhonnell: Tweetwatch, 3 Mawrth*

Roedd ein digwyddiad trafod â sefydliadau yn ailadrodd pwysigrwydd cynrychioli go iawn ac osgoi stereoteipiau (a thybiaethau am bobl ifanc), gan fod pobl ifanc o bob cefndir eisiau cael eu cynrychioli yn ôl eu profiad cyfan, gan nodi nad yw pawb yn mynd i fod yn rapiwr, llwyddo ar YouTube, bod â diddordeb mewn newid yn yr hinsawdd ac ati, felly mae'n rhaid cael gwahaniaeth – mae pobl ifanc yr un mor amrywiol â phawb arall.

Yn ogystal â straeon ysbrydoledig, awgrymwyd yn y trafodaethau â sefydliadau y gallai'r sianel gynnwys realiti, er enghraifft, swyddi nad ydynt yn rhai deniadol ond

[75] Ymchwil MTM, tudalennau 71-72.
[76] Ymchwil MTM, tudalen 62 a 76.

eu bod yn hanfodol mewn amrywiaeth o sectorau, megis lletygarwch a manwerthu, lle gallai'r cyflog cychwynnol fod yn isel ond bod sgiliau hanfodol yn cael eu dysgu – fel rhan o'u taith gweithio. Bydd y sianel newydd yn dangos hyd a lled bywydau pobl ifanc – ac rydym eisoes wedi rhoi enghreifftiau yn gynharach yn yr adran hon o raglenni sydd ar y gweill a fydd yn dangos gwir ddarlun o fywydau pobl ifanc sy'n gwneud swyddi pwysig ond sydd prin yn cael eu gweld (ee, ffermio a lletygarwch).

Mae'r sianel hefyd yn rhoi cyfle i herio allgáu cymdeithasol a sicrhau bod gan bobl ifanc fwy o ymdeimlad o berthyn, hunaniaeth ac o fod yn aelod o gymdeithas yn gyffredinol. Er enghraifft, mae perthynas pobl â'i gilydd yn hanfodol i hunaniaeth, ac roedd un o'r trafodaethau yn tynnu sylw at y ffaith bod awydd am fwy o gynnwys ar berthynas pobl â'i gilydd. Bydd sianel newydd BBC Three yn dangos rhaglenni sy'n ymwneud â pherthynas pobl â'i gilydd, sydd ag arwyddocâd ychwanegol ar hyn o bryd yn sgil y cyfyngiadau symud a'r dystiolaeth bod hyn wedi tarfu ar fywydau pobl ifanc a gwneud iddyn nhw deimlo'n unig.

Roedd ein trafodaethau â chynrychiolwyr pobl ifanc hefyd yn pwysleisio arwyddocâd portreadu a chynrychioli dilys, gan gyfeirio'n benodol at gynrychiolaeth wirioneddol a phortreadu anabledd, hil a daearyddiaeth mewn ffordd *gadarnhaol*. Maent yn teimlo'n rhy aml o lawer fod pobl sy'n cael eu tangynrychioli yn cael eu portreadu gan y cyfryngau mewn ffordd negyddol, ee, rhieni sy'n wynebu anawsterau wrth fagu plentyn awtistig, a bod cymunedau pobl ddu yn cael eu portreadu fel cymunedau sy'n wynebu caledi neu fel dioddefwyr. Maen nhw hefyd yn cytuno bod gwerth mewn cynrychioli pobl o bob cwr o'r DU, nid dim ond Llundain a'r prif ddinasoedd; ond yn rhybuddio rhag stereoteipio – sy'n digwydd yn rhy aml, ym marn rhai – mae mwy i ogledd-ddwyrain Lloegr na *Geordie Shore*, ac mae mwy i Lerpwl na gangiau a chyffuriau.

Siaradodd cwpl o'r cyfranogwyr am y cyffro maen nhw'n ei deimlo pan fyddan nhw'n clywed eu hacen yn annisgwyl mewn rhaglen brif ffrwd, a bod hyn yn rhoi ymdeimlad o falchder iddyn nhw a gwneud iddyn nhw deimlo eu bod yn bwysig. Ond ar wahân i acenion, dylai fod llawer mwy o gysylltiad a sylw i bobl o wahanol gefndiroedd a chymunedau gwahanol, felly bydd cynrychiolaeth decach a mwy realistig o'r hyn yw'r DU mewn gwirionedd.

Roedd rhai hefyd yn cytuno mai prin oedd portreadau cadarnhaol o bobl ddu a chynrychiolaeth gadarnhaol o gymunedau du. Gan amlaf, byddwch yn gweld rhaglenni sy'n eu cysylltu â chyffuriau a/neu gangiau, rhai ohonynt yn gwneud i hyn ymddangos yn ddeniadol, sy'n golygu bod pobl ddu ifanc yn meddwl mai dyna'r cyfan sydd ar gael neu fod hyn yn rhywbeth i anelu ato. Fodd bynnag, dywedodd un person ifanc fod gweld rhaglenni dogfen fel *Defending Digga D* yn teimlo fod hyn yn ddechrau newid da a newid patrwm.

Dywedodd nifer o'r rhai a oedd yn bresennol fod rhaglenni dogfen sy'n herio stereoteipiau safonol ac sy'n cynnwys pobl enwog y gall cymunedau amrywiol uniaethu â nhw, yn gallu bod yn gyfrwng pwerus iawn. Cyfeiriwyd at y gwaith roedd BBC Three wedi'i wneud gyda Digga D, Mist ac Amir Khan fel enghreifftiau o hyn. Yn yr un modd, nodwyd bod y ffaith bod *RuPaul's Drag Race UK* yn dod i BBC Three wedi tanio diddordeb pobl mewn diwylliant LGBTQ+ ac wedi'u haddysgu fwy am hyn.

Dywedodd un person:

> *Yn seiliedig ar y sianeli rydw i wedi'u gweld, mae BBC ar flaen y gad o ran cynrychioli amrywiaeth – ar wahân i acenion – rydym ni'n gweld llawer mwy o bobl o wahanol gefndiroedd, cymunedau gwahanol, felly rydym ni'n gwybod ein bod yn cael cynrychiolaeth decach a mwy realistig, siŵr gen i, o'r hyn yw'r DU mewn gwirionedd.*[77]

Yn olaf, mae rhanddeiliaid hefyd yn cytuno y bydd y sianel yn cyflawni'r pedwerydd Diben Cyhoeddus:

- Mae BFI yn dangos bod gan BBC Three gyfle i fod yn fwy cynrychioliadol o fywydau ar draws y DU nag y mae'r farchnad fasnachol fyd-eang yn caniatáu fel arall.
- Mae Directors UK yn teimlo y bydd y sianel yn helpu cynulleidfaoedd iau i weld eu bod yn cael eu cynrychioli mewn cynnwys gwreiddiol o bob rhan o'r DU, gan ddarparu cynnwys sy'n adlewyrchu eu bywydau ac yn apelio atyn nhw. Maen nhw hefyd yn cefnogi ein cynlluniau i gomisiynu gan grwpiau amrywiol a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a dwy ran o dair y tu allan i Lundain.
- Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn croesawu'r cynnig i gynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd amrywiol.
- Mae IBT a WGGB yn croesawu cynrychiolaeth a phortread o bob agwedd ar fywyd yn y DU.

Bydd sianel deledu newydd BBC Three yn rhoi llwyfan gwell i bobl ifanc amrywiol nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, gan hybu cyrhaeddiad a pha mor rhwydd yw canfod cynnwys sy'n cynrychioli ac yn portreadu eu bywydau mewn ffordd ddilys – gan wella ein hymgysylltiad â chynulleidfaoedd iau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu na'u cynrychioli'n ddigonol.




*Ffynhonnell: Tweetwatch, 3 Mawrth 2021*

[77]Roedd hwn yn ymateb i'r cwestiwn: *Pa mor bwysig yw hi i chi fod sioeau'n cael eu seilio a'u gwneud ym mhob cwr o'r DU?*

### 4.3.6 Crynodeb o'r gwerth cyhoeddus i gymdeithas

Felly, rydym ni o'r farn bod ein dadansoddiad – ar sail yr ymchwil cynulleidfa uchod o'r manteision mwy cyffredinol i gymdeithas – yn awgrymu bod gwerth cymdeithasol ein cynigion yn debygol o fod yn uchel, oherwydd y bydd y sianel yn hybu mynediad at gynnwys o ansawdd uchel sy'n dangos yr holl amrywiaeth yn y DU, yn cymryd risgiau, ac yn cael ei deilwra i'n cynulleidfaoedd iau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.

## 4.4 Gwerth i'r diwydiant

Mae gwerth i'r diwydiant i'w weld yng nghyfraniad y BBC i'r sector yn gyffredinol, gyda phwyslais ar barhau i gefnogi diwydiant creadigol y DU drwy fuddsoddi mewn cynyrchiadau gwreiddiol (yn enwedig cynyrchiadau lleol a rhanbarthol), datblygu talent, hyfforddiant a phartneriaethau strategol.

### 4.4.1 Manteision i'r sector cynhyrchu

Bydd sianel deledu newydd BBC Three yn cefnogi buddsoddiad sylweddol y BBC yn yr economi greadigol ledled y DU.

Bydd sianel ddarlledu newydd BBC Three yn cynyddu faint o bobl sy'n gwylio rhaglenni BBC Three, ac felly'n darparu 'ffenestr siop' fwy, a allai gynyddu gwerth masnachol posibl hawliau eilaidd ar gyfer rhaglenni cynhyrchwyr a rhoi mwy o gyfleoedd i fanteisio ar hawliau ategol, yn y DU a thu hwnt. Er enghraifft, cafodd *Fleabag* ei gynhyrchu gan Two Brothers Pictures ar gyfer BBC Three, ac mae wedi cael ei ddosbarthu i Amazon Prime ac IFC yn yr Unol Daleithiau, Net5 yn yr Iseldiroedd, ac mae wedi cael ei ail-greu ar gyfer teledu Ffrainc, a'i ddarlledu ar Canal+.

Gan fod y rhan fwyaf o gomisiynau BBC Three yn cael eu cynhyrchu gan gynhyrchwyr annibynnol (gweler Ffigur 16 isod) mae hyn yn debygol o fod o fudd penodol i'r sector cynhyrchu annibynnol. Bydd hyn yn cael ei ategu gan delerau masnach diwygiedig sy'n ymwneud â BBC Three fel sianel ddarlledu, er budd sector cynhyrchu'r DU.

**Ffigur 16: Comisiynau BBC Three yn ôl cyflenwr, % gwariant ac oriau ar gyfartaledd, 2016/17 – 2020/21**[78]

| Cyfran y Cyflenwyr | % Gwariant | % Oriau |
|---|---|---|
| BBC PS | 20% | 25% |
| BBC Studios | 19% | 14% |
| Cynhyrchwyr Annibynnol Anghymwys | 13% | 11% |
| Cynhyrchwyr Annibynnol Cymwys | 48% | 49% |
| **Cyfanswm terfynol** | **100%** | **100%** |

*Ffynhonnell: Data'r BBC*

Hefyd, mae BFI yn credu y bydd amrywiaeth y cynnwys ar y sianel yn helpu i sbarduno buddsoddiad mewn cynnwys ar gyfer pobl 16-34 oed ymysg cystadleuwyr, gan wella ansawdd ac amrywiaeth y cynnwys ar gyfer y gynulleidfa hon o ganlyniad. Byddai hyn hefyd yn cynyddu nifer y comisiynau ar draws y sector ar gyfer y sector cynhyrchu.

### 4.4.2 Effaith ar gynhyrchu rhanbarthol

Ein bwriad yw gwario dwy ran o dair o gyllideb rhaglenni BBC Three y tu allan i Lundain (o'i gymharu â chwotâu o 35% ar gyfer ITV a Channel 4, a 10% ar gyfer Channel 5) gan gefnogi cwmnïau cynhyrchu annibynnol a'r economi greadigol ledled y DU. Bydd hyn yn newid mawr i BBC Three, oherwydd, ers mynd ar-lein, mae'r rhan fwyaf o wariant BBC Three ar raglenni ac oriau rhaglenni cyfatebol wedi bod yn Llundain, fel y nodir yn Ffigur 17.

[78] Mae NQI a QI yn cyfeirio at raglenni a wneir gan gynhyrchwyr annibynnol anghymwys a chymwys, o fewn ystyr *Gorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) 1991*. Mae cwotâu cynhyrchu annibynnol ar gael – sy'n ymwneud â lefelau'r rhaglenni a wneir gan gynhyrchwyr annibynnol cymwys ar draws gwasanaethau teledu'r BBC.

**Ffigur 17: % gwariant ac oriau ar gyfartaledd cynyrchiadau rhanbarthol BBC Three, 2016/17-2020/21**

| Rhanbarth Ofcom | % Gwariant | % Oriau |
|---|---|---|
| Llundain | 74% | 77% |
| Canolbarth Lloegr ac East Anglia | 1% | 1% |
| Mwy nag un Rhanbarth | 3% | 1% |
| Heb fod yn y DU | 5% | 2% |
| Gogledd Lloegr | 4% | 6% |
| Gogledd Iwerddon | 3% | 4% |
| Yr Alban | 3% | 3% |
| De Lloegr | 3% | 4% |
| Cymru | 3% | 2% |
| **Cyfanswm** | **100%** | **100%** |

*Ffynhonnell: Data'r BBC*

Rydym wedi dadansoddi effaith bosibl ein bwriad i wario dwy ran o dair o wariant rhaglenni BBC Three y tu allan i ardal yr M25. Gan ddefnyddio'r un dull a nodir yn adroddiad KPMG ar effaith economaidd y BBC[79], rydym yn amcangyfrif, ar y diwedd, y bydd ailddosbarthu'r gwariant ar gynnwys fel hyn yn creu gwerth ychwanegol o £23.2m y flwyddyn ar draws gwledydd datganoledig y DU a rhanbarthau Lloegr (y tu allan i ardal yr M25).

Mae Directors UK, IBT a WGGB yn dangos cefnogaeth i gynrychioli a phortreadu pob agwedd ar fywyd yn y DU drwy gomisiynu y tu allan i Lundain – buddsoddiad gwirioneddol mewn comisiynwyr, cynhyrchwyr a chriw, ac mae WGGB yn gobeithio y bydd awduron o gymunedau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn elwa o'r nod hwn.

### 4.4.3 Datblygu Talent

Bydd gwerth yn cael ei greu i'r diwydiant hefyd drwy ein buddsoddiad mewn cynnwys a'n buddsoddiad mewn talent drwy gynlluniau a phartneriaethau ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU, ehangu cynrychiolaeth a chreu cronfa dalent ar gyfer economïau y tu hwnt i Lundain, gosod safon sgiliau, a sicrhau bod talent fedrus iawn ar gael. Bydd y sianel wedyn yn cynnig llwyfan mwy i dalentau a chynhyrchwyr newydd gyrraedd cynulleidfa ehangach a sicrhau mwy o ymgysylltiad â chynulleidfaoedd iau ar y teledu ac ar iPlayer.

Hefyd, mae ein cynlluniau a'n partneriaethau amrywiol, gan gynnwys partneriaethau ag asiantaethau sgrinio cenedlaethol a rhanbarthol, cynllun prentisiaethau, cynllun cyfarwyddwyr newydd, cynllun comisiynydd cynorthwyol,

[79] An Assessment of the Economic Impact of the BBC, KPMG, Mawrth 2021.


ac awduron, yn cefnogi ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer talent newydd a thalent sy'n dod i'r amlwg yn y diwydiant.

Un enghraifft o stori lwyddiannus yw *Defending Digga D,* sef cynhyrchiad cyntaf y cyfarwyddwr newydd, Marian Mohamad, a chafodd y wobr Talent Newydd: Ffeithiol gan BAFTA yn 2021 am ei gwaith.

Un arall yw *Man Like Mobeen*, cyfres ddrama gomedi Guz Khan yn dathlu cymuned amrywiol Birmingham yn ogystal â dod â'i gymeriad canolog yn fyw. Ers hynny, mae gyrfa Khan wedi datblygu o ddifrif, ac mae wedi cael rhannau blaenllaw mewn sioeau fel *Turn Up Charlie* gydag Idris Elba. Enillodd *Man Like Mobeen* wobr Crefft – Cynhyrchiad yng Ngwobrau RTS Canolbarth Lloegr 2020, ac enillodd Khan wobr yr Awdur Gorau hefyd (gan rannu'r wobr â'i gyd-awdur Andy Milligan) a'i enwebu ar gyfer y wobr Actor Gorau yn y gyfres, ac enillodd Duaa Karim y wobr Actores Orau.

Serennodd Paul Mescal yn ei rôl deledu gyntaf fel y prif gymeriad yn y rhaglen *Normal People*, ac fe enillodd wobr y Prif Actor yng Ngwobrau BAFTA Teledu 2021. Ers y gyfres, mae Mescal wedi chwarae sawl rôl mewn ffilmiau – bydd yn ymddangos mewn ffilm nodwedd am y tro cyntaf yn *The Lost Daughter*, a bydd yn portreadu rolau arweiniol yn y ffilmiau *Carmen* (fersiwn fodern o'r opera sy'n dwyn yr un enw), *God's Creatures* (drama seicolegol), a *Bring Them Down* (ffilm gyffrous).

Yn olaf, stori lwyddiannus amlwg arall yw Stacey Dooley. Ymddangosodd am y tro cyntaf ar BBC Three (pan arferai fod yn sianel ddarlledu ar y teledu) yn *Blood, Sweat and T-shirts* yn 2008. Ers hynny, mae wedi mynd ymlaen i gyflwyno rhaglenni dogfen sy'n procio'r meddwl ar gyfer BBC Three ac eraill, gan gynnwys ei chyfres *Stacey Dooley Investigates* ar BBC Three, lle mae hi wedi ymchwilio i faterion cyfoes sy'n effeithio ar bobl ifanc ledled y byd. Ymysg ei llwyddiannau lu, cafodd Stacey MBE am ei gwasanaethau i ddarlledu yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines yn 2018. Enillodd 16eg cyfres *Strictly Come Dancing*, ac mae wedi cyhoeddi llyfr a ymddangosodd ar restr y Sunday Times o'r llyfrau sydd wedi gwerthu orau, *Stacey Dooley, On the Front Line with the Women Who Fight Back*.



*Ffynhonnell: Tweetwatch, 3 Mawrth*

Bydd y sianel newydd yn parhau i helpu i roi hwb i dalent newydd a thalent sy'n dod i'r amlwg ar y sgrin ac oddi ar y sgrin a syniadau newydd, gan roi llwyfan mwy iddynt a sicrhau eu bod yn cyrraedd ac yn dod i sylw mwy o bobl.

Yn ogystal, yn y digwyddiad trafod â chynrychiolwyr pobl ifanc ac yn ymatebion rhanddeiliaid gan Youth Media and Culture Network a'r Athro Hardy, tynnwyd sylw at werth y sianel wrth iddi gynnwys pobl ifanc drwy gydol y broses greadigol. I'r perwyl hwn, dywedodd yr Athro Hardy fod:

> ...lle i ychwanegu rôl ehangach o ran comisiynu ac arddangos gwaith creadigol gan bobl ifanc eu hunain, a gwaith gan ystod ehangach o lunwyr cynnwys, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu cefnogi gan gelfyddydau cymunedol, addysg ar bob lefel, gwasanaethau ieuenctid, gwasanaethau anabledd ac adnoddau a rhwydweithiau eraill. Byddai dangos gwaith o'r fath ar y sianel ddarlledu (yn ogystal ag ar-lein) fel rhan o'r cymysgedd o raglenni, yn cryfhau'r dadleuon craidd hefyd, oherwydd byddai'n darparu llwybrau ar gyfer canfod cynnwys sy'n berthnasol yn ddiwylliannol (agosaf) i'r cynulleidfaoedd craidd a nodir yn y cynnig. Mae hyn yn rhan o weledigaeth ehangach y BBC fel prif ddarparwr cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, ond mae hefyd yn borth i wasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u rhwydweithio ar draws cyfathrebu, diwylliant a bywyd cymunedol.

### 4.4.4 Crynodeb o'r gwerth i'r diwydiant

Felly, rydym o'r farn y bydd sianel deledu newydd BBC Three yn creu gwerth i'r diwydiant drwy fanteision i'r sector cynhyrchu annibynnol, ailddosbarthu gwariant rhaglenni o Lundain i'r gwledydd a'r rhanbarthau, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu talent.

## 4.5 Cost y cynigion a'r gwerth cyhoeddus posibl a ragwelir mewn gwasanaethau eraill

Gan gydbwyso yn erbyn y gwerth personol, cymdeithasol a diwydiannol sylweddol posibl, rydym wedi ystyried i ba raddau y gallai ein cynigion gael effaith negyddol ar y gwerth cyhoeddus mewn mannau eraill. Gallai hynny ddigwydd, er enghraifft, os oedd y BBC yn bwriadu cwtogi gwasanaeth cyhoeddus sy'n bodoli eisoes yn y DU, neu ddargyfeirio cryn dipyn o gyllid oddi wrth wasanaethau cyhoeddus eraill sy'n bodoli eisoes yn y DU, gan arwain at effaith niweidiol bosibl o ran y cynnig hwn i gynulleidfaoedd.

Rydym wedi ystyried yr effeithiau posibl drwy 1) mesur y gost ychwanegol bosibl i'r BBC wrth gyflawni'r newidiadau hyn, a 2) asesu sut mae cyllideb y BBC yn debygol o allu talu am y gwariant ychwanegol hwn. Rydym wedi ystyried hefyd a fydd cynulleidfaoedd yn newid o wasanaethau eraill y BBC i sianel BBC Three, a beth allai hynny ei olygu.

### 4.5.1 Mae costau ychwanegol y sianel newydd yn gymharol isel

Fel y nodir yn adran 3.8, rydym yn amcangyfrif bod y costau parhaus posibl sy'n berthnasol i gwmpas y Prawf Budd y Cyhoedd hwn – hynny yw, cost ychwanegol darlledu'r sianel ar deledu – tua £2m y flwyddyn, hynny yw, tua 0.1% o gyllideb gwariant cyffredinol y BBC ar gyfer cynnwys ar y teledu, sef £1,831m ar gyfer 2021/22.

Nid ydym yn credu y bydd y gost ychwanegol i'r BBC yn arwain at unrhyw werth cyhoeddus y gellir ei ragweld ar draws gwasanaethau eraill y BBC, gan mai cyllideb

ddisgwyliedig BBC Three o £79m y flwyddyn fydd yn talu am y costau rheolaidd a ragwelir.

### 4.5.2 Mae'r gwerth cyhoeddus a ragwelir wrth leihau oriau CBBC yn cael ei gyfiawnhau gan werth cyhoeddus mwy'r sianel newydd

Ond, rydym wedi ystyried y gwerth cyhoeddus posib a ragwelir wrth leihau oriau darlledu CBBC i 7pm (o 9pm) er mwyn rhyddhau'r capasiti dosbarthu fel bod sianel BBC Three yn dechrau am 7pm.

Mae'n anochel y bydd y gostyngiad yn oriau darlledu CBBC yn effeithio ar y gwylio yn gyffredinol. Roedd gwylio'n fyw ar CBBC rhwng 7pm a 9pm, a fydd efallai'n cael ei golli i ddarparu ar gyfer sianel newydd BBC Three, yn cynrychioli 16% o lefelau gwylio byw CBBC a llai na 0.1% o gyfanswm gwylio'r BBC (gan gynnwys iPlayer) yn 2020.

Ond, mae ein strategaeth cynnwys ddiwygiedig ar gyfer BBC Children yn darparu budd ychwanegol i'r gynulleidfa drwy barhau â chynnwys addysg CBBC, er mwyn iddo ddod yn rhan barhaus o arlwy CBBC – ar ôl y cyfyngiadau symud a'r pandemig Covid-19. Er y bydd oriau darlledu CBBC yn llai, ni fydd ei chyllideb yn newid, sy'n golygu y bydd yn gallu buddsoddi mewn rhaglenni gwerth uwch wrth gomisiynu cynnwys o dan ei strategaeth newydd.

Ar ben hynny, mae cyfran o wylwyr CBBC rhwng 7 a 9pm yn bobl 16-34 oed a allai gael eu gwasanaethu'n well gan BBC Three. Bydd arlwy BBC Three yn cynnwys rhaglenni cyn y trothwy sy'n addas ac yn apelio at gynulleidfaoedd 13 oed a hŷn, gan roi cyfle i blant hŷn barhau i ddarganfod a gwylio cynnwys y BBC wrth iddyn nhw dyfu i fod yn bobl ifanc yn eu harddegau/oedolion ifanc.

Roedd nifer o randdeiliaid – gan gynnwys BFI, CMF, WGGB ac Youth, Media and Culture Network – yn gefnogol o hyn, er roedd pob un o'r farn y byddai'n cynnig gwerth uwch pe byddai'n darparu cynnwys wedi'i gomisiynu'n arbennig ar gyfer cynulleidfa 13 oed a hŷn.

Ar hyn o bryd, nid yw BBC Three yn bwriadu gwneud hyn, ond fel y nodwyd uchod, bydd rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar y sianel rhwng 7 a 9pm yn briodol ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau ac yn apelio atyn nhw. Hefyd, wrth gwrs, bydd CBBC yn parhau i fod ar gael drwy iPlayer bob awr o'r dydd.

### 4.5.3 Gwerth cyhoeddus posibl a ragwelir yng ngwasanaethau eraill y BBC

O ran sianeli eraill y BBC, mae ein hymchwil yn awgrymu mai ar lefelau gwylio sianeli a gwasanaethau'r BBC ar hyn o bryd y bydd y sianel newydd yn effeithio fwyaf, gyda 30% o'r oriau a enillir i BBC Three yn dod o rannau eraill o bortffolio'r BBC (ee, BBC One, BBC Two, iPlayer ac ati). Mae'r ffaith bod y cynulleidfaoedd hyn yn dewis newid o sianeli eraill y BBC i BBC Three yn gorfod golygu bod y

cynulleidfaoedd hyn yn cael eu gwasanaethu'n well gan BBC Three, ac felly mae hyn yn gynnydd net mewn gwerth cyhoeddus (o safbwynt gwerth personol o leiaf).

Felly, nid ydym yn credu y bydd unrhyw effaith niweidiol sylweddol ar y gwerth cyhoeddus mewn mannau eraill ar draws y BBC o ganlyniad i'n cynigion.

Nid oes gan y BBC unrhyw gynlluniau i ddod ag unrhyw wasanaethau sy'n bodoli ar hyn o bryd i ben, nac i wneud unrhyw newidiadau sylweddol i wasanaethau o'r fath o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig hyn. Felly, nid ydym yn credu y bydd y newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith amlwg ar y cynnig i gynulleidfaoedd gan wasanaethau cyhoeddus eraill yn y DU nac felly ar y gwerth cyhoeddus.

### 4.5.4 Gwerth cyhoeddus posibl a ragwelir mewn gwasanaethau eraill nad ydynt yn rhai'r BBC

Rydym yn cydnabod bod darlledwyr eraill – yn enwedig darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill – yn gallu bod yn ffynhonnell o werth cyhoeddus hefyd. Er ein bod o'r farn mai diben Prawf Budd y Cyhoedd yn ei hanfod yw gweld budd yng ngwerth cyhoeddus y newid arfaethedig, isod rydym yn mynd i'r afael â'r effaith bosibl ar werth cyhoeddus gwasanaethau eraill nad ydynt yn rhai'r BBC.

Mae asesu'r gwerth cyhoeddus yn anodd ac yn oddrychol. Rydym o'r farn nad yw'n bosibl nac yn fuddiol gwneud penderfyniadau am werth cymharol rhaglenni darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar wahanol wasanaethau, o ystyried gwahanol gylchoedd gwaith y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r darlledwyr masnachol. Felly, rydym yn ystyried a allai ein cynigion gael effaith niweidiol ar gynhyrchu neu ddefnyddio gwerth cyhoeddus.

Fel y nodir yn Adran 5 y ddogfen hon, rydym yn amcangyfrif y bydd effaith sianel newydd BBC Three ar y farchnad yn gymharol isel, a'i bod yn annhebygol o gael effaith niweidiol ar gymhellion darlledwyr eraill i fuddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau a allai roi gwerth cyhoeddus i wylwyr a'r diwydiant.

Ar gyfer y gwylwyr sy'n troi oddi wrth ddarlledwyr eraill, unwaith eto rhagdybir yn rhesymegol bod y cynulleidfaoedd hyn yn credu eu bod nhw, ar yr eiliad honno, yn cael eu gwasanaethu'n well gan sianel BBC Three, ac felly mae hyn yn gynnydd net mewn gwerth cyhoeddus (o safbwynt gwerth personol o leiaf).

Mae'n bwysig nodi hefyd y bydd rhywfaint o wylwyr sianel ddarlledu newydd BBC Three yn cael eu denu o ffynonellau nad ydynt yn darlledu (ee, cyfryngau cymdeithasol, gemau, gwaith cartref). O'r herwydd, bydd cyflwyno BBC Three yn cynyddu cyfanswm y gwylwyr teledu yn y DU (o'i gymharu â'r sefyllfa wrthffeithiol lle nad yw'r sianel yn cael ei lansio). Mae hyn yn awgrymu y byddai'r newid arfaethedig yn cynyddu'r gwerth cyhoeddus net.

## 4.6 Crynodeb o werth cyhoeddus y newidiadau arfaethedig

I grynhoi, rydym yn credu y bydd lansio sianel ddarlledu newydd BBC Three ar y teledu yn arwain at werth personol a chymdeithasol uchel, yn ogystal â gwerth sylweddol posibl i'r diwydiant.

Bydd sianel BBC Three yn creu gwerth cyhoeddus mewn amrywiaeth eang o ffyrdd. Bydd yn dangos cynnwys unigryw a chreadigol o safon uchel a bydd yn gwasanaethu cynulleidfaoedd iau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol a chynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn bryd gan gynnwys cynulleidfaoedd C2DE a BAME. Bydd yn darparu llwyfan hygyrch a chyfleus i gynulleidfaoedd iau ganfod a gwylio cynnwys sy'n berthnasol iddyn nhw, a hybu cyrhaeddiad a pha mor hwylus yw canfod cynnwys BBC Three, gan weithio ar y cyd ag iPlayer i wella perthynas y BBC â chynulleidfaoedd iau.

Mae'r dystiolaeth yn dangos y bydd ein cynigion yn sicrhau gwell gwerth i dalwyr ffi'r drwydded, yn sicrhau bod y BBC yn parhau i fod yn berthnasol i bob cynulleidfa, ac yn galluogi'r BBC i gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus yn well.

Yn yr adran nesaf, byddwn yn nodi manylion effaith bosibl ein newidiadau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, ac mae'n rhaid cydbwyso gwerth cyhoeddus y newidiadau a amlinellir uchod yn erbyn hyn.

## 5. Effaith bosibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol

Yn yr adran hon rydym yn nodi'r cynnydd posibl mewn lefelau gwylio y gellid ei weld gyda'r sianel newydd, ac yn crynhoi ein dadansoddiad sy'n dangos bod hyn yn annhebygol o gael effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Mae'r strwythur fel a ganlyn:

- Yn gyntaf, rydym yn cyflwyno'r newid a amcangyfrifir i lefelau gwylio'r BBC o ganlyniad i lansio'r sianel;
- Yn ail, rydym yn nodi'r gwasanaethau hynny sydd fwyaf tebygol o weld effaith yn sgil lansio'r sianel, ar draws y gadwyn gyflenwi ar y teledu (hynny yw, cystadleuwyr ar yr un lefel yn y gadwyn gyflenwi) ac yn ehangach (hynny yw, ar wahanol lefelau yn y gadwyn gyflenwi, neu mewn sectorau eraill).
- Yn drydydd, rydym yn ystyried effaith y cynnig ar ddarlledwyr masnachol. Rydym yn ystyried yr effaith statig ar eu lefelau gwylio a'u refeniw hysbysebu, yn ogystal ag a allai'r effeithiau statig hyn gael effaith niweidiol ar gymhelliant cystadleuwyr i fuddsoddi mewn rhaglenni neu arloesi yn y tymor hwy.
- Yn bedwerydd, rydym yn ystyried effaith y cynnig ar ddarparwyr teledu drwy dalu a SVOD, ac a fyddai eu cymhellion i fuddsoddi neu arloesi yn newid o ganlyniad.
- Yn olaf, rydym yn asesu a allai lansio'r sianel gael unrhyw effeithiau pellach ar y gystadleuaeth.

### 5.1 Newid i lefelau gwylio'r BBC o ganlyniad i lansio'r sianel

I amcangyfrif effaith lansio sianel BBC Three ar y farchnad, rydym yn modelu dwy senario: senario "ffeithiol" o faint sy'n gwylio gwahanol wasanaethau ar ôl lansio'r sianel, a senario "wrthffeithiol" o faint sy'n gwylio heb lansio'r sianel. Mae effaith lansio'r sianel ar bob gwasanaeth yn cael ei phennu gan y newid mewn lefelau gwylio yn y ddwy senario.

Mae'r bwriad i lansio'r sianel yn debygol o sbarduno newidiadau i lefelau gwylio'r BBC yn y senario "ffeithiol" o'i gymharu â'r senario "wrthffeithiol" drwy dair ffordd: sianel linol newydd BBC Three, BBC Three ar iPlayer a sianel linol CBBC. Rydym yn amcangyfrif ar wahân sut mae lansio'r sianel yn debygol o effeithio ar bob un o'r gwasanaethau hyn, ac yna'n cyfuno'r effeithiau unigol i greu newid net i lefelau gwylio portffolio'r BBC ar ôl lansio'r sianel.[80] Rydym yn ystyried mai tair blynedd yw'r cyfnod rhagolwg perthnasol yn y cyd-destun presennol ac ystyried pa mor gyflym mae pethau'n newid ym myd teledu, gan gynnwys newydd-ddyfodiaid i'r

[80] Mae'r fethodoleg a'r tybiaethau sy'n sail i'r model yn cael eu trafod yn fanwl yn Atodiad 1.

maes, ffyrdd newydd o ddarparu cynnwys, cyfuno'r diwydiant, technolegau newydd a newidiadau mewn arferion gwylio.

Cafodd dull ceidwadol ei fabwysiadu i fynd i'r afael ag ansicrwydd a symleiddio tybiaethau yn y model – gan oramcangyfrif faint sy'n defnyddio'r BBC (ac effaith ar y farchnad yn ei dro) yn hytrach na thanamcangyfrif. Felly, dylid dehongli amcangyfrifon gwylio'r BBC a gyflwynir yn yr adran hon fel y "senarios gwaethaf" ar gyfer gweddill y farchnad, ac mae'n debyg y bydd lefelau gwylio gwirioneddol y BBC yn 2022 yn is.

Mae'r rhagolwg o gyfran gwylio BBC Three, ar ôl lansio'r sianel, ar gyfer 2022 yn cael ei gyflwyno yn y ffigur isod. Mae ffigur 18 isod yn dangos y gallai'r sianel linol newydd gael cyfran gwylio byw o 0.7% ymysg yr holl gynulleidfaoedd, a 1.5% ymysg pobl 16-34 oed. Gan gynnwys PVR a'r holl wylio ar BVOD, amcangyfrifir bod ei gyfran yn 1.3% ymysg yr holl gynulleidfaoedd a 4.3% ar gyfer pobl 16-34 oed. Mae BBC Three eisoes yn bodoli fel sianel ar iPlayer, felly nid oes modd priodoli ei holl gyfran linol a BVOD gyda'i gilydd i lansiad y sianel. Yn y senario wrthffeithiol, rhagwelir y bydd gan BBC Three ar iPlayer gyfran gwylio yn 2022 o 0.7% ar gyfer pob cynulleidfa, a 2.9% ar gyfer pobl 16-34 oed. Mae hyn yn golygu bod lansio'r sianel yn arwain at gynnydd gynyddrannol yn y gyfran i BBC Three o 0.6 pwynt canran ymysg yr holl gynulleidfaoedd, ac 1.4 pwynt canran ymysg pobl 16-34 oed.[81]

**Ffigur 18: Rhagamcan o gyfran gwylio BBC Three yn 2022**

| | A4+ | | A16-34 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Senario ffeithiol** | **Senario wrthffeithiol** | **Senario ffeithiol** | **Senario wrthffeithiol** |
| Byw yn unig (heb gynnwys PVR) | 0.7% | 0% | 1.5% | 0% |
| Llinol a BVOD* | 1.3% | 0.7% | 4.3% | 2.9% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*

*Nodiadau: *cyfran o'r holl wylio llinol a fideo ar-alw sy'n cael ei ddarlledu yn y DU (hynny yw, nid yw'n cynnwys tanysgrifiadau fideo ar-alw). Mae hyn yn cynnwys holl wylio BBC Three ar iPlayer (sy'n wahanol i gyfrannau C7 BARB gan ei fod yn cynnwys yr holl gynnwys iPlayer ni waeth beth yw ei ddyddiad darlledu, a welir drwy unrhyw ddyfais).*

Mae hyn yn rhoi cyfran BBC Three 2022 ymysg yr holl gynulleidfaoedd (yn fyw yn unig, a llinol a BVOD) yn is nag ITV2 ac E4 heddiw. Ymysg pobl 16-34 oed, mae cyfran BBC Three yn is na chyfran ITV2 (yn fyw yn unig, a llinol a BVOD), ond yn

[81] Drwyddo draw, nid yw ffigurau BBC Three yn cynnwys lefelau gwylio cynnwys BBC Three sy'n cael ei ddangos ar sianeli eraill y BBC.

uwch na chyfran linol a BVOD gyda'i gilydd ar gyfer E4 (oherwydd maint iPlayer o'i gymharu ag All4).[82] Dangosir y gymhariaeth hon yn y ffigur isod.

**Ffigur 19: Cymharu rhagolwg cyfran BBC Three â sianeli sy'n denu pobl ifanc**


| | A4+ | | A16-34 | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfran, pob awr** | **Llinol a BVOD** | **Byw yn unig (heb gynnwys PVR)** | **Llinol a BVOD** | **Byw yn unig (heb gynnwys PVR)** |
| BBC Three, 2022 | 1.3% | 0.7% | 4.3% | 1.5% |
| ITV2, 2020 | 1.5% | 1.5% | 4.6% | 4.9% |
| E4, 2020 | 1.5% | 1.3% | 3.9% | 3.9% |


*Ffynhonnell: Amcangyfrifon y BBC a ffigurau gwylio cyfunol dros 7 diwrnod BARB yn 2020*
*Nodiadau: Rhagolygon yw cyfrannau BBC Three, gan gynnwys holl lefelau gwylio BBC Three yn fyw ac ar iPlayer ar bob dyfais. Mae cyfrannau cystadleuwyr yn ffigurau gwirioneddol yn ôl BARB, ac eithrio lefelau gwylio ar ddyfeisiau nad ydynt yn deledu a lefelau gwylio dal i fyny yn hwyrach na 7 diwrnod ar ôl darlledu.*

Fel sy'n cael ei ddangos yn y ffigur isod, byddai cyfran y lefelau gwylio llinol a BVOD gyda'i gilydd rydym yn ei hamcangyfrif ar gyfer BBC Three yn ei roi yn yr 11eg safle ar gyfer pob cynulleidfa, a'r 5ed safle ar gyfer pobl 16-34 oed. Er nad yw'n cael ei gyflwyno isod, o ran lefelau gwylio byw yn unig, byddai BBC Three yn cael ei roi y tu allan i'r 20 prif sianel ar gyfer pob cynulleidfa, a'r 12fed safle ar gyfer pobl 16-34 oed.

[82] Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae hyn yn golygu bod cyfran linol yn unig BBC Three yn is nag ITV2 ac E4 ymysg pobl 16-34 oed.

**Ffigur 20: Cyfrannau gwylio llinol a fideo ar-alw sy'n cael ei ddarlledu**




*Ffynhonnell: Amcangyfrifon y BBC a ffigurau gwylio cyfunol dros 7 diwrnod BARB yn 2020.*
*Nodiadau: Dim ond yr 20 prif sianel yn ôl cyfran gwylio yn 2020 sy'n cael eu dangos, gyda rhagolwg ar gyfer BBC Three yn 2022. Er mai rhagolygon ar gyfer 2022 yw amcangyfrifon BBC Three a'u bod yn cynnwys holl lefelau gwylio BBC Three yn fyw ac ar iPlayer ar bob dyfais, mae hyn yn cael ei gymharu â chyfrannau gwirioneddol yn ôl data BARB yn 2020. Nid yw cyfrannau yn ôl BARB yn cynnwys lefelau gwylio ar ddyfeisiau nad ydynt yn deledu a lefelau gwylio dal i fyny yn hwyrach na 7 diwrnod ar ôl darlledu, felly nid yw'r gymhariaeth â chyfran BBC Three yn debyg am debyg.*

Mae lansio'r sianel yn ysgogi newid yng nghyfran gwylio portffolio'r BBC yn 2022 fel a ganlyn:[83] ymysg pob cynulleidfa, mae'r BBC yn cael cynnydd o 0.4 pwynt canran yn y gyfran gwylio ar draws ei bortffolio llawn, ac ymysg pobl 16-34 oed mae'r BBC yn cynyddu ei gyfran gwylio portffolio 0.8 pwynt canran. Caiff hyn ei gyflwyno yn y ffigur isod.

[83] Roedd hyn yn cynnwys y cyfuniad o ennill gwylwyr llinol ac iPlayer ar BBC Three a cholli gwylwyr byw CBBC rhwng 7pm a 9pm.

**Ffigur 21: Newid yng nghyfran gwylio portffolio'r BBC yn 2022**

| | A4+ | A16-34 |
|---|---|---|
| Portffolio'r BBC yn y senario wrthffeithiol | 31.1% | 29.6% |
| Portffolio'r BBC yn y senario ffeithiol | 31.5% | 30.4% |
| Newid ym mhortffolio'r BBC o ganlyniad i lansio'r sianel | 0.4 pwynt canran | 0.8 pwynt canran |


*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*
*Nodiadau: Cyfrannau gwylio llinol a fideo ar-alw sy'n cael ei ddarlledu yn y DU (hynny yw, nid yw'n cynnwys tanysgrifiadau i fideo ar alw.)*


Gan fod ein model yn dibynnu ar nifer o dybiaethau sy'n ansicr a/neu'n oddrychol oherwydd diffyg data pendant, mae'n bwysig profi a yw canlyniadau'r model yn newid yn sylweddol mewn ymateb i newidiadau yn y rhagdybiaethau am fewnbwn. Mae dadansoddiad sensitifrwydd o'r tybiaethau mwy ansicr (ee, tybiaeth comisiynu iPlayer yn gyntaf, ac ati) yn y model yn awgrymu nad yw ei ganlyniadau'n sensitif iawn i'r tybiaethau hynny. Yn wir, nid yw'r un o'r addasiadau sensitifrwydd yn arwain at newid yng nghyfran y BBC o fwy na 0.1 pwynt canran. I gael rhagor o fanylion, gweler Atodiad 1.

Yn olaf, rydym yn defnyddio'r achos sylfaenol i fodelu'r effaith y caiff cynnydd yng nghyfran y BBC ar ddarlledwyr eraill. Mae'r ffordd y bydd lansio'r sianel yn effeithio ar lefelau gwylio darlledwyr eraill yn cael ei thrafod yn fwy manwl yn yr is-adrannau isod. Ymysg yr holl gynulleidfaoedd, rhagwelir y bydd portffolio ITV a Channel 4 yn colli 0.2 a 0.1 pwynt canran o wylwyr o'i gymharu â'r senario wrthffeithiol, a bydd yr effaith ar Channel 5 a Sky yn llai. Rhagwelir y bydd pob darlledwr arall yn colli 0.1 pwynt canran o wylwyr. Ymysg pobl 16-34 oed, rhagwelir y bydd portffolio ITV a Channel 4 yn colli 0.3 ac 0.2 pwynt canran o wylwyr o'i gymharu â'r sefyllfa wrthffeithiol, ac y bydd Channel 5, Sky a'r darlledwyr eraill yn gyffredinol yn colli 0.1 pwynt canran yr un o'r gyfran.[84]

[84] Wrth gyfeirio at Sky yn y ddogfen, nid yw hyn yn cynnwys NOW. Mae hyn yn cael ei drafod gyda gwasanaethau SVOD eraill yn adran 5.4.2.

**Ffigur 22: Cyfrannau gwylio llinol a VOD portffolio a ddarlledir, 2022**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*
*Nodiadau: Cyfrannau gwylio llinol a fideo ar-alw sy'n cael ei ddarlledu yn y DU (hynny yw, nid yw'n cynnwys tanysgrifiadau i fideo ar alw.)*

## 5.2 Nodi gwasanaethau y bydd y cynnig yn effeithio arnyn nhw

Ar sail y disgrifiad o'r cynnig cychwynnol a roddwyd yn Adran 3, rydym yn nodi'r sectorau a'r gwasanaethau y mae'r cynnig fwyaf tebygol o effeithio arnyn nhw. Fel y trafodwyd gan Ofcom, gall cynigion y BBC gael effaith drwy dorri ar draws gweithgarwch masnachol ac effeithio ar gystadleuaeth yn y gadwyn gyflenwi.[85] Felly, rydym yn ystyried effaith bosibl y cynnig ar draws (effaith ar gystadleuwyr ar

[85] *Assessing the impact of proposed changes to the BBC's public service activities: Ofcom's procedures and guidance*, Ofcom, 29 Mawrth 2017.

yr un lefel yn y gadwyn gyflenwi ar y teledu) a'r effaith bosibl ehangach (effaith ar bartïon ar wahanol lefelau yn y gadwyn gyflenwi, neu mewn sectorau eraill).

### 5.2.1 Effeithiau ar draws

Mae'n rhaid i ddarlledwyr gystadlu'n galed am sylw defnyddwyr sydd â dewis enfawr o ran beth i dreulio'u hamser arno, gan amrywio o, er enghraifft, gwasanaethau llinol ar y teledu i VOD i gemau i gyfryngau cymdeithasol i wasanaethau ffrydio sain. Yn yr ystyr hwn, gellid ystyried bod BBC Three yn cystadlu mewn "farchnad denu sylw" lle mae gwahanol wasanaethau a llwyfannau byd-eang a lleol yn cystadlu am amser y defnyddiwr gyda chyfuniad o gynnwys a hysbysebu.

Serch hynny, er mwyn symleiddio'r dadansoddiad, rydym yn cyfyngu'r set cystadleuwyr i gyd-fynd â'r cynsail o asesiadau blaenorol o'r effaith ar y farchnad pan oedd bwriad lansio sianeli teledu, gan ganolbwyntio ar wasanaethau teledu llinol a gwasanaethau fideo ar-alw yn unig.[86] Wrth gyfyngu ar y ffordd rydym yn edrych ar hyn, mae'n ysgogi'r rhagdybiaeth geidwadol mai dim ond gan wasanaethau llinol a gwasanaethau fideo ar-alw eraill y byddai'r BBC yn ennill oriau gwylio cynyddrannol ar BBC Three. Mae hyn yn gorbwysleisio'r effaith ddamcaniaethol ar y gwasanaethau masnachol hyn, oherwydd mewn gwirionedd gallai rhywfaint o'r amser gwylio mae'r BBC yn ei ennill ddod o ffynonellau eraill heblaw'r teledu – cyfryngau cymdeithasol, gemau, llwyfannau rhannu fideos fel YouTube a TikTok, neu weithgareddau eraill yn gyfan gwbl.

Rydym yn asesu effaith debygol lansio'r sianel ar y mathau canlynol o wasanaethau y gall gwylwyr eu defnyddio i gael gafael ar gynnwys teledu:

- **Gwasanaethau sianeli llinol a gwasanaethau ar-alw darlledwyr –** sianeli darlledu teledu am ddim (FTA) a theledu drwy dalu a gwasanaethau ar-alw sydd fel arfer yn ennill refeniw wrth gyflenwi "effeithiau" hysbysebu i hysbysebwyr.

- **Gwasanaethau pecynnau teledu drwy dalu –** sy'n darparu mynediad at fwndel mwy o sianeli a gwasanaethau fideo ar-alw drwy becyn tanysgrifio. Yn cael ei gyflenwi'n bennaf yn y DU gan Sky drwy loeren a Virgin Media drwy deledu cebl.

- **Gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifiadau –** sy'n dosbarthu cynnwys clyweledol dros IP ac sy'n cael eu hariannu drwy danysgrifiadau defnyddwyr.

Caiff hyn ei drafod yn Adrannau 5.3 a 5.4 isod.

---

[86] *BBC Scotland Competition Assessment, Final Determination Annex 3: Assessment of Market Impacts*, Ofcom, 26 Mehefin 2018.

### 5.2.2 Effeithiau ehangach

Mewn asesiadau blaenorol o effaith ar y farchnad pan oedd bwriad lansio sianel deledu, mae'r BBC wedi ystyried nifer o effeithiau ychwanegol:[87]

- Cystadleuaeth bellach i lawr yng nghadwyn gyflenwi'r darlledwyr rhwng **llwyfannau teledu** (ee.,Freesat, Freeview, Sky a Virgin Media), lle byddai'r sianel newydd yn fewnbwn i'r llwyfannau hyn;

- Cystadleuaeth i fyny cadwyn gyflenwi'r darlledwyr ar gyfer **cynhyrchu cynnwys**;

- **effeithiau cronnus** ar gystadleuaeth (ee, a fyddai cysylltiadau rhwng y sianel newydd a gwasanaethau eraill y BBC yn gallu arwain at ddefnyddio mwy ar y gwasanaethau eraill hyn ac, yn ei dro, effeithio ar sectorau neu gwmnïau eraill sy'n gweithredu mewn nifer o sectorau);

- effeithiau posibl ar **sectorau eraill** (ee, a fyddai lansio'r sianel yn effeithio ar sectorau heblaw gwasanaethau teledu).

Ond, gan fod y gyllideb ar gyfer cynnwys BBC Three yr un fath ag y byddai heb lansio'r sianel newydd, nid yw lansio'r sianel yn newid lefel cynhyrchu cynnwys. Mae'r un peth yn wir am gyllideb yr adran Plant. Ni fyddai lansio'r sianel yn effeithio ar hyn. Yn yr un modd, gan fod cynnwys BBC Three eisoes ar gael drwy iPlayer, nid yw'r sianel yn arwain at unrhyw effeithiau canlyniadol ar wasanaethau eraill y BBC (ar wahân i iPlayer, sy'n cael ei ystyried fel rhan o'n heffaith ar y gystadleuaeth ar draws) nac ar gwmnïau sy'n gweithredu ar draws sectorau. Yn olaf, wrth ystyried ein canfyddiadau nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith niweidiol ar wasanaethau teledu llinol a fideo ar-alw sy'n cystadlu â'i gilydd, byddai unrhyw effaith ar sectorau eraill yn rhy fach i gael effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Felly, rydym ond yn ystyried ymhellach a allai'r cynigion effeithio ar gystadleuaeth bellach i lawr yn y gadwyn gyflenwi rhwng **llwyfannau teledu**. Caiff y rhain eu trafod yn Adran 5.5 isod.

## 5.3 Effaith ar ddarlledwyr

Roeddem wedi ystyried a fyddai'r cynigion yn debygol o gael unrhyw effeithiau statig a/neu ddeinamig ar ddarlledwyr teledu drwy dalu a theledu am ddim. Wrth wneud hynny, roeddem wedi ystyried lefelau gwylio teledu llinol a fideo ar-alw gyda'i gilydd ar gyfer pob darlledwr.[88] Mae darlledwyr fel ITV, Channel 4 a Sky yn

[87] *Proposals for the launch of a new BBC Scotland TV channel: BBC Submission to Ofcom*, BBC, Tachwedd 2017.

[88] Byddai ceisio mesur yr effaith ar wasanaethau llinol a VOD ar wahân yn galw am lawer mwy o dybiaethau goddrychol, gan gynnwys cyfran y refeniw hysbysebu presennol sy'n deillio o VOD a dyfalu ynghylch gwerth ac effaith colli gwasanaethau llinol o'i gymharu â chynulleidfaoedd BVOD.


cynnig gwasanaethau llinol a fideo, a byddan nhw'n ystyried a ddylid buddsoddi ac arloesi drwy edrych ar eu refeniw hysbysebu digidol a llinol gyda'i gilydd.

Yn gyntaf, rydym yn nodi'r effaith statig ar ddarlledwyr masnachol o ganlyniad i lansio'r sianel, yn gyntaf drwy asesiad meintiol ac wedyn drwy asesiad ansoddol.

Yn ail, rydym yn ystyried yr effaith ddeinamig ar y darlledwyr masnachol hyn, hynny yw, a allai lansio'r sianel dorri ar draws gweithgarwch masnachol (fel buddsoddiad neu arloesi) darlledwyr sy'n cystadlu am y farchnad.

Drwy gydol y broses, rydym yn ystyried y darlledwyr hynny sy'n darparu sianeli mewn safle tebyg i BBC Three. Mae'r siart isod yn plotio'r sianeli teledu mwyaf poblogaidd ymysg pob cynulleidfa yn ôl oed cyfartalog a dosbarth cymdeithasol.[89] Mae'n awgrymu bod BBC Three, ar sail y mesurau hyn, yn yr un safle ag ITV2 ac E4, ac i raddau ychydig yn llai, Sky One.

**Ffigur 23: Y sianeli darlledu mwyaf wedi'u mapio yn ôl dosbarth cymdeithasol ac oedran, 2020**




*Ffynhonnell: Ffigurau cyfunol 7 diwrnod BARB, pob unigolyn 4 oed a hŷn, 7pm i 4am; cyfartaledd oedran wedi'i gynhyrchu gan TechEdge.*
*Nodiadau: wedi tynnu CBeebies*

Felly, rydym yn ystyried yn fanwl beth yw effaith lansio'r sianel ar:

- ITV;
- Channel 4; a
- Sky.

[89] Mae BBC Three, fel y mae'n cael ei ddangos yn y ffigur hwn, yn seiliedig ar gynulleidfa'r hen sianel BBC Three, gan nad yw'r data gofynnol ar gael ar gyfer BBC Three ar iPlayer.

Ar sail y dystiolaeth a nodir isod, rydym yn dod i'r casgliad y byddai cynnig BBC Three yn annhebygol o gael effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol gyda darlledwyr.

## 5.3.1 Effaith statig ar ddarlledwyr

### *5.3.1.1 Asesiad meintiol o'r effaith ar refeniw a lefelau gwylio portffolios*

Er mwyn cael darlun o effaith y cynnig ar y farchnad, fe wnaethom fodelu'r newid i lefelau gwylio cystadleuwyr o ganlyniad i lansio'r sianel. Ar ôl cyfrifo'r cynnydd net yn y lefelau gwylio i bortffolio'r BBC ar ôl lansio'r sianel (gweler adran 5.1 uchod) aethom ati i geisio penderfynu pa wasanaethau fyddai'n colli gwylwyr o ganlyniad i'r cynnig ac o faint y byddai eu gwylwyr yn symud i'r BBC.

Fel sy'n cael ei ddisgrifio'n fanylach yn Atodiad 1, fel ein ffynhonnell i ddangos faint fyddai'n newid, fe wnaethom ddefnyddio'r ymchwil defnyddwyr a gynhaliwyd fel rhan o Brawf Budd y Cyhoedd BBC Three. Nododd ymatebwyr yr arolwg faint o oriau roeddent yn debygol o'u gwylio ar sianel linol BBC Three mewn wythnos benodol, ac yna gofynnwyd iddyn nhw faint o amser y bydden nhw'n ei gymryd oddi wrth bob un o'r sianeli/gwasanaethau roedden nhw'n eu defnyddio mewn wythnos arferol o ganlyniad. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn y ffigur isod.

**Ffigur 24: Ffynhonnell wylio sy'n cael ei cholli i sianel newydd BBC Three**

| | A4+ | | A16-34 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ddim yn cynnwys ffynonellau heblaw teledu** | **Yn cynnwys ffynonellau heblaw teledu** | **Ddim yn cynnwys ffynonellau heblaw teledu** | **Yn cynnwys ffynonellau heblaw teledu** |
| BBC | 32% | 27% | 30% | 24% |
| ITV | 22% | 19% | 19% | 16% |
| Channel 4 | 11% | 10% | 11% | 9% |
| Channel 5 | 7% | 6% | 5% | 4% |
| Sky | 6% | 5% | 5% | 4% |
| Llinol arall a BVOD | 5% | 4% | 6% | 5% |
| SVOD | 17% | 15% | 25% | 20% |
| Heblaw teledu* | | 15% | | 18% |
| **Cyfanswm** | **100%** | **100%** | **100%** | **100%** |

*Ffynhonnell: MTM. Lleoliad: Pawb sy'n debygol o wylio'r sianel newydd bob wythnos.*

*Nodiadau: *mae ffynonellau heblaw teledu yn cynnwys llwyfannau rhannu fideos fel YouTube a TikTok, a gweithgareddau eraill yn gyfan gwbl.*

Mae'r ymchwil yn awgrymu mai ar lefelau gwylio sianeli a gwasanaethau'r BBC ar hyn o bryd y bydd y sianel yn effeithio fwyaf, gyda 30% o'r oriau a enillir i BBC Three yn dod o rannau eraill o bortffolio'r BBC (ee, BBC One, BBC Two, iPlayer ac ati). Ar ôl hynny, bydd ~20% o'r oriau'n dod ar draul portffolio ITV, ~10% o bortffolio Channel 4, a ~5% yr un o bortffolio Channel 5, Sky a swm cyffredinol ar gyfer portffolios darlledwyr eraill. Ar ben hynny, mae'r ffigurau hyn hyd yn oed yn is os yw'r oriau a geir o ffynonellau nad ydynt yn rhai teledu, fel YouTube, yn cael eu cynnwys.

Mae'r canlyniadau hyn yn cael eu defnyddio i gyfrifo'r newid yn lefelau gwylio'r darlledwyr yn sgil lansio'r sianel. Mae'r newid hwn mewn lefelau gwylio yn cael ei drosi'n amcangyfrif o'r newid mewn refeniw. Mae'r effaith ar refeniw yn deillio o niferoedd gwylio is sydd, yn ei dro, yn lleihau'r effeithiau hysbysebu sydd ar gael ar gyfer gwerthu, ac felly refeniw hysbysebu. Mae'r effaith ar refeniw hefyd yn cyfrif am (i) cynnydd ym mhris effeithiau hysbysebu sy'n deillio o ostyngiad yn y cyflenwad o effeithiau a (ii) y ffaith y gallai colli gwylwyr 16-34 oed gwerthfawr i chwaraewyr masnachol gael effaith ariannol fwy sylweddol na'r hyn a awgrymir gan y ffigurau cyffredinol ar gyfer yr effaith ar eu lefelau gwylio.[90] Mae'r canlyniadau i'w gweld yn y ffigurau isod.

**Ffigur 25: Effaith refeniw ar ddarlledwyr mewn maint absoliwt**

| **Darlledwr** | **Newid mewn lefelau gwylio** | **Refeniw hysbysebu teledu llinol a BVOD gwrthffeithiol 2022 [£m]** | **Effaith refeniw [£m], yn seiliedig ar elastigedd prisiau sydd wedi'i wrthbwyso:** | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **67%** | **50%** | **33%** |
| ITV | -0.6% | 1,800 | -5.5 | -8.4 | -11.3 |
| Channel 4 | -0.7% | 974 | -3.3 | -5.0 | -6.7 |
| Darlledwyr masnachol eraill | -0.3% | 1,693 | -2.4 | -3.7 | -4.9 |
| **Cyfanswm** | | **4,467** | **-11.3** | **-17.1** | **-22.9** |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC, adroddiadau blynyddol ITV, adroddiadau blynyddol Channel 4, rhagolygon refeniw hysbyseb teledu Group M.*
*Nodiadau: Mae gwrthbwyso ar symiau o 67%, 50% a 33% yn adlewyrchu'r dybiaeth y byddai cynnydd ym mhris hysbysebu yn gwrthbwyso canran benodol o'r gostyngiad yn yr effeithiau hysbysebu a werthwyd. Mae'r ffigurau'n nominal.*

[90] Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 1. Rhoddwyd sylw i'r effaith elastigedd prisiau drwy ymgorffori tybiaethau "gwrthbwyso" o 67%, 50% a 33%. Mae hyn yn gyson â *Proposed changes to BBC Three, BBC iPlayer, BBC One and CBBC: Market Impact Assessment*, Ofcom, 30 Mehefin 2015, tudalen 37.

**Ffigur 26: Effaith refeniw ar ddarlledwyr fel cyfran o gyfanswm refeniw yn y senario wrthffeithiol**

| Darlledwr | Newid mewn lefelau gwylio | Refeniw hysbysebu teledu llinol a BVOD gwrthffeithiol 2022 [£m] | Effaith refeniw [%], yn seiliedig ar elastigedd prisiau sydd wedi'i wrthbwyso: | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 67% | 50% | 33% |
| ITV | -0.6% | 1,800 | -0.3% | -0.5% | -0.6% |
| Channel 4 | -0.7% | 974 | -0.3% | -0.5% | -0.7% |
| Darlledwyr masnachol eraill | -0.3% | 1,693 | -0.1% | -0.2% | -0.3% |
| **Cyfanswm** | | **4,467** | **-0.3%** | **-0.4%** | **-0.5%** |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC, adroddiadau blynyddol ITV, adroddiadau blynyddol Channel 4, rhagolygon refeniw hysbyseb teledu Group M.*
*Nodiadau: Mae gwrthbwyso ar symiau o 67%, 50% a 33% yn adlewyrchu'r dybiaeth y byddai cynnydd ym mhris hysbysebu yn gwrthbwyso canran benodol o'r gostyngiad yn yr effeithiau hysbysebu a werthwyd. Mae'r ffigurau'n nominal.*

Rydym yn amcangyfrif y gallai lansio sianel linol BBC Three olygu gostyngiad o rhwng £11 miliwn a £23 miliwn y flwyddyn yng nghyfanswm refeniw hysbysebu masnachol (gan gynnwys digidol). Mae hyn yn fach yng nghyd-destun refeniw hysbysebu ar deledu cenedlaethol o dros £4 biliwn y flwyddyn. Ar ITV a Channel 4 y mae'r effaith fwyaf, a gallai pob un ohonynt golli 0.6% a 0.7% o'u refeniw hysbysebu fan bellaf (~£11 miliwn a £7 miliwn, yn y drefn honno). Mae'r golled refeniw sy'n weddill o £5 miliwn fan bellaf yn cael ei rhannu rhwng pob darlledwr masnachol arall.

Mae'n werth pwysleisio unwaith eto bod cryn ansicrwydd ynghylch defnydd ac effaith debygol y sianel newydd, ac mae'r tybiaethau a fabwysiadwyd yn ein model yn geidwadol. Felly, mae'r newid a ragwelir i lefelau gwylio a refeniw sianeli eraill a gyflwynir yn yr adran hon yn annhebygol o ddigwydd, ac felly dylid eu dehongli fel yr effeithiau "gwaethaf posibl" i ddarlledwyr eraill, yn arbennig terfyn uchaf yr ystod rydym yn eu rhagweld. Ar ben hynny, mae natur y dadansoddiad hwn yn statig, ac felly nid ydym yn modelu ymatebion darlledwyr a allai liniaru effaith y sianel (a drafodir yn yr adrannau isod).

Yn olaf, rydym yn nodi bod yr effeithiau refeniw uchod eisoes yn ystyried y refeniw posibl a gollir i ddarlledwyr drwy symud EPG llwyfannau amrywiol i lawr, o ganlyniad i lansio sianel BBC Three. Y rheswm am hyn yw bod ein model yn amcangyfrif cyfanswm y gwylwyr a enillir gan BBC Three, yn amodol ar ei safle ar yr EPG. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm y gwylwyr y bydd sianeli eraill yn ei golli ar sail safle BBC Three ar yr EPG (tybir nad yw'r cyfanswm sy'n gwylio teledu yn newid wrth lansio'r sianel). Mewn geiriau eraill, byddai mynd ati ar wahân i amcangyfrif y gwylwyr (ac felly refeniw hysbysebu) a gollir i sianeli sy'n symud i lawr yr EPG a thybio bod hyn yn cael ei gipio gan BBC Three yn gyfystyr â chyfrif ddwywaith, gan

fod ein model yn amcangyfrif yr holl lefelau gwylio y gallai sianel BBC Three ei chyrraedd ar sail ei safle ar yr EPG.

Ond, rydym yn cydnabod nad yw ein ffigurau ar gyfer y rheini sy'n troi oddi wrth, sy'n deillio o ganlyniadau'r arolwg, yn ystyried sut gallai safle sianeli cystadleuol ar yr EPG ddylanwadu ar ddosbarthiad y munudau gwylio, ar draws y sianeli, sy'n troi at BBC Three. Mae'n bosibl y bydd sianeli sydd uwch ben BBC Three yn gwneud ychydig yn well na'r hyn rydym wedi'i ragweld, a'r sianeli sydd o dan ychydig yn waeth.

Er hynny, nid ydym yn credu bod hyn yn debygol o ddylanwadu'n sylweddol ar y canlyniadau oherwydd: (i) bydd gan nifer o ddarlledwyr (yn enwedig y rhai mwy) sianeli uwchben ac o dan BBC Three, sy'n golygu bod yr effaith net arnynt yn fach; (ii) efallai na fydd angen i sianeli symud i lawr yr EPG ar lwyfannau penodol (oherwydd bydd BBC Three yn cymryd lle amrywiad sianel BBC SD presennol); a (iii) er eu bod o dan BBC Three ac mewn theori wedi symud i lawr un slot, mae'r effaith ymarferol yn debygol o fod yn fach iawn ar gyfer nifer o sianeli. Er enghraifft, mae'n bur annhebygol y bydd effaith fawr ar sianeli chwaraeon, ffilmiau neu sianeli rhyngwladol, gan fod y genres hyn (neu'r sianeli sydd ynddynt) yn gyrchfannau ynddynt eu hunain, lle mae pobl yn debygol o lywio iddynt yn uniongyrchol, yn hytrach na gweithio drwy'r EPG. Yn yr un modd, nid yw cyflwyno sianel newydd sydd wedi'i hanelu at gynulleidfaoedd iau yn debygol o effeithio ar sianeli sydd â chynulleidfaoedd targed gwahanol iawn – fel *Yesterday* neu ITV3 (gweler Ffigur 23 uchod).

### 5.3.1.2 Asesiad ansoddol o ba mor agos yw'r gystadleuaeth rhwng sianeli

Mae'r asesiad meintiol uchod yn rhoi golwg ar effaith bosibl BBC Three ar bortffolios darlledwyr yn gyffredinol. Rydym hefyd yn asesu effaith bosibl BBC Three ar sianeli llinol penodol sydd mewn sefyllfa debyg i BBC Three o ran y mesurau a ddangosir yn Ffigur 23 uchod. Rydym yn edrych ar ba mor agos yw'r gystadleuaeth rhyngddynt, oherwydd mae effaith BBC Three yn debygol o gael ei theimlo'n fwy gan sianeli sy'n cystadlu'n agos â'i gilydd, y gallai cynulleidfaoedd ystyried bod modd newid un sianel am un arall.

Rydym yn gwerthuso pa mor agos yw'r gystadleuaeth rhwng BBC Three ac ITV2, E4, a Sky One yn unigol. Gan fod y ffactorau a drafodir yma eisoes yn cael eu trafod yn Adran 4.3, mae'r rhain yn cael eu cyflwyno ar ffurf tabl er mwyn bod yn gryno.

**Ffigur 27: Cymharu cynigion sianeli sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc**

| | BBC Three | ITV2 | E4 | Sky One |
|---|---|---|---|---|
| **Oriau darlledu** | 7pm – 4am | Pob awr | Pob awr | Pob awr |
| **Cynulleidfa darged** | Pobl 16-34 oed gan ganolbwyntio'n benodol ar grwpiau C2DE, BAME ac anfetropolitan | 16-34 oed | 16-34 oed | Prif ffrwd, cynulleidfa darged eang. Mae'n disgrifio'i hun fel "i'r teulu cyfan" |
| **Genres/naws rhaglenni** | Canolbwyntio ar adloniant ysgafn a chynnwys ffeithiol sy'n procio'r meddwl | Adloniant bron yn gyfan gwbl, adloniant ffeithiol, comedi a ffilm, heb unrhyw gynnwys ffeithiol na dogfennol | Adloniant, comedi, realiti, a ffilm. Naws ysgafn, yn cael ei harwain gan adloniant, a dim cynnwys ffeithiol neu ddogfennol dwys | Adloniant ysgafn ei naws, gan gynnwys cyfuniad o adloniant ffeithiol, realiti, comedi a rhaglenni drama |
| **Strategaeth gomisiynu** | Elfen graidd y cynnig fydd rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain, sy'n canolbwyntio ar adlewyrchu bywydau a diddordebau amrywiol grwpiau ifanc yn y DU | Cyfran fawr o raglenni adloniant a realiti wedi'u prynu o'r UDA. Y cynnwys yn tueddu i fod yn eang ac yn fyd-eang o ran ffocws a naws | Y naws yn eang ac yn fyd-eang, ac felly mae cyfran fawr o'r cynnwys yn rhaglenni comedi a drama wedi'u prynu o'r Unol Daleithiau | Llawer o raglenni wedi'u prynu o'r Unol Daleithiau - rhaglenni wedi'u sgriptio (comedi a drama) a rhaglenni heb eu sgriptio (realiti ac adloniant ffeithiol) |
| **Barn y gynulleidfa** | Mae 50% o bobl 16-34 oed yn cytuno y byddai sianel newydd BBC Three yn unigryw ac nad oes sianel deledu arall fel hon. | | | |

Mae'r uchod yn awgrymu, er bod BBC Three yn agos i'r sianeli hyn o ran oedran cynulleidfa cyfartalog a dosbarth cymdeithasol, mae gwahaniaethau sylweddol rhyngddynt. Nid yw BBC Three yn cystadlu â nhw am gynulleidfaoedd dros gyfran sylweddol o'r diwrnod. Yn yr oriau sy'n gorgyffwrdd, mae gan BBC Three raglenni sy'n wahanol iawn. Yn wir, mae cynulleidfaoedd ifanc eu hunain yn credu bod arlwy BBC Three yn unigryw.

Er ei bod yn amlwg y bydd BBC Three a'r sianeli hyn yn cystadlu am rywfaint o amser gwylio'r cynulleidfaoedd, mae'r uchod yn awgrymu efallai na fydd cyfran sylweddol o'u cynulleidfaoedd yn gorgyffwrdd â rhai BBC Three oherwydd natur unigryw'r hyn maen nhw'n ei gynnig. Felly, mae ITV2, E4 a Sky One yn annhebygol o golli nifer sylweddol o'u cynulleidfaoedd i BBC Three.

Ond, yn yr adrannau dilynol, rydym yn ystyried a fydd yr effeithiau statig cyfyngedig rydym yn eu rhagweld yn cael effaith niweidiol ar gymhelliant cystadleuwyr i fuddsoddi mewn rhaglenni neu arloesi yn y tymor hwy.

### 5.3.2 Effeithiau deinamig ar ITV

Yn yr adran hon, rydym yn ystyried a yw lansio sianel BBC Three yn debygol o dorri ar draws gweithgarwch masnachol ITV.

#### *5.3.2.1 Y gwasanaethau a ddarperir gan ITV*

Mae ITV yn ddarlledwr cynhyrchu integredig sy'n gweithredu mewn dau brif faes:[91]

- Darlledu ac ar-lein. Mae gan ITV deulu o sianeli ac mae ei raglenni'n cael eu darparu ar draws teledu llinol ac ar-lein (drwy ITV Hub). Mae ITV hefyd yn darparu gwasanaethau SVOD drwy ITV Hub+, BritBox UK a BritBox International.
- Cynhyrchu a dosbarthu. ITV Studios yw'r cynhyrchydd masnachol mwyaf yn y DU, ac mae'n cynhyrchu rhaglenni ar gyfer sianeli ITV, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill (gan gynnwys y BBC) a llwyfannau ar-alw. Mae'n gweithredu'n rhyngwladol, gan gynhyrchu cynnwys ar gyfer rhwydweithiau mawr, sianeli cebl, darlledwyr lleol a llwyfannau ar-alw. Mae ei fusnes dosbarthu yn canolbwyntio ar werthu a defnyddio ac elwa o raglenni a fformatau heb eu sgriptio ledled y byd.

Yn y ffigur isod, gwelir sut mae refeniw ITV wedi'i ddosbarthu yn 2020. Mae'n werth nodi bod: (i) dros hanner ei refeniw yn dod o ffynonellau nad ydynt yn hysbysebu a (ii) mae ganddo nifer o ffyrdd eraill o gael gwerth ariannol o'i gynnwys, gan gynnwys gwerthu dramor. Felly, nid yw'n glir os yw hyn a hyn o golled yn refeniw hysbysebu'r DU yn debygol o gael effaith ar ei gymhellion cyffredinol i fuddsoddi.

**Ffigur 28: Ffynonellau refeniw ITV, 2020**

| | Refeniw (£m) | Cyfran y refeniw (%) |
|---|---|---|
| ITV Studios DU | 535 | 16% |
| ITV Studios UDA | 234 | 7% |
| ITV Studios International | 343 | 11% |
| Fformatau a Dosbarthu Byd-eang | 258 | 8% |
| Refeniw Hysbysebu | 1,577 | 48% |
| Yn uniongyrchol i'r defnyddiwr | 87 | 3% |
| SDN | 73 | 2% |
| Arall | 153 | 5% |
| **Cyfanswm** | **3,260** | **100%** |

*Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol ITV 2020*


[91] What we do, ITV [cyrchwyd Mehefin 2021].

### 5.3.2.2 Perthynas rhwng refeniw a'r cymhelliant i fuddsoddi

Rydym wedi amcangyfrif y gallai lansio sianel linol BBC Three arwain at rhwng 0.3% a 0.6% yn llai o refeniw i ITV. Mae'n werth rhoi'r colledion hyn yng nghyd-destun cyfanswm yr amrywiadau refeniw o un flwyddyn i'r llall ar gyfer ITV. Mae'r ffigur isod yn dangos y newidiadau o un flwyddyn i'r llall yn refeniw hysbysebu ITV, yn ôl ei adroddiadau blynyddol. Mae'n dangos bod colledion o ~0.5% o refeniw hysbysebu o fewn ystod yr amrywioldeb refeniw blynyddol (hyd yn oed cyn pandemig Covid-19 yn 2020).

Mae'n werth nodi hefyd er bod pandemig Covid-19 wedi effeithio ar refeniw ITV yn 2020, mae ITV yn gweld tueddiadau refeniw mwy cadarnhaol erbyn hyn. Roedd y refeniw hysbysebu yn Ch4 2020 wedi codi 3% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2019, ac mae ITV yn disgwyl i refeniw o un flwyddyn i'r llall godi rhwng 5% a 7% am y pedwar mis hyd at ddiwedd mis Ebrill 2021.[92]

**Ffigur 29: Newidiadau o un flwyddyn i'r llall mewn refeniw hysbysebu, ITV**




*Ffynhonnell: Adroddiadau Blynyddol ITV*
*Nodiadau: Mae pob blwyddyn yn cyfeirio at y newid mewn refeniw hysbysebu yn y flwyddyn honno o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ffigurau ar gyfer 2013 i 2017 yn seiliedig ar newidiadau o un flwyddyn i'r llall mewn refeniw hysbysebu net (hynny yw, teledu llinol yn unig), ffigurau ar gyfer 2018 yn seiliedig ar newidiadau o un flwyddyn i'r llall ym mhob refeniw hysbysebu (hynny yw, teledu llinol a fideo ar-alw).*

Mewn profion budd y cyhoedd blaenorol ar gyfer lansio sianeli'r BBC, roedd Ofcom yn cytuno â'r farn na fyddai sefyllfa lle'r oedd yr effaith ar lefelau gwylio a refeniw cystadleuydd yn fach yn debygol o amharu ar ei gymhelliant i fuddsoddi.[93] Er

[92] *ITV Results Centre*, ITV [cyrchwyd Mehefin 2021].
[93] Cyflwynwyd dadleuon eraill gan y BBC yn y Prawf Budd y Cyhoedd yn yr Alban, gan gynnwys nad oes cydberthynas gref rhwng buddsoddiad a refeniw rhaglenni, a bod rhagolygon o ran elw ffeithiol o fewn

enghraifft, ym Mhrawf Budd y Cyhoedd BBC Scotland, dywedodd Ofcom fod y newid mewn refeniw yn cynrychioli gostyngiad o 2% o'i gymharu â refeniw hysbysebu STV yn 2016. Ac er nad oedd yr effaith debygol ar refeniw STV yn sylweddol mewn termau absoliwt, roedd yn gymharol fach fel canran o gyfanswm refeniw hysbysebu STV, ac felly nid oedd yn credu ei bod yn debygol o beryglu hyfywedd STV nac effeithio ar gymhellion STV i fuddsoddi ac i arloesi.[94] Mae'n werth nodi bod yr effaith ar refeniw canrannol yn is o lawer na hyn yn achos y cynnig presennol.

Ar ben hynny, rydym yn nodi mai prif sianel ITV yw'r sianel fwyaf poblogaidd ymysg cynulleidfaoedd 16-34, gydag ITV2 yn dilyn yn agos yn y pedwerydd safle.[95] Ar ben hynny, mae ITV Hub yn dod yn fwy poblogaidd, ar ôl ehangu ei gynnwys drwy ymestyn y ffenestr dal i fyny ac ychwanegu cynnwys ffurf fer.[96] Dywedodd ITV fod tua 81% o bobl 16-34 oed yn y DU wedi cofrestru ar ITV Hub yn 2018, gyda'r bumed gyfres o *Love Island* yn unig yn ychwanegu 3.2 miliwn o ddefnyddwyr cofrestredig ym mis Mehefin 2019.[97] Felly, mae gan ITV bob rheswm dros barhau i fuddsoddi i gynnal ei apêl yn llwyddiannus gyda chynulleidfaoedd iau, ac mae'r newid yn y mecanwaith dosbarthu ar gyfer BBC Three yn annhebygol o effeithio ar hyn. Yn wir, gall effaith rhaglenni unigol, fel *Love Island*, ar lefelau gwylio ITV fod yn fwy nag effaith lansio sianel BBC Three. Wrth gyfrifo'n fras, rydym yn amcangyfrif y byddai colli *Love Island* o amserlen linol ITV2 yn 2019 wedi dod â chyfran portffolio ITV ymysg pobl 16-34 oed o 23.8% i 22.7% (newid o 1.1 pwynt canran).[98] Mae modd cymharu hyn â'r newid o 0.3 pwynt canran rydym yn ei ragweld ar gyfer cyfran ITV o'r portffolio yn 2022 ymysg pobl 16-34 oed, yn sgil lansio sianel BBC Three.[99]

---

yr amrywiaeth a welwyd cyn lansio'r sianel. Fodd bynnag, dywedodd Ofcom fod y dystiolaeth hon yn amhriodol ac ystyried ei natur lefel uchel a'r amrywiaeth o ffactorau eraill a allai fod wedi cael effaith fwy ar lefel y buddsoddiad dros y cyfnod. Felly, nid ydym wedi ceisio ail-wneud y dadansoddiad hwn. Edrychwch ar BBC Scotland Competition Assessment, Final Determination Annex 3: Assessment of Market Impacts, tudalen 15.

[94] *BBC Scotland Competition Assessment, Final Determination Annex 3: Assessment of Market Impacts*, Ofcom, 26 Mehefin 2018, tudalennau 14 a 17.

[95] Yn ôl data C7 BARB a data byw BARB, 2020.

[96] *ITV Results Centre*, ITV [cyrchwyd Mehefin 2021].

[97] *ITV hub passes 30 million users*, InformITV, 22 Hydref 2019.

[98] Yn ôl data C7 BARB, 2019. Er mwyn amcangyfrif effaith colli *Love Island* o amserlen linol ITV2 yn 2019, yn lle defnyddio lefelau gwylio ITV2 yn ystod misoedd darlledu *Love Island* (Mehefin a Gorffennaf y flwyddyn honno) fe wnaethom ddefnyddio lefelau gwylio cyfartalog yn y misoedd cyn ac ar ôl hynny (hynny yw, Mai ac Awst). Mae addasu'r misoedd gwylio llawn hefyd yn cael gwared ar ddylanwad techneg a ddefnyddir lle mae rhaglen deledu amhoblogaidd yn cael ei darlledu rhwng dwy raglen boblogaidd yn y gobaith y bydd pobl yn ei gwylio ("hammocking"), lle na wnaeth cynulleidfaoedd *Love Island* newid o ITV2 ar ôl y slot amser. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, rydym hefyd yn addasu cyfanswm gwylio'r farchnad gan yr un gwahaniaeth â'r gwahaniaeth rhwng gwylio ITV2 gyda *Love Island* a heb y rhaglen.

[99]Mae'r newid yn y gyfran ar gyfer ITV yn senario *Love Island* yn seiliedig ar ddata dal i fyny 7 diwrnod, ond mae'r newid yn y gyfran ar gyfer ITV yn senario sianel BBC Three yn seiliedig ar gyfanswm y data gwylio (llinol a BVOD).

Bydd y cynnydd yn nifer yr achosion o wasanaethau SVOD yn parhau i gymell darlledwyr fel ITV i arloesi, a bydd yr amgylchedd cystadleuol hwn, yn fwy na'r newidiadau a wneir i BBC Three, yn parhau i lywio penderfyniadau buddsoddi a wneir gan ddarlledwyr y DU. Cyhoeddodd ITV ei fod yn ailstrwythuro ei fusnes Darlledu mewn ymateb i'r ddarpariaeth gwylio sy'n fwyfwy cystadleuol, er mwyn datblygu ei allu digidol yn well a pharhau i ganolbwyntio ar ei gynulleidfaoedd byw torfol.[100] Ar ben hynny, mae gan ITV nifer o rwymedigaethau rheoleiddio sy'n effeithio ar ei gymhellion i fuddsoddi ac arloesi.

#### *5.3.2.3 Y gallu i ymateb*

I'r graddau y mae nifer sylweddol o wylwyr yn troi oddi wrth sianeli ITV i BBC Three, efallai y bydd ITV yn gallu ymateb yn fasnachol i liniaru'r golled hon. Gellid gwneud hyn naill ai drwy gomisiynu cynnwys tebyg i'r hyn sy'n profi'n boblogaidd ar BBC Three, neu drwy geisio cael hyd yn oed mwy o wahaniaeth i'r hyn a amlygwyd yn Adran 5.3.1.2 uchod. Yn y cyswllt hwn, byddai cystadleuaeth gryfach yn arwain at gynnwys o ansawdd uwch a mwy deniadol – canlyniad cadarnhaol i gynulleidfaoedd.

Mae'n werth nodi bod ITV wedi cyhoeddi ei strategaeth gomisiynu newydd ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc ym mis Ebrill 2021.[101] Mae hyn yn cynnwys comisiynu cynnwys ffeithiol a chynnwys wedi'i sgriptio ar gyfer pobl ifanc ar gyfer ITV2 ac ITV Hub, a symud at strategaeth "ar-alw yn gyntaf". O ganlyniad, bydd rhai comisiynau sy'n glanio ar ITV Hub yn gyntaf ac ITV2 yn mentro i fyd rhaglenni ffeithiol. Mae'n ymddangos felly y bydd ITV mewn sefyllfa dda i ymateb i gynnig sianel BBC Three erbyn adeg y lansio, ac y bydd yn dwysáu'r gystadleuaeth yn erbyn BBC Three yn y gofod llinol a VOD, er budd cynulleidfaoedd.

### 5.3.3 Effeithiau deinamig ar Channel 4

#### *5.3.3.1 Y gwasanaethau a ddarperir gan Channel 4*

Mae Channel 4 yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn y DU sy'n eiddo cyhoeddus ac sy'n cael ei ariannu'n fasnachol. Mae'n hunangynhaliol yn fasnachol wrth ddilyn model menter gymdeithasol. Mae'n gweithredu fel sefydliad nid-er-elw, gyda'r gwarged yn cael ei ail-fuddsoddi mewn cynnwys. Nid oes ganddo gynyrchiadau mewnol, ac mae'n comisiynu ei holl raglenni yn y DU gan gwmnïau cynhyrchu yn y DU.[102]

Yn y ffigur isod, gwelir sut mae refeniw Channel 4 wedi'i ddosbarthu yn 2019.

---

[100] *Adroddiad Blynyddol ITV*, 2020, tudalen 18.
[101] *ITV announces 'on-demand first' strategy for our young audiences commissioning*, 22 Ebrill 2021.
[102] *What is Channel 4*, Channel 4, [cyrchwyd Mehefin 2021].

**Ffigur 30: Ffynonellau refeniw Channel 4, 2020**

| | Refeniw (£m) | Cyfran y refeniw (%) |
|---|---|---|
| Refeniw digidol | 163 | 17% |
| Nawdd a hysbysebion teledu | 772 | 78% |
| Arall | 50 | 5% |
| **Cyfanswm** | **985** | **100%** |


*Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol Channel 4 2019*

### *5.3.3.2 Perthynas rhwng refeniw a'r cymhelliant i fuddsoddi*

Rydym wedi amcangyfrif y gallai lansio sianel linol BBC Three arwain at rhwng 0.3% a 0.7% yn llai o refeniw i Channel 4. Unwaith eto, rydym yn rhoi'r colledion hyn yng nghyd-destun cyfanswm yr amrywiadau refeniw o un flwyddyn i'r llall ar gyfer Channel 4. Mae'r ffigur isod yn dangos y newidiadau o un flwyddyn i'r llall yn refeniw hysbysebu Channel 4, yn ôl ei adroddiadau blynyddol. Mae'n dangos bod colledion o ~0.5% o refeniw hysbysebu o fewn ystod yr amrywioldeb refeniw blynyddol.

Ar ben hynny, er bod Covid-19 wedi cael effaith niweidiol ar refeniw hysbysebu Channel 4 yn hanner cyntaf 2020, roedd ei refeniw hysbysebu wedi gwella tua diwedd 2020. Mae sylwebwyr y diwydiant yn nodi bod Channel 4 mewn sefyllfa arbennig o dda i fanteisio ar y cynnydd yn y newidiadau gwylio i'r digidol a achoswyd gan y cyfyngiadau symud.[103]

**Ffigur 31: Newidiadau o un flwyddyn i'r llall mewn refeniw hysbysebu, Channel 4**




*Ffynhonnell: Adroddiadau blynyddol Channel 4*
*Nodiadau: mae'n cynnwys refeniw hysbysebu VOD a llinol. Mae pob blwyddyn yn cyfeirio at y newid mewn refeniw hysbysebu yn y flwyddyn honno o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Nid oedd data ar gyfer refeniw hysbysebu 2020 ar gael adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.*

[103] Channel 4: 2019, 2020 and beyond, Enders Analysis, 3 Tachwedd 2020.

Fel sy'n cael ei egluro uchod, mae Ofcom wedi ystyried yn flaenorol bod effaith refeniw o lai nag 1% yn annhebygol o niweidio hyfywedd masnachol cwmnïau a'u cymhellion i fuddsoddi.

Ar ben hynny, rydym yn nodi mai Channel 4 yw'r ail sianel fwyaf poblogaidd ymysg cynulleidfaoedd 16-34, gydag E4 yn dilyn yn agos yn y chweched safle.[104] Yn ystod 2019, roedd 2% yn fwy o bobl 16-34 oed yn gwylio prif sianel Channel 4 yn ystod yr oriau brig, ac yn ystod y cyfnod hwn roedd gan Channel 4 24 o'r 30 prif deitlau gyda'r proffil mwyaf ar gyfer pobl 16-34 oed.[105] Ar ben hynny, mae ffocws strategol cryf Channel 4 ar gyflymu twf mewn technoleg ddigidol yn golygu:[106]

- Roedd refeniw digidol Channel 4 wedi cynyddu 18% rhwng 2018 a 2019, gan gyfrif am 17% o refeniw'r gorfforaeth yn 2019;
- Roedd 80% o bobl ifanc 16-34 oed yn y DU wedi cofrestru ar All4 yn 2019, i fyny o 70% yn 2018;
- O blith y rhai sy'n gwylio All4, mae 52% yn bobl 16-34 oed, a All4 yw'r gwasanaeth ffrydio a'r proffil ieuengaf yn y DU ymysg darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus;
- E4 oedd y brand darlledwr mwyaf yn y DU ar gyfryngau cymdeithasol o ran fideos a wyliwyd yn 2019, gan ehangu cyrhaeddiad E4 gyda chynulleidfaoedd iau;
- E4 yw'r ail sianel ddigidol fwyaf poblogaidd ar gyfer pobl ifanc 16-34 oed a'r drydedd sianel ddigidol fwyaf poblogaidd yn y DU.

Felly, mae gan Channel 4 bob rheswm dros barhau i fuddsoddi i gynnal ei apêl yn llwyddiannus gyda chynulleidfaoedd iau, ac mae'r newid yn y mecanwaith dosbarthu ar gyfer BBC Three yn annhebygol o effeithio ar hyn.

Yn wir, bydd y cynnydd yn nifer y gwasanaethau SVOD yn parhau i gymell darlledwyr fel Channel 4 i arloesi, a bydd yr amgylchedd cystadleuol hwn, yn fwy na'r newidiadau a wneir i BBC Three, yn parhau i lywio penderfyniadau buddsoddi a wneir gan ddarlledwyr y DU. Ar ben hynny, mae gan Channel 4 nifer o rwymedigaethau rheoleiddio sy'n effeithio ar ei gymhellion i fuddsoddi ac arloesi.

### *5.3.3.3 Y gallu i ymateb*

I'r graddau y mae nifer sylweddol o wylwyr yn troi oddi wrth sianeli Channel 4 i BBC Three, efallai y bydd Channel 4 yn gallu ymateb yn fasnachol i liniaru'r golled hon.

[104] Yn ôl data C7 BARB a data byw BARB, 2020.
[105] *Adroddiad Blynyddol 2019*, Channel 4, tudalen 14.
[106] *Adroddiad Blynyddol 2019*, Channel 4, tudalen 15.

Gellid gwneud hyn naill ai drwy gomisiynu cynnwys tebyg i'r hyn sydd ar BBC Three, neu drwy geisio cael hyd yn oed mwy o wahaniaeth i'r hyn a amlygwyd yn Adran 5.3.1.2 uchod. Yn y cyswllt hwn, byddai cystadleuaeth gryfach yn arwain at gynnwys o ansawdd uwch a mwy deniadol – canlyniad cadarnhaol i gynulleidfaoedd.

Mae'n ymddangos y bydd Channel 4 mewn sefyllfa gynyddol dda i ymateb, a'i fod yn buddsoddi i ddenu cynulleidfaoedd iau. Er enghraifft, fel rhan o'i Strategaeth Future4, mae Channel 4 yn buddsoddi mwy mewn fformatau unigryw iawn sy'n denu pobl ifanc, gyda'r nod o ddyblu lefelau gwylio All4 erbyn 2025.[107] Hefyd, lansiodd E4 ymgyrch chwilio am dalent newydd yn y DU yn 2019 fel rhan o'i strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant ar y sgrin.[108]

### 5.3.4 Effeithiau deinamig ar Sky a darlledwyr eraill

#### *5.3.4.1 Y gwasanaethau a ddarperir gan Sky*

Mae Sky UK yn ddarlledwr Prydeinig ac yn gwmni telathrebu sy'n darparu gwasanaethau rhyngrwyd band eang a theledu, gwasanaethau ffôn symudol a llinell sefydlog i ddefnyddwyr a busnesau yn y DU. Mae Sky UK yn is-gwmni sydd ym mherchnogaeth lwyr Sky Group sy'n eiddo i Comcast. Mae Sky Group yn gweithredu mewn sawl marchnad ledled Ewrop, gan gynnwys y DU, Iwerddon, yr Almaen ac Awstria.

Mae Sky UK yn weithredol mewn nifer o wasanaethau, gan gynnwys:[109]

- Sianeli darlledu fel Sky News a Sky Sports, rhai ohonynt ar gael am ddim a phob un ar gael drwy Deledu drwy Dalu. Sky yw darlledwr teledu drwy dalu mwyaf y DU;
- Gwasanaethau fideo ar-alw fel "On-Demand" (wedi'u cysylltu â gwasanaeth teledu craidd Sky) a "NOW" (ar wahân i wasanaeth teledu craidd Sky);
- Pecynnau tanysgrifio teledu drwy dalu, sy'n cynnig mynediad at sianeli darlledu Sky a gwasanaethau fideo ar-alw, yn ogystal â llu o sianeli/gwasanaethau llinol eraill;
- Pecynnau band eang Sky, sydd hefyd ar gael fel rhan o becyn gyda Sky TV;
- Dyfeisiau a chynlluniau symudol Sky;
- Sky Store, sy'n cynnig llyfrgell o ffilmiau o Sky Cinema i'w rhentu neu eu prynu.

---

[107] *Channel 4's Future4 strategy*, Channel 4 [cyrchwyd Mehefin 2021].
[108] *E4 on nationwide hunt for brand new talent* , Channel 4, 17 Gorffennaf 2019.
[109] Ewch i wefannau Sky.com a Sky Store [cyrchwyd Mehefin 2021].

Mae refeniw Sky yn y DU ac Iwerddon yn 2018 wedi'i ddadansoddi yn y ffigur isod. Mae'n werth nodi mai: (i) dim ond 6% o gyfanswm refeniw Sky sy'n refeniw hysbysebu a (ii) mae gan Sky ffyrdd eraill o gael gwerth ariannol o'i gynnwys, fel nad yw'n glir a fyddai hyn a hyn o golled yn refeniw hysbysebu'r DU yn debygol o gael effaith ar ei gymhellion cyffredinol i fuddsoddi.

**Ffigur 32: Ffynonellau refeniw Sky yn y DU ac Iwerddon, y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2018**

| | Refeniw'r DU ac Iwerddon (£m) | Cyfran refeniw'r DU ac Iwerddon (%) | Cyfanswm refeniw'r Grŵp Statudol (£m) | Cyfanswm cyfran refeniw'r Grŵp Statudol (%) |
|---|---|---|---|---|
| Yn uniongyrchol i'r defnyddiwr | 7,611 | 85% | 11,830 | 87% |
| Cynnwys | 788 | 9% | 838 | 6% |
| Hysbysebu | 540 | 6% | 917 | 7% |
| **Cyfanswm** | **8,939** | **100%** | **13,585** | **100%** |

*Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol Sky, 2018*

*Nodiadau: Ffigurau 2018 oedd y rhai diweddaraf ar gael yn https://www.skygroup.sky/reports*

### 5.3.4.2 Perthynas rhwng refeniw a'r cymhelliant i fuddsoddi

Rydym wedi amcangyfrif y gallai lansio sianel linol BBC Three arwain at ostyngiad mewn refeniw darlledwyr masnachol eraill (hynny yw, heb gynnwys ITV a Channel 4) o rhwng 0.1% a 0.3%, sy'n cyfateb i rhwng £2.5 miliwn a £5 miliwn. Dyma'r gostyngiad gyda'i gilydd ar gyfer pob darlledwr arall, ac felly byddai'r effaith ar ddarlledwr unigol, fel Sky, yn llai. Mae'n annhebygol y byddai newid bach o'r fath mewn lefelau gwylio ac mewn refeniw hysbysebu yn cael effaith fesuradwy ar benderfyniadau Sky neu ddarlledwr arall i fuddsoddi neu arloesi. I Sky yn benodol, un o is-gwmnïau ComCast, mae colled fach fel hyn o refeniw hysbysebu'r DU yn annhebygol iawn o effeithio ar gyllideb ei raglenni neu ei weithgarwch yn y DU.

## 5.4 Effaith ar wasanaethau SVOD a theledu drwy dalu

Rydym hefyd yn ystyried effaith gystadleuol ar draws ar wasanaethau teledu drwy dalu a gwasanaethau SVOD wrth lansio sianel BBC Three. Nid yw'r effaith refeniw ar y gwasanaethau hyn wedi cael ei chynnwys yn ein model economaidd er mwyn cadw pethau'n syml, ac mae'n cael ei asesu'n ansoddol i raddau helaeth yn lle hynny.

Mae darlledwyr teledu am ddim fel y BBC yn sicrhau bod eu sianeli ar gael am ddim i gynulleidfaoedd. Fel y trafodwyd uchod, mae darlledwyr teledu am ddim yn cystadlu yn erbyn ei gilydd (yn y gofod llinol a fideo ar-alw), yn ogystal ag yn erbyn darlledwyr teledu drwy dalu (yn y gofod llinol a fideo ar-alw) ar gyfer refeniw hysbysebu. Ond, mae darlledwyr teledu am ddim hefyd yn cystadlu yn erbyn

gwasanaethau teledu drwy dalu a gwasanaethau SVOD sy'n gwerthu tanysgrifiadau i'w gwasanaeth neu becyn o wasanaethau yn uniongyrchol i ddefnyddwyr. Os bydd darlledwyr teledu am ddim yn cynyddu ansawdd ac amrywiaeth eu gwasanaethau, efallai y bydd rhai tanysgrifwyr teledu drwy dalu a SVOD yn dewis canslo eu tanysgrifiadau i wylio mwy o gynnwys teledu am ddim yn lle hynny. Yn yr un modd, os yw gwasanaethau teledu drwy dalu a SVOD yn gostwng y pris neu'n gwella ansawdd eu gwasanaethau, efallai y bydd cynulleidfaoedd teledu am ddim yn troi oddi wrth ddarlledwyr teledu am ddim at y gwasanaethau hyn.

Rydym yn ystyried a allai lansio sianel BBC Three gymell tanysgrifwyr Teledu drwy Dalu neu SVOD i ganslo eu tanysgrifiadau mewn niferoedd sylweddol, ac os felly, a allai hyn effeithio ar gymhellion gwasanaethau teledu drwy dalu a SVOD i fuddsoddi.


### 5.4.1 Gwasanaethau teledu drwy dalu

Fel y dangosir yn Ffigur 26 uchod, rydym yn amcangyfrif y gallai sianeli darlledu masnachol, ac eithrio ITV a Channel 4, weld gostyngiad o 0.3% yn y lefelau gwylio yn sgil lansio sianel BBC Three. Mae hwn yn amcangyfrif ceidwadol o'r effaith ar nifer fawr o ddarlledwyr, gan gynnwys sianeli Teledu drwy Dalu. Mae'n annhebygol y byddai gostyngiad bach o’r fath yn y nifer sy’n gwylio sianeli teledu drwy dalu yn cael effaith ar duedd gwyliwr i danysgrifio i wasanaeth teledu drwy dalu penodol.

Nodwn ymhellach fod cynnig sianel BBC Three yn wahanol iawn i becyn teledu drwy dalu. Mae hyn yn golygu na fyddai lansio un sianel teledu am ddim ychwanegol yn effeithio ar y nifer fawr o resymau dros danysgrifio i deledu drwy dalu. Er enghraifft:

- Mae tanysgrifwyr teledu drwy dalu yn gweld gwerth yn elfennau o’u tanysgrifiad na fyddai lansio’r sianel yn effeithio arnynt. Mae’r ffigur isod yn dangos bod tanysgrifwyr teledu drwy dalu yn chwilio am fynediad at amrywiaeth eang o sianeli, ffilmiau a sioeau penodol, chwaraeon, cynnwys gwreiddiol, sianeli talu-i-wylio, a delwedd a sain o ansawdd uchel. Felly, ni fyddai lansio sianel BBC Three – y mae ei chynnwys wedi’i dargedu’n benodol at bobl 16-34 oed ac sydd eisoes ar gael ar iPlayer – yn debygol o leihau gwerth cynnig teledu drwy dalu i’w danysgrifwyr.

**Ffigur 33: Rhesymau dros dalu am danysgrifiad teledu (cebl/lloeren) yn y DU, 2020**




*Ffynhonnell: Arolwg Defnyddwyr Byd-eang Statista.*
*Nodiadau: Roedd modd rhoi mwy nag un ateb. Dylid dehongli'r canlyniadau fel, er enghraifft, fod 52% o'r ymatebwyr yn tanysgrifio i deledu drwy dalu er mwyn cael gafael ar sianeli sy'n cael eu colli.*


- Mae pecynnau teledu drwy dalu yn ceisio denu defnyddwyr ABC1, tra bo BBC Three yn targedu cynulleidfaoedd C2DE yn bennaf. Mae Traciwr Technoleg Ofcom 2020 yn dangos bod 57% o danysgrifwyr Sky, 58% o danysgrifwyr Virgin Media a 65% o danysgrifwyr BT TV yn ABC1.
- Mae pecynnau teledu drwy dalu yn cynnwys, fel rhan o'u cynnig, y gwahanol sianeli llinol teledu am ddim a gwasanaethau BVOD, yn ogystal â rhai gwasanaethau SVOD. Mae'n dal yn bosibl gwylio BBC Three – fel sianel linol neu ar iPlayer – drwy'r pecyn teledu drwy dalu, gan wella gwerth y gwasanaeth teledu drwy dalu i'w danysgrifwyr hyd yn oed.

Ar ben hynny, rydym yn nodi bod tanysgrifiadau teledu drwy dalu wedi bod yn aros yn gyson i raddau helaeth dros y blynyddoedd diwethaf (fel y dangosir yn y ffigur isod). Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod nifer o wasanaethau SVOD a sianeli llinol newydd wedi cael eu lansio dros y cyfnod.[110] Mae Sky, y darparwr teledu drwy dalu mwyaf yn y DU, wedi dweud y bydd yn gwario mwy na dwbl ei wariant ar gynnwys gwreiddiol i £1 biliwn erbyn 2024 ac, yn fwy diweddar, cyhoeddodd y bydd yn cynyddu nifer y ffilmiau a'r rhaglenni teledu gwreiddiol ac unigryw mae'n eu cynnig, er mwyn dwysáu'r gystadleuaeth yn erbyn y cwmnïau ffrydio mawr.[111] Mae Sky hefyd yn rhedeg busnes ar draws Ewrop, gan gynnwys prif diriogaethau, fel yr Almaen a'r Eidal. Felly, mae'n annhebygol y bydd lansio un sianel teledu am ddim yn

[110]Mae sianeli llinol a gafodd eu lansio yn cynnwys CBS Justice yn 2018, Smithsonian Channel yn 2019, Paramount Network yn 2020, HGTV yn 2020 a BBC Scotland yn 2019.
[111] *Sky ramps up film and TV plans to compete with streaming giants'*, BBC News, 25 Ionawr 2021.

y DU yn achosi i Sky, neu'r gwasanaethau teledu drwy dalu eraill, leihau eu buddsoddiad neu gystadlu'n llai egnïol ym marchnad cyfryngau'r DU.

**Ffigur 34: Aelwydydd y DU yn ôl llwyfan teledu, 2015 – 2020**




*Ffynhonnell: Arolwg Sefydliad BARB*

Yn olaf, gofynnodd arolwg meintiol MTM i danysgrifwyr gwasanaethau teledu drwy dalu a fyddent yn debygol o ganslo eu tanysgrifiad o ganlyniad i lansio'r sianel.[112] Mae 6%, 3% a 5% o danysgrifwyr BT, Virgin Media a Sky, yn y drefn honno, yn dweud y byddent yn bendant yn canslo eu pecyn teledu drwy dalu. Mae 20%, 15% a 14% o danysgrifwyr BT, Virgin Media a Sky, yn y drefn honno, yn dweud y byddent yn ystyried gwneud newidiadau i'w pecyn teledu drwy dalu. Ond, rydym yn amau'r canlyniadau hyn, sydd, yn ein barn ni, yn debygol iawn o orbwysleisio'r ansefydlogrwydd a ddaw yn sgil lansio'r sianel. Dyma'r rhesymau pam:

- Roedd y ffaith bod ymatebwyr wedi cael y cwestiwn hwn yn yr arolwg yn pwyso arnynt i ystyried ymateb. Mewn gwirionedd, efallai na fydd gwylwyr BBC Three yn gweld bod gwylio'r sianel yn golygu unrhyw oblygiadau i'w tanysgrifiad teledu drwy dalu. Ar ben hynny, rydym yn cydnabod bod ymddygiad a nodwyd mewn cyd-destun damcaniaethol yn gallu bod yn

[112] *Yn gynharach, fe ddywedoch chi wrthym eich bod yn tanysgrifio i [wasanaeth teledu drwy dalu X]. Pa mor debygol, os o gwbl, fyddech chi o ganslo neu israddio eich tanysgrifiad i [wasanaeth teledu drwy dalu X] pe bai sianel newydd BBC Three yn cael ei lansio?*

wahanol i ymddygiad go iawn mewn gwirionedd, yn enwedig o ran canslo tanysgrifiadau.[113]

- Nid oedd arolwg MTM yn gofyn am fwriad ymatebwyr i ganslo eu tanysgrifiadau teledu drwy dalu cyn lansio'r sianel. Felly, mae'n bosibl bod rhai o'r ymatebwyr hynny a ddywedodd y byddent yn canslo eu tanysgrifiadau wedi bwriadu gwneud hynny heb lansio'r sianel.[114]
- Gofynnodd arolwg MTM y cwestiwn hwn i ymatebwyr unigol, heb roi hyn yng nghyd-destun y dewisiadau gwylio ehangach yn eu haelwydydd. Mae'r penderfyniad i danysgrifio i wasanaethau teledu drwy dalu fel arfer yn cael ei wneud ar lefel aelwyd, felly hyd yn oed os yw oedolion ifanc yn y cartref yn debygol o wylio BBC Three ar draul sianeli teledu drwy dalu, efallai y bydd aelodau eraill y cartref yn parhau i werthfawrogi eu tanysgrifiad i deledu drwy dalu.
- Mae llawer o danysgrifiadau teledu drwy dalu yn rhan o becyn ehangach o wasanaethau, gan gynnwys pecynnau band eang a ffôn. Mae hyn yn golygu efallai bod ymatebwyr wedi methu â chymryd i ystyriaeth nad dim ond apêl gymharol y gwasanaeth teledu drwy dalu yn unig sy'n gyfrifol am y penderfyniad i danysgrifio. Yn wir, dywedodd 27% o danysgrifwyr teledu drwy dalu yn y DU mai cael pecyn rhyngrwyd oedd un o'r rhesymau dros danysgrifio (a ddangosir yn Ffigur 33 uchod).

At ei gilydd, rydym o'r farn mai effaith fach y byddai cynnig BBC Three yn ei chael ar deledu drwy dalu, ac y byddai'n annhebygol o gael effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol sy'n cynnwys gwasanaethau teledu drwy dalu.

### 5.4.2 Gwasanaethau SVOD

Roedd ein model yn amcangyfrif y gallai lansio sianel BBC Three arwain at newid yng nghyfanswm munudau gwylio SVOD mewn perthynas â'r sefyllfa wrthffeithiol fel a ganlyn: Ar gyfer pob cynulleidfa, rhagwelir y bydd nifer gwylwyr SVOD gyda'i gilydd yn gostwng 0.6% ac ar gyfer pobl 16-34 oed, 0.4%. Mae hwn yn amcangyfrif ceidwadol o'r effaith ar nifer fawr o wasanaethau SVOD sy'n gweithredu yn y DU. Mae'n annhebygol y byddai gostyngiad bach o'r fath yn y nifer sy'n gwylio SVOD yn cael effaith ar duedd gwyliwr i danysgrifio i wasanaeth SVOD penodol.

---


[113]Mae llenyddiaeth economaidd am ymddygiad yn dweud wrthym fod pobl yn debygol o orbwysleisio pa mor dueddol ydynt o ganslo tanysgrifiadau. Gweler er enghraifft 'Paying not to go to the gym' Stefano DellaVigna a Ulrike Malmendier, The American Economic Review, Cyf. 96, Rhif. 3 (Meh., 2006), tud. 694-719, sy'n gweld fel a ganlyn: "Consumers overestimate, for example, their future self-control or their future efficiency in pursuing costly activities. This leads to overestimation of attendance and of cancellation in automatically renewed contracts".

[114]Mae MTM yn cytuno â'r ddamcaniaeth bod grymoedd allanol yn debygol o effeithio ar y ffigurau ar gyfer y tebygolrwydd o ganslo tanysgrifiadau.

Nodwn ymhellach fod cynnig sianel BBC Three yn wahanol iawn i wasanaeth SVOD, am y rhesymau canlynol:

- Nid yw’r rhesymau pam mae gwylwyr yn dewis tanysgrifio i wasanaeth SVOD yn awgrymu y byddai sianel linol BBC Three yn ddewis arall yn lle SVOD. Fel y dangosir yn y ffigur isod, y prif resymau dros danysgrifio i SVOD oedd gwylio ar adeg sy'n gyfleus, gwylio cyfresi gwreiddiol a wnaed gan y darparwr, gwylio mwy nag un bennod mewn rhes a gwylio cynnwys unigryw. Mae’r rhain yn amlwg yn nodweddion gwahanol i rai sianel BBC Three.

**Ffigur 35: Rhesymau dros ddefnyddio gwasanaethau SVOD yn y DU, Ch1 2018**




*Ffynhonnell: Traciwr SVOD GfK*
*Nodiadau: Roedd modd rhoi mwy nag un ateb. Nid yw cludo am ddim ar gael fel rhan o wasanaeth Netflix neu Now TV. Heb ofyn i danysgrifwyr NOW TV y cwestiwn ‘I wylio cyfresi gwreiddiol wedi’u gwneud gan ddarparwyr’ Dylid dehongli canlyniadau fel, er enghraifft, fod 39% o danysgrifwyr Netflix wedi dweud eu bod yn defnyddio’r gwasanaeth i wylio cynnwys fideo ar adeg a oedd yn gyfleus iddyn nhw.*


- Mae’r ffigur uchod hefyd yn dangos bod defnyddwyr yn gwerthfawrogi'n fawr y pecyn gwasanaethau sydd ar gael yn aml drwy eu darparwr SVOD. Er enghraifft, y prif reswm dros danysgrifio i Amazon Prime yw cael siopa wedi'i ddanfon am ddim.

- Mae’r rhaglenni a gynigir gan BBC Three a gwasanaethau SVOD yn wahanol. Mae’r rhan fwyaf o wasanaethau SVOD yn canolbwyntio llawer ar ffilmiau a chyfresi teledu’r Unol Daleithiau, a bydd BBC Three yn canolbwyntio ar gynnwys sy’n portreadu bywyd yng ngwledydd a rhanbarthau’r DU. Er bod y gwasanaethau SVOD hyn yn buddsoddi mwy mewn cynnwys o'r DU, mae'n rhaid i'w cynnwys fod ag apêl fyd-eang yn naturiol, ac felly mae'n llai 'Prydeinig' gan amlaf na’r hyn a gomisiynir yn uniongyrchol gan ddarlledwyr

yn y DU.[115] [116]Ar lefel rhaglenni, yn y 12 mis hyd at fis Hydref 2020, dim ond 16 o deitlau a oedd yn gorgyffwrdd gan Netflix a BBC Three ar iPlayer.

- Mae'r cynnwys a gynigir ar BBC Three yn wahanol iawn i'r gwasanaethau SVOD. Mae'r ffigur isod yn dangos bod pob un o'r gwasanaethau SVOD yn cynnwys llawer o ddrama (ac eithrio Disney+), dim ond 14% o arlwy cynnwys brig BBC Three fydd yn ddrama. Mae genre mwyaf BBC Three, adloniant/adloniant ffeithiol, yn gyfran gymharol fach o oriau gwasanaethau SVOD.

**Ffigur 36: Oriau cynnwys SVOD yn y DU, yn ôl genre, Ebrill 2020**





*Ffynhonnell: Adroddiad Ofcom, Cyfryngau'r Genedl 2020, tud 63.*
*Nodiadau: Mae'r rhaglenni ffeithiol yn cynnwys rhaglenni dogfen a newyddion a materion cyfoes. Mae'n cynnwys ffilmiau a thymhorau teledu.*

- Yn yr un modd, mae'r gwasanaethau SVOD byd-eang yn ceisio denu cynulleidfaoedd ABC1, tra bo BBC Three yn targedu cynulleidfaoedd C2DE. Yn ôl Traciwr Technoleg Ofcom 2020, mae 60% o danysgrifwyr Netflix, 67% o danysgrifwyr Amazon a 63% o danysgrifwyr NOW yn ABC1. Ar gyfer BritBox, mae'r ffigurau hyn yn uwch eto, gyda 89% o danysgrifwyr BritBox yn cael eu categoreiddio'n ABC1.[117]
- Hyd yn oed rhwng y gwahanol wasanaethau SVOD, mae cryn wahaniaeth. Gellir disgrifio BritBox yn benodol fel ffrwdiwr "niche", sy'n wahanol i Netflix ac Amazon Prime o ran ei lyfrgell o gynnwys Prydeinig sy'n apelio at bobl

[115] Outsourcing culture: When British shows aren't 'British', Enders Analysis, 7 Mawrth 2021.
[116]Mae BritBox, y fenter ar y cyd rhwng ITV a'r BBC, yn eithriad amlwg i hyn.
[117]Mae ffigurau BritBox yn deillio o sampl bach iawn.

dros 45 oed.[118] Yn wir, mae Ffigur 35 uchod yn dangos bod tanysgrifwyr SVOD yn defnyddio'r gwasanaethau hyn ar gyfer eu cynnwys gwreiddiol neu unigryw. Mae'r awydd hwn i gael gafael ar ystod ehangach o gynnwys wedi arwain at nifer cynyddol o aelwydydd yn berchen ar fwy nag un tanysgrifiad i wasanaethau SVOD, fel y dangosir yn y ffigur isod. Mae'n annhebygol y byddai lansio sianel teledu am ddim unigol yn newid digon arwyddocaol yn y cynnig teledu am ddim i gwsmeriaid i weithio yn erbyn y duedd hon drwy ysgogi pobl i ganslo tanysgrifiadau SVOD.

**Ffigur 37: Tanysgrifiadau SVOD cartrefi yn y DU, 2014 – 2020**




*Ffynhonnell: Arolwg Sefydliad BARB*

Ar ben hynny, hyd yn oed pe byddai effaith refeniw bach ar wasanaethau SVOD yn y DU, nid yw hyn yn debygol o effeithio ar eu cymhellion i fuddsoddi neu i arloesi yn eu cynnwys neu eu llwyfan digidol oherwydd:

- Mae cymhellion Netflix ac Amazon i fuddsoddi mewn cynnwys a thechnoleg yn deillio o sail fyd-eang, ac effaith fach iawn fyddai newid bach mewn refeniw yn y DU yn ei chael ar benderfyniadau buddsoddi byd-eang. Yn yr un modd, disgwylir i NOW (sydd bellach yn rhan o Comcast) gael gwerth o fuddsoddiadau ar draws sylfaen cwsmeriaid fyd-eang Comcast. Hefyd, dim ond cyfran fach yw refeniw BritBox o'r refeniw sy'n gysylltiedig â phenderfyniad ei riant-gwmnïau (ITV a'r BBC) i wneud y rhaglenni mae'n eu cludo.
- Mae'r gystadleuaeth yn y sector wedi dwysáu dros y blynyddoedd diwethaf, gyda nifer y gwasanaethau SVOD yn cynyddu'n gyflym. Er enghraifft, cafodd BritBox ei lansio yn y DU yn 2019, a lansiwyd Disney+, AppleTV+ a

[118] 'Amid streaming wars, BritBox focuses on older subscribers', Digiday, 30 Gorffennaf 2019.

> Discovery+ yn 2020. Ym mis Chwefror 2021, fe ehangodd Disney+ yn sylweddol drwy ychwanegu cynnwys o ABC, Fox, FX, ac ati. Mae'r lansiadau posibl yn y DU yn y dyfodol agos yn cynnwys Peacock (NBC/ComCast), HBO Max (WarnerMedia/AT&T) a Paramount+ (Viacom). Nid oes arwydd chwaith y bydd gwasanaethau SVOD sydd wedi ennill eu plwyf yn arafu eu buddsoddiad. Er enghraifft, yn 2020 cyhoeddodd Netflix ei ymrwymiad i gynyddu ei wariant ar gynnwys o'r DU, i $1 biliwn.[119] Mae Disney+ a Netflix wedi cynyddu eu prisiau tanysgrifio yn y DU er mwyn cynyddu eu buddsoddiadau mewn cynnwys newydd a'r cynnyrch maen nhw'n ei gynnig.[120]

Yn olaf, gofynnodd arolwg meintiol MTM i danysgrifwyr gwasanaethau SVOD a fyddent yn debygol o ganslo eu tanysgrifiad o ganlyniad i lansio'r sianel.[121] Dywedodd 8% o danysgrifwyr Netflix y byddent yn canslo neu'n ystyried canslo eu tanysgrifiad, ac roedd hyn yn codi i 23% ymysg tanysgrifwyr BritBox. Fel gyda gwasanaethau teledu drwy dalu, rydym yn amheus o'r canlyniadau hyn, sydd yn debygol iawn o fod yn gorbwysleisio'r ansefydlogrwydd gwirioneddol a ddaw i wasanaethau SVOD yn sgil lansio'r sianel. Dyma'r rhesymau am hynny: (i) mae canlyniadau arolwg sy'n holi am gamau gweithredu penodol yn gallu gwyro tuag at orddweud, yn enwedig o ran canslo tanysgrifiadau, (ii) nid yw'r canlyniadau'n cyfrif am y ffaith y gall y penderfyniad i ganslo tanysgrifiad ddibynnu ar agweddau holl aelodau'r aelwyd, yn enwedig gan fod rhai gwasanaethau fel Netflix yn cynnig pecynnau i fwy nag un defnyddiwr, a (iii) nid oedd yr arolwg yn gofyn am fwriad ymatebwyr i ganslo eu tanysgrifiadau cyn i'r sianel gael ei lansio. Yn wir, mae'r tebygolrwydd uchod o ansefydlogrwydd, sy'n dangos mai BritBox a NOW sydd fwyaf tebygol o wynebu ansefydlogrwydd, yn cyd-fynd ag adroddiad Cyfryngau'r Genedl 2020 gan Ofcom, a ganfu fod gan wasanaethau sydd â llai o danysgrifwyr gyfran uwch o danysgrifwyr sy'n bwriadu dad-danysgrifio ar unrhyw adeg benodol.[122]

At ei gilydd, rydym ni'n dod i'r casgliad mai dim ond effaith fach y byddai cynnig BBC Three yn ei chael ar wasanaethau SVOD, ac y byddai'n annhebygol o gael effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol sy'n cynnwys gwasanaethau SVOD.

---

[119] 'Netflix to spend $1bn in UK in 2020 on TV shows and films', The Guardian, 25 Tachwedd 2020.
[120] 'Lockdown entertainment becomes pricier: Netflix subscription costs to rise by up to £24-a-year while Disney Plus charges are also heading higher' , This is Money, 6 Ionawr 2021 a 'Disney Plus' Price In The UK Is Going Up: Here's Why', Cord Busters, 11 Rhagfyr 2020.
[121] *Rydych chi wedi dweud eich bod chi'n debygol o dreulio llai o amser yn gwylio rhaglenni teledu a ffilmiau ar bob un o'r gwasanaethau canlynol. Pa mor debygol, os o gwbl, fyddech chi o ganslo pob un o'r tanysgrifiadau hyn pe bai sianel newydd BBC Three yn cael ei lansio?*
[122] Cyfryngau'r Genedl 2020, Ofcom, tudalen 25.

## 5.5 Effaith ehangach

Roeddem wedi ystyried a allai'r cynigion effeithio ar gystadleuaeth yn is i lawr y gadwyn gyflenwi rhwng llwyfannau teledu (ee, Freesat, Freeview, Sky, a Virgin Media). Roeddem wedi ystyried:

- A fyddai'r BBC yn gallu cyfyngu mynediad at BBC Three i lwyfannau teledu penodol, ac/neu
- A fyddai'r BBC yn gallu cyfyngu ar fynediad i'r llwyfannau teledu y mae'n berchen arnynt ar y cyd, oherwydd bod cymhellion wedi newid ar ôl i'r sianel gael ei lansio.

### 5.5.1 Cyfyngiadau ar gludo BBC Three

Byddai'r BBC yn annhebygol o osod cyfyngiadau a oedd yn cyfyngu ar gludo BBC Three i lwyfannau teledu penodol, ac a fyddai'n cael effaith niweidiol ar gystadleuaeth yn y sector llwyfannau teledu. Byddai polisi o'r fath yn mynd yn groes i ddibenion cyhoeddus y BBC a'i rwymedigaeth "rhaid cynnig", yn y Cytundeb Fframwaith ac fel y nodwyd yng ngofynion Ofcom ar gyfer y BBC:

> *Mae Ofcom yn mynnu ei bod yn rhaid i'r BBC gynnig y gwasanaethau cyhoeddus i drydydd partïon mewn ymateb i geisiadau rhesymol am gyflenwad, ac eithrio pan fydd gan y BBC gyfiawnhad gwrthrychol dros beidio â gwneud hynny. Wrth gynnig cyflenwi'r gwasanaethau cyhoeddus, ac wrth gyflenwi'r gwasanaethau hynny, rhaid i'r BBC weithredu ar sail deg, resymol ac anwahaniaethol.*[123]

Yn sgil hynny, mae gallu'r BBC i gyfyngu mynediad i BBC Three, neu i unrhyw Sianeli eraill y BBC, yn fach. Ar ben hynny, ac ystyried y rhagolygon ar gyfer cyfran gwylio cynyddrannol bach ar gyfer BBC Three, mae'n debyg na fyddai cymhellion y BBC i gyfyngu ar fynediad wedi newid wrth lansio'r sianel. I'r gwrthwyneb, mae'n amlwg mai cymhellion y BBC yw sicrhau bod y sianel ar gael mor eang â phosibl, nid cyfyngu ar argaeledd y sianel.

### 5.5.2 Cyfyngiadau ar fynediad at lwyfannau dosbarthu'r BBC

Ni fyddai'r BBC yn debygol o effeithio ar gystadleuaeth rhwng llwyfannau teledu drwy ei berchnogaeth rannol o Freesat, Freeview, Digital UK ac YouView. Cyfranddaliwr lleiafrifol yw'r BBC yn Freeview, Digital UK ac YouView, sy'n cyfyngu'n sylweddol ar ei allu i ddylanwadu ar gystadleuaeth drwy'r llwyfannau hyn. Mae'r BBC ac ITV yn gyd-gyfranddalwyr ar Freesat, er y bydd Digital UK yn prynu'r endid hwn yn y dyfodol agos ar ôl cael caniatâd ar gyfer rheoli a rheoleiddio'r uno. O ganlyniad, cyfranddaliwr lleiafrifol anuniongyrchol fydd statws

---

[123] Distribution of BBC public services: Ofcom's procedures and guidance, Ofcom, 29 Mawrth 2017, Paragraff 3.32. Edrychwch hefyd ar gymalau 61 a 62 Cytundeb y BBC.

y BBC yn Freesat, gan mai Digital UK (y bydd y BBC yn dal yn gyfranddaliwr ynddo) fydd rhiant-gwmni Freesat yn y pen draw. O ran Freesat ar hyn o bryd, gall pob cyfranddaliwr benodi nifer cyfartal o gyfarwyddwyr i'r bwrdd. Rhaid i benderfyniadau ynghylch strategaeth Freesat gael eu gwneud drwy gonsensws rhwng y BBC ac ITV, gan gyfyngu eto ar allu'r BBC i ddylanwadu ar gystadleuaeth drwy'r llwyfan hwn.

O ganlyniad, nid oes gan y BBC y gallu i weithredu'n unochrog dros y llwyfannau y mae'n gyd-berchennog arnynt. Ar ben hynny, ac ystyried y rhagolygon ar gyfer cyfran gwylio cynyddrannol bach ar gyfer BBC Three, mae'n debyg na fyddai cymhellion y BBC i gyfyngu ar fynediad i'w lwyfannau wedi newid wrth lansio'r sianel.

Yn sgil yr uchod, rydym ni'n dod i'r casgliad y byddai cynnig BBC Three yn annhebygol o gael effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol rhwng llwyfannau teledu.

# 6. Prawf Budd y Cyhoedd

## 6.1 Y Cefndir

Mae’r Siarter a’r Cytundeb yn gosod nifer o rwymedigaethau ar y BBC pan fyddai’n dymuno gwneud newidiadau i'w wasanaethau cyhoeddus yn y DU. Yn benodol, mae'r Cytundeb[124] yn mynnu mai dim ond ar yr amodau canlynol caiff y BBC wneud newid sylfaenol i'w wasanaethau cyhoeddus yn y DU:

- Mae'r BBC wedi cynnal Prawf Budd y Cyhoedd ar y newid arfaethedig;
- Mae'r BBC wedi penderfynu bod Prawf Budd y Cyhoedd wedi'i fodloni;
- Mae Ofcom yn penderfynu y caiff y BBC gyflawni'r newid arfaethedig.

Mae newid sylfaenol wedi'i ddiffinio i gynnwys y canlynol:

(a) cyflawni unrhyw weithgaredd fel Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU;

(b) unrhyw newid i Wasanaeth Cyhoeddus yn y DU a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Mae'r Cytundeb[125] hefyd yn esbonio beth sy'n rhan o Brawf Budd y Cyhoedd. Yn benodol, rhaid i'r BBC fod yn fodlon:

- Bod y newid arfaethedig i wasanaethau cyhoeddus yn y DU yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r Genhadaeth ac o hyrwyddo un neu fwy o Ddibenion Cyhoeddus y BBC;
- Ei fod wedi cymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr na chaiff y newid arfaethedig unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol lle nad yw hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn effeithiol;
- Bod gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Ar ben hynny, mae'r Cytundeb hefyd yn mynnu bod y BBC, wrth gynnal Prawf Budd y Cyhoedd, yn ystyried hyd a lled a thebygolrwydd unrhyw werth cyhoeddus o'i gymharu â hyd a lled a thebygolrwydd unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Ceir cydnabyddiaeth y bydd rhaid cynnal asesiadau ansoddol er mwyn gwneud y penderfyniad, ac efallai na fydd y ffactorau sy'n ymwneud â gwerth cyhoeddus yn gallu cael eu cymharu’n uniongyrchol â'r ffactorau sy'n ymwneud â chystadleuaeth deg ac effeithiol.[126]

[124] Cymal 7, Cytundeb y BBC.
[125] Cymal 8(1), Cytundeb y BBC.
[126] Cymal 8(2), Cytundeb y BBC.

Isod, rydym wedi nodi canfyddiadau ein Prawf Budd y Cyhoedd yng ngoleuni'r broses ymgynghori a'r ymchwil a'r dadansoddiad rydym wedi'u cynnal.

## 6.2 A yw'r newid arfaethedig yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r Genhadaeth ac o hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus?

Mae ein dadansoddiad – sy'n seiliedig ar ein hymchwil cynulleidfa a gynhaliwyd gan MTM, ymatebion i'n hymgynghoriad, a gwaith modelu o'r defnydd – yn dangos y bydd gwerth cyhoeddus ein cynigion yn amlwg yn uchel – gwerth personol, gwerth cymdeithasol a gwerth i ddiwydiant. Yn benodol, bydd sianel deledu newydd BBC Three yn galluogi'r BBC i gyflawni ein Cenhadaeth ac i hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn well:

- Bydd y cynigion yn cefnogi'r genhadaeth drwy wasanaethu cynulleidfa (pobl 16-34 oed) na fyddai'n cael ei gwasanaethu'n ddigonol gan y BBC fel arall;
- Bydd y cynigion yn darparu rhaglenni newyddion a materion cyfoes i gynulleidfaoedd iau ar sianel benodol (y diben cyhoeddus cyntaf – newyddion a gwybodaeth ddiduedd);
- Mae cynulleidfaoedd yn teimlo y bydd y sianel yn cefnogi'r ail ddiben cyhoeddus (dysgu ar gyfer pobl o bob oed) drwy ei rhaglenni dogfen amrywiol, ac yn tynnu sylw at faterion amserol fel iechyd meddwl a heriau'r farchnad swyddi;
- Bydd sianel deledu BBC Three yn dangos yr "allbwn mwyaf creadigol a neilltuol sydd o'r ansawdd gorau" (y trydydd diben cyhoeddus). Bydd gan y sianel amrywiaeth ehangach o genres, cyfran is o raglenni wedi'u prynu, a chyfran uwch o gynyrchiadau gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf nag unrhyw sianel debyg; ac
- Mae pwyslais golygyddol y sianel newydd yn ddeniadol i gynulleidfaoedd y tu allan i Lundain, i gynulleidfaoedd C2DE iau ac i gynulleidfaoedd BAME iau.

Felly, mae'r BBC yn fodlon y bydd gwerth cyhoeddus ein cynigion ar gyfer sianel ddarlledu newydd BBC Three yn uchel, ac y bydd y cynigion yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r Genhadaeth ac o hyrwyddo'r holl Ddibenion Cyhoeddus.

## 6.3 A yw'r BBC wedi cymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr na chaiff y newid arfaethedig unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol lle nad yw hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn effeithiol?

I benderfynu pa gamau rhesymol y mae angen eu cymryd o bosibl er mwyn osgoi unrhyw effaith niweidiol ddiangen ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, rhaid dweud pa effeithiau niweidiol allai ddeillio o'r newidiadau arfaethedig (ac os oes rhai, a ydynt yn angenrheidiol er mwyn cyflawni Cenhadaeth y BBC a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus yn effeithiol).

Fel y nodir yn Adran 5, mae ein dadansoddiad yn awgrymu mai dim ond effaith weddol fach fydd sianel deledu newydd BBC Three yn ei chael ar refeniw cystadleuwyr masnachol, ac felly ei bod yn annhebygol o gael effaith niweidiol ar strwythur cystadleuaeth nac ar gymhellion cystadleuwyr i fuddsoddi mewn rhaglenni a gwasanaethau, yn gyffredinol neu'n fwy penodol ar gyfer y gynulleidfa darged.

Yng ngoleuni ymatebion rhanddeiliaid a'r dystiolaeth rydym wedi'i chasglu drwy ymchwil cynulleidfa a dadansoddiad economaidd, mae'r BBC wedi ystyried a oes unrhyw gamau rhesymol y mae angen i'r BBC eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, lle nad yw hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn effeithiol.

Yn benodol, rydym wedi egluro ein cynnig golygyddol a sut bydd yn unigryw ac yn cyd-fynd â darpariaeth cystadleuwyr masnachol. Rydym hefyd wedi gwrando ar ddarlledwyr masnachol a llwyfannau dosbarthu o ran safle’r sianel newydd ar yr EPG, ac rydym wedi datblygu ein cynigion er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar sianeli eraill.

Felly o ran y graddau y gallai ein cynigion terfynol gael rhywfaint o effaith ar ein cystadleuwyr, mae'r BBC yn fodlon y byddai'r effaith hon yn fach iawn, ac na ellir ei lleihau ymhellach heb beryglu llwyddiant sianel deledu newydd BBC Three a’r gwerth cyhoeddus a fydd, yn ôl ein dadansoddiad, yn deillio o’r gwelliant hwn i’n gwasanaethau. Felly, rydym ni o'r farn mai ein cynigion terfynol yw'r camau lleiaf sydd eu hangen er mwyn cyflawni ein Cenhadaeth a hyrwyddo’r Dibenion Cyhoeddus.

## 6.4 A yw gwerth cyhoeddus y newidiadau arfaethedig yn cyfiawnhau’r effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol?

Yn sgil ein canfyddiadau ynghylch gwerth cyhoeddus y cynnig a’r effaith debygol ar y farchnad, rydym felly’n fodlon bod ein cynnig ar gyfer sianel deledu newydd BBC Three yn sicrhau’r cydbwysedd priodol rhwng cynnig gwell gwasanaeth i gynulleidfa nad yw’n cael ei gwasanaethu’n ddigonol ar hyn o bryd, a thrwy hynny sicrhau gwell gwerth am ffi’r drwydded, gan beidio â chyfyngu ar allu’r farchnad ehangach i gynhyrchu refeniw ac i arloesi. Nid yw'n arwain at lefel o risg o effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol sy'n golygu ei bod yn rhaid i ni asesu ymhellach bwys cymharol y naill a’r llall, fel y mae'r elfen hon o'r prawf yn mynnu.

## 6.5 Casgliad

Fel sy’n cael ei egluro’n fanwl yn y ddogfen hon a’i grynhoi uchod, mae’r BBC yn fodlon bod holl elfennau Prawf Budd y Cyhoedd yn cael eu bodloni mewn perthynas â sianel deledu newydd BBC Three. Rydym ni o'r farn y bydd y sianel newydd yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni’r genhadaeth a hyrwyddo’r dibenion cyhoeddus, yn creu gwerth cyhoeddus uchel, ac yn cael effaith weddol fach, fan bellaf, ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

## Atodiad 1: Modelu'r lefelau gwylio disgwyliedig ar gyfer BBC Three, ac effaith hynny ar y farchnad

[Dogfen wedi'i chyhoeddi ar wahân]

## Atodiad 2: Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Ym mis Mawrth 2021, cychwynnodd y BBC ymgynghori ynghylch cynlluniau i ail-lansio BBC Three fel sianel deledu ym mis Ionawr 2022.

Pwrpas ein hymgynghoriad oedd ceisio barn, gan randdeiliaid y diwydiant yn bennaf, i'n helpu i fireinio ein cynigion. Roedd hwn yn gam angenrheidiol, gan fod angen i ni gynnal dadansoddiad da o werth cyhoeddus ein cynigion yn ogystal â'r effaith bosibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, fel sy'n ofynnol yn ôl Prawf Budd y Cyhoedd.

Cafodd y BBC 22 o ymatebion, yn bennaf gan randdeiliaid yn y diwydiant, gan gynnwys darlledwyr eraill, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (DGC) a darlledwyr masnachol; gweithredwyr teledu drwy dalu; cyrff sy'n cynrychioli deiliaid hawliau; llwyfannau; academyddion polisi cyfryngau a nifer o grwpiau cynulleidfaoedd a diwydiant. Os oes caniatâd wedi'i roi, mae'r ymatebion hyn wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen Prawf Budd y Cyhoedd hon. Cyflwynodd nifer o randdeiliaid ymatebion cyfrinachol. Mae'r pwyntiau a godwyd ganddynt yn ddienw ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ddogfen Prawf Budd y Cyhoedd hon.

Yn yr Atodiad hwn, rydym yn crynhoi'r ymatebion hyn yn ôl themâu allweddol a godwyd, ac yn ôl ymatebwyr.

### Ymatebion gan y cyhoedd

Cawsom 5 ymateb gan aelodau'r cyhoedd, sy'n berthnasol i gwmpas Prawf Budd y Cyhoedd. O'r rhain, roedd cefnogaeth lwyr i'r newidiadau rydym yn eu cynnig. Dywedodd bron pob un o'r ymatebwyr cyhoeddus eu bod yn fodlon i weld sianel linol BBC Three yn ei hôl, ac roeddent yn cytuno y byddai sianel BBC Three o fudd mawr i gynulleidfaoedd iau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Roedd consensws y byddai sianel ddarlledu BBC Three yn cynnig gwerth cyhoeddus – gyda sylwadau ar sicrhau'r un gwerth i bawb, cynrychiolaeth ar draws y DU, a sicrhau bod cynnwys amrywiol, arloesol ac unigryw y sianel ar gael fwyfwy.

Dywedodd ymatebwyr cyhoeddus y byddai cynnig mwy a mwy o gynnwys BBC Three ar deledu llinol y telir amdano gydag arian pobl sy'n talu ffi'r drwydded, yn sicr o fudd i wylwyr. Roedd rhai o'r ymatebion yn ymestyn yr ymdeimlad hwn o werth i'r diwydiant creadigol yn gyffredinol – gan ddweud y byddai sianel yn dod â buddsoddiad ar draws y DU i gwmnïau annibynnol, yn enwedig yn y rhanbarthau y tu allan i Lundain. Cafwyd sylwadau gan y cyhoedd am y cyfle unigryw y byddai sianel ddarlledu BBC Three yn ei gael i gynrychioli bywyd a diwylliant Prydain yn ei holl amrywiaeth. Nid oedd yr ymatebwyr yn gweld bod cystadleuwyr presennol yn y DU (fel ITV2 neu E4) na gwasanaethau SVOD byd-eang fel Netflix yn darparu'r math hwn o gynnwys amrywiol a chynrychioladol, ac felly roeddent yn croesawu'r cynnig fel ffordd o lenwi'r bwlch hwn yn y farchnad.

Roedd consensws yn ymatebion y cyhoedd na fyddai sianel ddarlledu BBC Three yn cael effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Soniwyd yn yr ymatebion am yr oriau cyfyngedig y byddai'r sianel ar yr awyr; yr effaith gadarnhaol ar y diwydiant creadigol yn gyffredinol; a'r cymhelliant i ddarlledwyr eraill sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc wella'r hyn maen nhw'n ei gynnig, wrth ailgyflwyno BBC Three i'r ddarpariaeth teledu llinol. Ymysg yr ymatebion roedd galwadau am i sianel ddarlledu BBC Three fod ymysg y safleoedd uchaf ar yr EPG.

## Adborth rhanddeiliaid

Roedd ymatebion rhanddeiliaid yn gymysg o ran eu croeso i'r cynnig, er bod y rhan fwyaf o'r ymatebion yn mynegi adborth neu bryderon ynghylch meysydd tebyg. Roedd y rhain yn cynnwys:

- BBC Three yn dychwelyd i deledu llinol, a pha mor addas yw'r cyfrwng hwn i gyrraedd cynulleidfaoedd iau
- Cynrychiolaeth ac Amrywiaeth o Leisiau
- Ymrwymiadau y tu allan i Lundain
- Prynu, Comisiynu ac Ailadrodd
- Cymysgedd Genre
- Tryloywder Perfformiad y sianel newydd
- EPG: Lleoliad ac Amlygrwydd
- Cyllidebau, Tariffau a Hawliau
- Newidiadau i CBBC

Rydym felly yn ystyried yr ymatebion sy'n ymwneud â phob un o'r meysydd hyn.

### *Cynulleidfaoedd Iau a Theledu llinol*

Mewn nifer o ymatebion gan randdeiliaid, roeddent yn credu bod gweld BBC Three yn dychwelyd yn achos dathlu: gan ailddatgan eu gwrthwynebiadau cynharach i gau'r sianel a hyrwyddo ei hail-lansio ar deledu llinol. Roedd ymatebwyr eraill – darlledwyr eraill yn bennaf – o'r farn bod y cynnig yn dro pedol, ac yn brawf o gysyniad diffygiol y cynnig: gan ofyn i'r BBC gyfiawnhau'r hyn a oedd wedi newid yn ei resymeg ers y penderfyniad cynharach.

Roedd nifer o ymatebwyr (yn enwedig sefydliadau hawliau, academyddion cyfryngau a grwpiau cynulleidfaoedd) yn cytuno bod arferion llinol cryf yn parhau ymysg pobl 16-34 oed ac nad yw'r grŵp oedran hwn yn cael ei wasanaethu'n ddigonol yn y ddarpariaeth linol bresennol. Ymysg yr ymatebwyr hyn, roedd rhywfaint o gonsensws ynghylch gwerth cyhoeddus darparu cynnwys BBC Three ar sianel ddarlledu benodol o ran sicrhau'r un gwerth i bawb a hygyrchedd – ac yng ngoleuni'r bylchau digidol presennol sydd wedi gwaethygu yn sgil y pandemig.

Roedd Pact yn cydnabod bod cyfran sylweddol o bobl 16-34 oed yn parhau i wylio teledu llinol ac y byddent yn elwa o ailgyflwyno BBC Three ar deledu llinol. Yn yr un modd, roedd Directors UK yn cydnabod y manteision y gallai sianel ddarlledu BBC Three eu cynnig i gynulleidfa o dan 35 oed ledled y DU – yn enwedig y rheini nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan y BBC neu sydd â diffyg mynediad at wasanaethau digidol.

Roedd yr Athro Patrick Barwise yn cytuno â gwerth cyhoeddus sianel ddarlledu BBC Three, y byddai'n cynyddu'r defnydd yn gyffredinol, ond rhybuddiodd yn erbyn canolbwyntio ar bobl dan 35 oed ar draul pob cynulleidfa arall; gan ddadlau y gallai cynnwys ag apêl eang wasanaethu'r gynulleidfa hon heb leihau cyrhaeddiad na chynyddu'r gost fesul awr defnyddiwr.

Roedd Writers Guild of Great Britain (WGGB) wedi canolbwyntio ar gyd-destun presennol pandemig Covid19, gan ddadlau bod hyn wedi tynnu sylw at y bwlch digidol presennol yn y DU. Gan ystyried bod yr argyfwng yn debygol o rewi neu ehangu'r anghydraddoldebau hyn o ran mynediad yn y tymor hwy, cytunodd y gallai sianel ddarlledu BBC Three fod yn fodd o lenwi'r bwlch hwn.

Ategwyd hyn gan yr Ymddiriedolaeth Ddarlledu Ryngwladol (IBT): gan gytuno mai gorau po fwyaf hygyrch yw cynnwys y BBC i'w gynulleidfaoedd. Roedd Voice of the Listener and Viewer (VLV) hefyd yn gweld manteision y cynnig i'r gynulleidfa darged – gan gytuno ei fod yn ffordd effeithiol i'r BBC gyflawni ei genhadaeth o ran darparu cynnwys i holl boblogaeth y DU.

Roedd British Film Institute (BFI) yn cytuno bod cynulleidfa C2DE 16-34 oed y tu allan i Lundain yn dal i wylio teledu llinol yn gyson, ac y gallai'r rheini sydd â llai o fynediad at wasanaethau digidol elwa o BBC Three fel sianel ddarlledu bwrpasol, gan ehangu'r amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael i'r gynulleidfa hon. Roedd hefyd yn gweld y fantais o gyrraedd cynulleidfa 13-15 oed cyn y trothwy. Roedd Children's Media Foundation (CMF), Directors UK a WGGB hefyd yn croesawu, mewn egwyddor, uchelgais y BBC i gyrraedd cynulleidfa eang o bobl ifanc o dan 16 oed a amlinellir yn y cynnig.

I'r gwrthwyneb, roedd ymatebwyr eraill – gan gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darlledwyr teledu drwy dalu – yn fwy amheus o strategaeth deledu llinol newydd fel ffordd o gyrraedd cynulleidfaoedd iau.

Roedd Channel 4 yn anghytuno â chynnig 'unigryw' BBC Three ar deledu llinol i gynulleidfa 16-34 oed, gan ddadlau bod ei phortffolio ei hun eisoes yn cynnig gwasanaeth cyhoeddus o werth uchel, a chynnwys ar draws y DU i'r grwpiau targed.

Roedd ymatebydd teledu drwy dalu yn ategu'r dadleuon hyn, gan ofyn i'r BBC am brawf bod ei gynnig yn wir yn unigryw i'r farchnad ac am brawf a oedd yn dangos nad oedd y gynulleidfa darged eisoes yn cael ei gwasanaethu gan bortffolio Channel 4 a brandiau eraill sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc (er enghraifft, Comedy Central ac ITV2). Roedd yr ymateb hwn yn codi pryderon hefyd y gallai sianel ddarlledu BBC Three droi gwylwyr hŷn oddi wrth sianeli eraill yn anfwriadol.

Roedd Channel 4 ac ymatebwyr eraill – gan gynnwys yr Youth, Media and Culture Network, y Gymdeithas Darlledwyr Masnachol (COBA), ymatebydd teledu drwy dalu a Sam Barcroft – yn cwestiynu'r dull o gyrraedd y gynulleidfa darged drwy sianel linol.

Gofynnodd ymatebydd teledu drwy dalu am dystiolaeth a oedd yn dangos bod amcanestyniadau'r BBC yn 2015 y byddai fwy o gynulleidfa ifanc ar-lein, yn anghywir. Yn yr un modd, gofynnodd Channel 4 am eglurder ynghylch maint a graddfa'r gynulleidfa linol darged, wrth ystyried y dimensiynau lu a amlinellwyd (er enghraifft, cynulleidfaoedd rhanbarthol, cynulleidfaoedd C2DE, cynulleidfaoedd â diffyg mynediad digidol) – gan gwestiynu a oedd y ffigur c3.5M a amlinellwyd yn cynnwys yr holl newidynnau hyn, neu a oedd y cynulleidfaoedd targed hyn ar wahân.

Roedd COBA, Channel 4 a'r Youth, Media and Culture Network ymysg yr ymatebwyr a gododd y gostyngiad yn yr arferion gwylio llinol ymysg cynulleidfaoedd iau. Gofynnwyd a oedd dewisiadau eraill digidol yn gyntaf wedi cael eu hystyried, gyda Channel 4 ac ymatebydd teledu drwy dalu yn cwestiynu'n benodol a oedd gwaith gwrthffeithiol wedi cael ei wneud gan y BBC wrth asesu strategaeth barhaus ar gyfer darpariaeth iPlayer yn unig. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch a fyddai cefnogaeth ategol gan bortffolio llinol ehangach y BBC, defnyddio hawliau eilaidd drwy Netflix, y cyfryngau cymdeithasol neu YouTube a pharhau i fuddsoddi mewn darpariaeth iPlayer, yn diwallu anghenion y grŵp targed hwn yn well na bod BBC Three yn dychwelyd fel sianel ddarlledu. Yn ei ymateb, dywedodd Sam Bancroft hefyd y byddai'n dda cael strategaeth arall o ddefnyddio trydydd parti i ddosbarthu rhaglenni yn lle sianel ddarlledu.

Roedd Channel 4 yn annog y BBC i fanteisio ar ei safle fel y rhai a ddylai fynd ati'n gyntaf i ehangu gwasanaethau fideo ar-alw, gan brofi a mireinio'r broses o symud i ddulliau digidol, a pharatoi'r ffordd i'r farchnad fasnachol ddilyn.

### *Cynrychiolaeth ac Amrywiaeth o Leisiau*

Roedd y BFI yn croesawu gweledigaeth olygyddol y cynnig – gan ddadlau y byddai BBC Three, fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, yn cael cyfle i fod yn fwy cynrychioliadol o fywydau ar draws y DU nag y byddai'r farchnad fasnachol fyd-eang yn ei ganiatáu. Roedd yn gweld y cynnig 'ffenestr siop' ar gyfer y sianel fel ffordd o ehangu gorwelion a gweithredu fel ateb i'r 'siambrau adleisio' sy'n rhoi pwyslais ar algorithm, sydd i'w gweld yn amlwg mewn gwasanaethau digidol.

Roedd BFI o'r farn y byddai'r amrywiaeth o gynnwys a amlinellwyd gan BBC Three yn y cynnig yn annog buddsoddiad ehangach mewn cynnwys ar gyfer pobl 16-34 oed gan gystadleuwyr llinol y DU: gan wella ansawdd ac amrywiaeth y cynnwys sydd ar gael i'r gynulleidfa hon, ac felly cael effaith gadarnhaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Roedd rhai o'r ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd yn ategu hyn, ac yn gweld y sianel fel cymhelliant i ddarlledwyr eraill wella'r hyn maen nhw'n ei wneud.

Yn wahanol i'r pwynt hwn, roedd Channel 4 yn dadlau y byddai gweledigaeth a chylch gwaith golygyddol arlwy llinol BBC Three yn anghymesur o niweidiol i bortffolio Channel 4: gan achosi iddi golli cyfran a chwyddiant prisiau a niweidio cyd-ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus heb fanteision amlwg i'r gynulleidfa.

Roedd ymatebydd arall o blith darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar y teledu yn croesawu gweledigaeth y cynnig o ran cynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd amrywiol – gan awgrymu y gellir gwneud hyn drwy gomisiynu drama barhaus yng nghanol un o gymunedau lleiafrifol y DU yn un o wledydd neu ranbarthau'r DU. Er hynny, mynegodd bryderon ynghylch y gyllideb sydd ar gael i wneud hynny.

### *Y tu allan i Lundain*

Roedd llawer o ymatebwyr yn croesawu dyheadau BBC Three i gefnogi a gweithio mewn partneriaeth â chynhyrchwyr annibynnol y tu allan i Lundain, a chyda chydweithwyr y BBC ei hun yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau.

Roedd Directors UK yn cefnogi'r targed bod dwy ran o dair o gomisiynau wedi'u gwneud y tu allan i Lundain, ar yr amod nad strategaeth 'codi a symud' talentau presennol o'r brifddinas oedd hon. Roedd yn galw hefyd am wneud buddsoddiadau gwirioneddol y tu allan i Lundain – yn y cymorth a gynigir yn ogystal ag o ran taliadau ariannol a hawliau. Yn eu hymatebion, roedd WGGB a Pact yn ategu'r angen am gefnogaeth a thaliadau teg, gyda WGGB yn galw am i awduron a phobl greadigol o bob grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol elwa o'r uchelgais hon ledled y DU. Ategodd yr Athro Jonathan Hardy y teimlad hwn, gan rybuddio y gallai canolbwyntio ar gynulleidfaoedd C2DE yn unig arwain at risg o fwyafrifyddiaeth (majoritarianism) ddiwylliannol, gan alw ar BBC Three i ystyried yn ofalus ei gynrychiolaeth o gymunedau rhanbarthol ac i gynnwys eu cyfansoddiad cymhleth.

Aeth Channel 4 a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill gam ymhellach o ran y cynnig ledled y DU, gan alw am i 100% o gomisiynau a chynyrchiadau ar gyfer sianel ddarlledu BBC Three fod o'r tu allan i Lundain, gan ddadlau y dylai hyn fod yn ymrwymiad os yw'r BBC o ddifrif am gynrychiolaeth.

Awgrymodd yr Youth, Media and Culture Network y dylid creu partneriaethau rhwng y BBC yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau, fel cydweithredu â *BBC Sesh* yng Nghymru.

### *Prynu, Comisiynu ac Ailadrodd*

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn croesawu uchafbwyntiau'r cynnwys a gynigir. Roedd y rhaglenni a brynwyd, dull comisiynu ar gyfer yr iPlayer yn gyntaf, a nifer yr ailddarllediadau o ddiddordeb penodol i'r rhanddeiliaid.

Roedd Channel 4 yn anghytuno bod angen unrhyw raglenni sy'n cael eu prynu gan BBC Three, ac ystyried bod y sianel yn y cynnig yn cadw pellter amlwg oddi wrth y dangosyddion perfformiad allweddol ynghylch ffigurau gwylio a'r effaith niweidiol y byddai rhaglenni sy'n cael eu prynu yn ei chael ar y farchnad ehangach.

Yn yr un modd, roedd ymatebydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi gofyn i BBC Three ymrwymo i beidio â chael rhaglenni wedi'u prynu o'r Unol Daleithiau ar sianel linol ar y sail y gallai hyn wanhau cyswllt diwylliannol y DU a rhoi pwysau cystadleuol diangen ar ddarlledwyr eraill.

Galwodd Pact a Directors UK am gynlluniau cliriach ynghylch tariffau, ffenestri hawliau a breindaliadau ar gyfer BBC Three mewn ymateb i'r bwriad i barhau â dull comisiynu ar gyfer iPlayer yn gyntaf.

Gofynnodd Pact am sicrwydd gan y BBC na fyddai unrhyw gomisiynu drws cefn i BBC One neu Two drwy dariffau iPlayer yn gyntaf BBC Three, ac y dylid trafod yn gynnar ynghylch trosglwyddo uchafbwyntiau cynnwys BBC Three. Roedd darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn ategu'r pryderon bod rhaglenni sy'n cael eu dangos yn gyntaf ar BBC Three ac wedyn ar draws portffolio ehangach y BBC yn ffordd o gyrraedd mwy o bobl, gan ofyn i'r BBC ymrwymo i osgoi hyn.

Nid oedd Channel 4 yn deall pam mae bwriad i ailddarlledu cymaint, o gofio beth yw maint cyllideb BBC Three. Adleisiodd Directors UK y pryder hwn, gan nodi faint o ailddarllediadau y bwriedir eu dangos a chwestiynu'r effaith bosibl y byddai hyn yn ei chael ar greu rhaglenni gwreiddiol.

### *Cymysgedd genre*

Roedd Directors UK, yr Media and Culture Network, BFI a CMF ymysg y rheini a oedd yn galw am gynlluniau clir, gofalus a phendant ar gynnwys i'r grŵp 13-15 oed fod yn rhan o gynlluniau BBC Three: gan gynnwys rhagor o fanylion am gomisiynu, y gyllideb a darpariaeth ar benwythnosau.

Roedd IBT yn poeni nad oedd cyfeiriadau penodol at Faterion Cyfoes Rhyngwladol yn y cymysgedd cynnwys a gynigir. Tynnodd sylw at werth cael y cymysgedd hwn yn amserlen linol BBC Three, gan ddadlau bod llawer o'r heriau y mae'r DU yn eu hwynebu (newid yn yr hinsawdd a Covid-19) yn rhai byd-eang, ac felly bod materion cyfoes rhyngwladol yn bwysicach nag erioed wrth dynnu sylw'r cyhoedd yn y DU at y byd ehangach. Byddai hefyd yn gwylio rhag y perygl y byddai'r DU yn edrych mwy am i mewn ers ymadael â'r UE. Roedd VLV yn cwestiynu hefyd y diffyg darpariaeth yn y cynnig ar gyfer cynnwys materion cyfoes neu gynnwys ffeithiol rhyngwladol – gan ddweud y byddai'n fuddiol cyfeirio'n benodol at y genre hwn yn y cynnig.

Cafodd yr angen am gynnwys rhyngwladol a materion cyfoes ei adlewyrchu yn yr ymatebion gan yr Athro Jonathan Hardy, a rhai ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd.

### *Tryloywder Perfformiad*

Galwodd ymatebydd o blith y darlledwyr am ddigon o dryloywder ynghylch perfformiad y sianel, gan alw am ddata ystyrlon ar oedran canolrif a chyrhaeddiad ymysg y gynulleidfa ifanc, cynulleidfa C2DE a chynulleidfaoedd Gwledydd a Rhanbarthau sy'n cael eu targedu.

Ategwyd hyn gan ymatebydd o'r diwydiant teledu drwy dalu, a ofynnodd i'r BBC ddangos y cyrhaeddiad disgwyliedig, oriau gwylio a chyfran gwylio ymysg y gynulleidfa darged i gyfiawnhau ei gynnig.

Yn yr un modd, gofynnodd Channel 4 am fodel ar gyfer cyrhaeddiad a maint y gynulleidfa hon yn y segmentau rhestredig hyn: gan ddadlau bod y gynulleidfa y mae'r BBC yn bwriadu ei thargedu ar gyfer sianel ddarlledu Three yn rhy fach i sicrhau effeithiau cadarnhaol i'r gynulleidfa ar raddfa a fyddai'n fwy na'r effeithiau niweidiol ar y sianeli teledu llinol.

### *EPG: Lleoliad ac Amlygrwydd*

Roedd rhaniad amlwg yn yr ymatebion gan randdeiliaid ynghylch lleoliad sianel ddarlledu BBC Three ar yr EPG. Er bod rhai rhanddeiliaid wedi galw ar i BBC Three gael lle amlwg ar yr EPG, roedd ymatebion eraill yn mynegi pryder penodol y gallai unrhyw ddisodli darfu ar ddarlledwyr eraill (a chynulleidfaoedd) ac effeithio ar y farchnad. Mynegwyd pryderon hefyd gan gystadleuwyr ynghylch cyfnewid slotiau EPG o fewn portffolio'r BBC, ar ôl lansio.

Roedd Directors UK o blaid rhoi safle amlwg i sianel linol BBC Three ar yr EPG, fel ffordd bwysig o sicrhau ei bod yn hwylus a'i bod yn hawdd dod o hyd iddi. Yn yr un modd, byddai IBT, VLV a WGGB yn awyddus i weld sianel ddarlledu BBC Three yn cael lle amlwg. Ategwyd gan yr Athro Jonathan Hardy ac mewn ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd.

Roedd COBA wedi mynegi pryderon difrifol am effaith sianel BBC Three arfaethedig ar y farchnad, o ran costau ac effaith y newidiadau yn yr EPG ar ddarlledwyr llai, yn enwedig yn dilyn ad-drefnu cynharach yr amserlen o dan arweiniad y rheoleiddiwr yn 2019.

Rhoddodd ymatebydd o'r diwydiant teledu drwy dalu gyd-destun y newidiadau rheoleiddio yn 2019. Nododd fod y cyfnod wedi creu costau ychwanegol ac wedi tarfu a chreu ansicrwydd dros gyfnod hir i ddarparwyr, darlledwyr a defnyddwyr – gan nodi'r effaith anghymesur roedd y newidiadau blaenorol wedi'i chael ar wylwyr hŷn a bregus. Felly, nid oedd yn credu ei bod yn rhesymol nac yn gymesur i ddarparwyr EPG ddiwygio rhestrau sianeli eto er mwyn rhoi safle amlwg i BBC Three. Mynegodd bryderon ynghylch cystadleuaeth, gan ddweud nad oedd slotiau gwag yn y 24 safle uchaf, ac na fyddai'n ail-negodi cytundebau darlledu sianeli gyda darlledwyr i gyd-fynd â'r newid. Dywedodd yr ymatebydd mai'r BBC oedd wedi creu'r broblem hon, gan ddadlau mai'r gorfforaeth ei hun ddylai ei datrys o fewn ei phortffolio EPG presennol.

Ategwyd hyn gan ymatebydd arall o'r diwydiant teledu drwy dalu, a ddywedodd fod problemau ychwanegol i ddarparwyr o ran rhoi safle amlwg ledled y DU – yn enwedig Cymru a'r Alban. Yn yr un modd, galwodd am asesiad o effaith disodli

safleoedd EPG ar y farchnad: gan ganolbwyntio ar golli refeniw a chyfran gwylio, yn ogystal ag ar faich gwariant ychwanegol ar ddarparwyr a sianeli eraill.

Gofynnodd Channel 4 am i waith ar yr effaith ar y farchnad gael ei wneud ynghylch lleoliad ac amlygrwydd BBC Three ar yr EPG – yn enwedig yr effeithiau a allai fod pe bai'r BBC yn cyfnewid y sianel hon yn nes ymlaen gydag un arall (er enghraifft, BBC Four) ar ôl ei lansio. Fel arall, galwodd Channel 4 am warant y byddai BBC Three yn aros yn slot 24 ar yr EPG. Ategwyd hyn gan ymatebydd arall o blith darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar y teledu.

### *Cyllidebau, Tariffau a Hawliau*

Cwestiynodd COBA y cyfiawnhad ariannol dros sianel linol BBC Three, gan dynnu sylw at y penderfyniad yn 2015 i gau Three ar sail torri costau a'r newidiadau a'r gostyngiadau mwy diweddar i bortffolio ehangach y BBC ar deledu llinol, gan gynnwys symud BBC Four i fod yn sianel archif yn unig; a'r farchnad.

Ail-bwysleisiodd COBA y costau y byddai sianel linol BBC Three yn eu gosod ar ddarlledwyr eraill, yn enwedig pe byddai slotiau EPG yn cael eu disodli. Mynegodd darparwyr eraill bryderon hefyd ynghylch costau i ddarparwyr a darlledwyr o ran safle sianel BBC Three ar yr EPG.

Roedd Channel 4 yn dadlau y byddai'n well i'r gyllideb uwch ar gyfer BBC Three gael ei gwario ar y strategaeth bresennol ar greu rhaglenni gwreiddiol, canolbwyntio ar iPlayer a chynnwys wedi'i ddangos am y tro cyntaf ar draws portffolio llinol presennol y BBC, yn hytrach nag agor a gweithredu sianel linol. Aeth ymlaen i ddweud y byddai'n well pe byddai'r gwariant yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl ar raglenni gwreiddiol o ansawdd uchel.

Yn yr un modd, roedd yr Youth, Media and Culture Network yn cwestiynu'r dull buddsoddi ar gyfer cyllideb uwch BBC Three, gan awgrymu y byddai'n well gwario'r arian yn diwygio ac yn gwella ymarferoldeb a defnyddioldeb iPlayer er budd penodol cynulleidfaoedd iau.

O'i gymharu, croesawodd yr Athro Jonathan Hardy y cynnydd yng nghyllideb BBC Three. Dywedodd fod y cynnig yn gryf ar sail economaidd; gan ddadlau y byddai'r costau gweithredu yn gymharol fach o'u cymharu â'r gwerth cyhoeddus posibl. Fodd bynnag, yn yr ymateb hwn roedd yn galw hefyd am wneud targedau penodol ar gyfer y DU mewn perthynas â chomisiynu cynnwys gwreiddiol.

Mynegodd ymatebydd teledu drwy dalu rai pryderon y gallai cynnydd yng nghyllideb BBC Three ehangu'r cynnwys sydd ar gael ar BritBox drwy driniaeth ffafriol a ffenestri hawliau eilaidd: gan fygwth gwasanaethau ar-alw eraill.

Gofynnodd Pact am eglurder ynghylch cyllidebau comisiynu i BBC Three ar gyfer gwasanaethau ar-lein a llinol. Roedd yn galw am i nifer y rhaglenni gwreiddiol a fwriedir ar gyfer y sianel gael ei nodi yn y drwydded weithredu – gyda rhaniadau

ffurfiol, a sicrwydd y byddai'r targedau'n cael eu cyrraedd. Dywedodd Pact eto fod yn rhaid i'r Telerau Masnach fod yn berthnasol i'r holl gomisiynu, a gofynnodd am i becynnau hawliau newydd gael eu cynnig a fyddai'n caniatáu i gynhyrchwyr gadw a manteisio ar hawliau ar ôl y brif ffenestr. Gofynnodd am eglurder ynghylch tariffau ar-lein yn unig yn erbyn tariffau llinol, ac ynghylch gallu'r cynhyrchydd i gadw hawliau pan fydd y ffenestri hyn yn cael eu hymestyn neu eu newid.

Croesawodd Directors UK drafodaethau'r BBC â Pact a deiliaid hawliau eraill, a galwodd yn yr un modd am dâl teg o ran hawliau, gan gyfeirio'n benodol at gomisiynu rhaglenni iPlayer yn gyntaf, ffenestri hawliau estynedig a breindaliadau. Mynegodd rai pryderon ynghylch pwysau cyllidebol BBC Three, yn enwedig y pwysau y gallai hyn ei achosi'n is i lawr ar wneuthurwyr rhaglenni sy'n gwneud mwy am lai.

Roedd WGGB yn ategu'r angen am dâl a defnydd teg o hawliau ar gyfer ymarferwyr creadigol. Mynegodd bryderon ynghylch cynyddu cyllideb BBC Three drwy leihau'r gwariant ar gomisiynau drama BBC Two, gan alw hyn yn economi ffug.

### *Newidiadau i CBBC*

Heblaw am rai o'r pryderon comisiynu a oedd yn ymwneud â darpariaeth benodol BBC Three ar gyfer pobl ifanc o dan 16 oed – sy'n cael sylw uchod – roedd yr ymatebion ar y cyfan yn cefnogi'r cynlluniau i leihau oriau CBBC i ddarparu ar gyfer BBC Three.

Cytunodd BFI, CMF, Directors UK, WGGB a'r Youth, Media and Culture Network fod uchelgais BBC Three cyn y trothwy i gyrraedd pobl ifanc dan 16 oed yn cynnig cyfle i'r BBC wasanaethu cynulleidfa nad yw'n ei chyrraedd ar hyn o bryd. Roedd rhywfaint o gonsensws bod y budd hwn yn bwysicach na cholli darlledu a lefelau gwylio ar CBBC o fewn yr un oriau.

## Crynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd gan ymatebwyr

### Ymatebion Cyfrinachol gan Randdeiliaid

Cyflwynodd nifer o randdeiliaid y diwydiant ymatebion cyfrinachol i'r ymgynghoriad. Ceir crynodeb isod o'r prif bwyntiau a godwyd yn yr ymatebion hyn, gan sicrhau bod yr ymatebydd yn aros yn ddienw.

Roedd un darlledwr yn cytuno bod cau BBC Three ar deledu llinol yn 2016 wedi bod yn gamgymeriad, ond cododd faterion yn ymwneud ag ailgyflwyno'r sianel gan fod y farchnad wedi ail-addasu o amgylch ei habsenoldeb. Gyda hyn mewn golwg, dywedodd mai'r BBC ddylai ysgwyddo'r cyfrifoldeb o sicrhau bod cynnwys unigryw'n cael ei ddarparu, gan effeithio cyn lleied â phosibl ar y farchnad.

Mae'r ymatebydd hwn yn credu bod risg sylweddol y bydd ailgyflwyno BBC Three ar deledu llinol yn cael effaith ar y farchnad. Roedd yn annog y BBC i ymrwymo i amodau penodol, yr oedd wedi'u hamlinellu'n fanwl, er mwyn lleihau'r risg hon.

Roedd yr amod cyntaf yn galw ar BBC Three i ymrwymo i beidio â chael unrhyw gynnwys a brynwyd o'r Unol Daleithiau, ar y sail nad yw'n unigryw, ei fod yn gwanhau cyswllt diwylliannol y DU, ac yn rhoi pwysau cystadleuol diangen ar ddarlledwyr masnachol ym Mhrydain. Yr ail ymrwymiad yr oedd ei angen gan y BBC oedd na fyddai cynnwys BBC Three yn cael ei ddangos yn gyntaf ar BBC One, fel ffordd o ymestyn y gyfran. Roedd wedi mynegi pryder mawr am hynny, o ystyried strwythur comisiynu newydd y BBC: gan honni y byddai'r cam hwn yn lleihau'r natur unigryw ac yn golygu bod y gynulleidfa'n llai penodol, ac y byddai hefyd yn cael mwy o effaith ar y farchnad. Y trydydd amod oedd – os yw'r BBC o ddifrif am strategaeth ar draws y DU ar gyfer comisiynu a chynrychiolaeth ar BBC Three – y dylai ymrwymo i sicrhau bod pob un o gynyrchiadau'r sianel yn cael eu gwneud y tu allan i Lundain.

Roedd yr ymatebydd yn croesawu'r cynnig i gynrychioli a phortreadu cynulleidfaoedd amrywiol, ac yn awgrymu y gellid gwneud hyn drwy ddrama barhaus sydd wedi'i lleoli – er enghraifft – yng nghalon cymuned leiafrifol yn y DU yn un o wledydd neu ranbarthau'r DU, er bod rhywfaint o bryder ynghylch y gyllideb sydd ar gael i wneud hynny.

Roedd hefyd yn galw am dryloywder priodol ynghylch perfformiad sianel linol BBC Three, gan alw am ddata ystyrlon ar oedran canolrif a chyrhaeddiad ymysg y cynulleidfaoedd targed – y gynulleidfa ifanc, y gynulleidfa C2DE a chynulleidfaoedd yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau

Yn olaf, roedd yn dadlau y dylai BBC Three gael y safle isaf posibl sydd ei angen ar yr EPG er mwyn cyflawni ei siarter (ee, safle 24), ac y dylai'r BBC gadw at yr ymrwymiad na fydd yn cyfnewid safleoedd ar yr EPG er mwyn BBC Three ar ôl ei lansio (er enghraifft, gyda BBC Four), o ystyried yr effaith niweidiol y byddai hyn yn ei chael ar y farchnad.

O blith yr ymatebwyr teledu drwy dalu, galwyd am dystiolaeth gan y BBC y byddai gwerth cyhoeddus i'r cynnig i lansio sianel linol BBC Three. Gofynnodd ymatebydd teledu drwy dalu am brawf y byddai'r cynnig hwn yn unigryw i'r farchnad, ac na fyddai'n rhan o gylch gwaith portffolio Channel 4 a brandiau eraill sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc. Roedd yn galw ar y BBC i egluro a chyfiawnhau'r tro pedol ar y penderfyniad a wnaed yn 2015 i symud BBC Three ar-lein, o ystyried bod yr amcanestyniadau a wnaed ar y pryd – o gynulleidfaoedd iau yn troi at dechnoleg ddigidol – yn gywir, ac roedd yn cwestiynu'r broses reoleiddio a oedd wrth wraidd y penderfyniad yn 2015 a'r cynnig presennol. Roedd yn galw ar Ofcom i ymrwymo i Asesiad Cystadleuaeth llawn.

Gofynnodd yr ymatebydd i'r BBC ddarparu tystiolaeth yn dangos bod ei amcanestyniadau yn 2015, ynghylch cynnydd yn y gynulleidfa ifanc ar-lein, yn anghywir. Gofynnodd i'r BBC ddangos y cyrhaeddiad, yr oriau gwylio a'r gyfran wylio ddisgwyliedig ymysg y gynulleidfa darged i gyfiawnhau'r cynnig. Gofynnodd am gysoni'r rhesymeg o gynyddu cynulleidfa iPlayer â'r rhesymeg o gyrraedd cynulleidfaoedd sydd heb fynediad at wasanaethau digidol. Gofynnodd i'r BBC brofi

nad oedd ffordd fwy effeithlon ac effeithiol o gyrraedd y gynulleidfa hon: gydag enghreifftiau fel dangos cynnwys BBC Three ar sianeli llinol eraill, neu roi hawliau eilaidd i Netflix, YouTube neu lwyfannau eraill sy'n denu pobl ifanc.

Dywedodd yr ymatebydd fod risg y gallai BBC Three, yn anfwriadol, wneud i wylwyr hŷn droi oddi wrth sianeli eraill. Mynegodd rhywfaint o bryder y gallai cynnydd yng nghyllideb BBC Three ehangu'r cynnwys sydd ar gael ar Britbox, drwy driniaeth ffafriol a ffenestri hawliau eilaidd – gan fygwth gwasanaethau ar-alw eraill.

Honnodd un ymatebydd teledu drwy dalu y byddai sianel linol BBC Three yn lleihau'r gyfran wylio ymysg cynulleidfaoedd iau ar sianeli tebyg sydd eisoes yn bodoli (ee, Comedy Central, ITV2). Dywedodd y byddai'r mater hwn yn gwaethygu pe bai BBC Three yn cael safle amlwg ar yr EPG: a oedd yn codi amheuaeth ynghylch ei safle ar yr EPG ar draws y gwledydd, gan gynnwys Cymru a'r Alban. Galwodd am asesiad o'r effaith ar y farchnad wrth ddisodli safleoedd fel hyn ar yr EPG: gan ganolbwyntio ar y refeniw a'r gyfran wylio a allai gael eu colli, yn ogystal ag ar faich gwariant ychwanegol ar ddarparwyr a sianeli eraill.

Dywedodd ymatebydd arall o'r maes teledu drwy dalu nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i ail-lansio BBC Three fel cynnig darlledu llinol. Roedd yn cydnabod y gallai'r cam hwn arwain at fwy o ddewis i wylwyr, ehangu apêl y BBC, ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.

Fodd bynnag, mynegodd yr ymatebydd bryderon sylweddol y gallai BBC Three amharu ar yr EPG o ganlyniad i unrhyw ofynion sy'n rhoi safle amlwg penodol i'r sianel newydd hon. Rhoddodd gyd-destun i'r cyfnod hir o darfu ac ansicrwydd yr oedd wedi'i wynebu'n ddiweddar yn dilyn newidiadau Ofcom i god ymarfer yr EPG. O ganlyniad, soniodd am y problemau presennol yr oedd hyn wedi'u hachosi i ddarparwyr EPG, i ddarlledwyr (a oedd wedi colli safle amlwg ac wedi gorfod gwario mwy i roi gwybod am y newidiadau), ac i'w ddefnyddwyr. Yn benodol, nododd yr effeithiau anghymesur yr oedd symud sianeli wedi'u cael ar wylwyr oedrannus a bregus, a'r adnoddau ychwanegol y bu'n rhaid iddo eu neilltuo i helpu cwsmeriaid yn ystod y cyfnod hwn.

Felly, nid oedd yr ymatebydd yn credu ei bod yn rhesymol nac yn gymesur i ddarparwyr EPG addasu rhestrau sianeli eto er mwyn rhoi safle amlwg i sianel newydd BBC Three. Mynegodd bryderon y byddai hyn yn arwain at risg sylweddol o effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth. Dywedodd na fyddai'n bosibl, yn ei EPG ei hun, neilltuo safle o fewn y 24 slot cyntaf i BBC Three, oherwydd diffyg lleoedd gwag. Roedd yn gwneud synnwyr felly na fyddai'n bosibl ail-negodi cytundebau cludo sianeli gyda darlledwyr trydydd parti i ddarparu ar gyfer hyn ychwaith.

Dywedodd hefyd mai'r BBC ei hun sydd wedi creu'r broblem ynghylch amlygrwydd BBC Three fel sianel wedi'i hailsefydlu – gan ddadlau felly mai'r BBC ddylai benderfynu sut dylid datrys hyn, yn hytrach na drwy ragor o ofynion gorfodol gan Ofcom. Gofynnodd i'r BBC ystyried y ffordd orau iddo ymgorffori BBC Three yn ei bortffolio EPG presennol. Gwnaeth awgrymiadau ar hyd y llinellau hyn, gan

gynnwys ynghylch ail-drefnu amrywiadau SD a HD i'r arlwy newyddion rhanbarthol, a gan gyfeirio at newidiadau i gomisiynau BBC Four sy'n canolbwyntio ar yr archif.

### British Film Institute (BFI)

BFI yw prif sefydliad y DU ar gyfer ffilmiau, teledu a delweddau symudol. Roedd BFI yn cydnabod gwerth cyhoeddus posibl sianel deledu newydd BBC Three, ac yn cefnogi'r cynnig. Roedd yn cytuno bod cynulleidfa 16-34 oed, C2DE y tu allan i Lundain yn defnyddio llawer ar wasanaethau teledu ac nad oes gan y gynulleidfa hon fynediad at wasanaethau digidol o bosibl, ac felly y gallai'r BBC ei gwasanaethu'n well drwy sianel ddarlledu benodol, gan ehangu'r amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael i'r gynulleidfa hon. Roedd yn gwneud synnwyr felly y byddai gan BBC Three, fel sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus, y cyfle i fod yn fwy cynrychioliadol o fywydau ar draws y DU nag y mae'r farchnad fasnachol fyd-eang yn caniatáu fel arall.

Roedd BFI yn gweld y manteision bod cynnwys yn cyrraedd cynulleidfa 13-15 oed cyn y trothwy, ac yn credu bod hyn yn gwneud iawn am golli lefelau gwylio a darlledu CBBC o fewn yr un oriau – ond, roedd yn galw am gynlluniau comisiynu clir a phenodol ar gyfer y grŵp oedran 13-15 yng nghynlluniau BBC Three.

Roedd yn dadlau y byddai'r bwriad ar gyfer darpariaeth cynnwys unigryw BBC Three yn arwain at fanteision cymdeithasol a diwylliannol sylweddol i gynulleidfaoedd, ac roedd yn gweld y cynnig fel ateb i'r 'siambrau adleisio' sy'n rhoi pwyslais ar algorithm, sydd i'w gweld yn amlwg mewn gwasanaethau digidol. Eglurodd y byddai cael sianel ddarlledu benodol fel BBC Three yn gweithredu fel 'ffenestr siop' yn helpu cynulleidfaoedd i ymgysylltu â chynnwys y tu hwnt i'w chwaeth bersonol, gan ehangu eu gorwelion.

Eglurodd BFI y byddai'r sianel linol arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, gan y byddai'n sbarduno buddsoddiad mewn cynnwys ar gyfer pobl 16-34 oed ymysg cystadleuwyr, gan wella ansawdd ac amrywiaeth y cynnwys ar gyfer y gynulleidfa hon yn sgil hynny. Dywedodd fod yr un rhesymeg wedi cael ei defnyddio i sefydlu'r "Gronfa Cynulleidfaoedd Ifanc" yn 2017, sy'n cael ei hariannu gan y Llywodraeth a'i gweinyddu gan BFI.

### Channel 4

Mae Channel 4 o blaid cryfhau ecoleg Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU, a chytunodd yn ei hymateb fod darlledwyr yn y DU yn wynebu mwy a mwy o heriau a chystadleuaeth gan rymoedd byd-eang: yn enwedig gwasanaethau SVOD. Roedd Channel 4 yn dadlau mai'r BBC, fel y cyfranogwr mwyaf, ddylai fynd ati'n gyntaf i ehangu gwasanaethau fideo ar-alw: gan brofi a mireinio'r broses o symud i ddulliau digidol, a pharatoi'r ffordd i'r farchnad fasnachol ddilyn. Ar hyd y rhesymeg hon, dywedodd y byddai ailgyflwyno BBC Three fel sianel linol yn gwaethygu'r problemau sy'n wynebu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, heb ddatrys na

mynd i'r afael yn ddigonol â'r gostyngiad yn lefel y gynulleidfa. Roedd yn dadlau y byddai canolbwyntio ar y strategaeth bresennol o roi pwyslais ar iPlayer gyda rhywfaint o gynnwys ar BBC One yn ffordd well o ddefnyddio cyllideb BBC Three, yn hytrach nag agor a gweithredu sianel linol.

Roedd Channel 4 yn anghytuno nad yw'r farchnad linol bresennol yn y DU yn darparu ar gyfer y gynulleidfa 16-34 oed. Roedd yn dadlau bod portffolio Channel 4 eisoes yn darparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr ar draws y DU, ac na fyddai sianel linol BBC Three yn cynnig unrhyw beth unigryw i'r grŵp oedran hwn. Gofynnodd am eglurder ynghylch cynulleidfa darged BBC Three ar deledu llinol, ac a oedd y cynulleidfaoedd targed a amlinellwyd (y rheini heb fynediad digidol; cynulleidfaoedd C2DE, cynulleidfaoedd y Gwledydd a'r Rhanbarthau) yn rhai ar wahân neu'n cynnwys y naill a'r llall. Gyda hyn mewn golwg, gofynnodd am waith modelu ar gyfer cyrhaeddiad a maint y gynulleidfa hon yn y segmentau a restrwyd – gan ddadlau bod y gynulleidfa y mae'r BBC yn bwriadu ei thargedu yn rhy fach i sicrhau digon o effeithiau cadarnhaol sy'n gwneud iawn am yr effeithiau negyddol ar y farchnad linol.

Gofynnodd Channel 4 am waith modelu neu ddadansoddiad gan y BBC a oedd yn dangos sut gallai sianel linol gynyddu lefelau gwylio ar gyfer iPlayer ymysg y gynulleidfa darged. Gofynnodd am dystiolaeth a oedd yn dangos y byddai ailgyflwyno sianel linol yn cael mwy o effaith na strategaeth iPlayer yn gyntaf ar draws y BBC, gyda rhaglenni llinol yn cael eu dangos ar BBC One. Gofynnodd Channel 4 am brawf y byddai'r strategaeth hon yn well i'r gynulleidfa, ac yn ffordd fwy effeithlon o ddefnyddio buddsoddiad na phe bai'r gyllideb yn cael ei gwario ar raglenni gwreiddiol yn unig.

Roedd Channel 4 yn dadlau – o ystyried y datganiad cenhadaeth a chylch gwaith darpariaeth linol BBC Three – y byddai'r cynlluniau hyn yn anghymesur o niweidiol i bortffolio Channel 4, gan arwain at golli cyfran a chwyddiant prisiau: niweidio cyd-ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus heb fanteision amlwg i'r gynulleidfa.

Roedd Channel 4 yn anghytuno bod angen i BBC Three brynu unrhyw raglenni, wrth ystyried y pellter amlwg rhwng y sianel arfaethedig a'r dangosyddion perfformiad allweddol ynghylch sgoriau – a'r effaith niweidiol y byddai rhaglenni sy'n cael eu prynu yn ei chael ar y farchnad ehangach. Nid oedd yn deall y gyfradd uchel o ailddarllediadau a gynigiwyd – o ystyried maint y gyllideb.

Roedd Channel 4 yn galw am i bob comisiwn fod o'r tu allan i Lundain, os yw'r BBC o ddifrif ynghylch cynrychiolaeth. Gofynnodd i'r BBC wneud gwaith ar sut mae safleoedd ar yr EPG yn effeithio ar y farchnad – yn enwedig ar yr effeithiau a allai ddod i'r amlwg pe bai sianel BBC Three yn cael ei chyfnewid â gorsaf arall (er enghraifft, BBC Four) ar ôl cael ei lansio. Fel opsiwn arall, galwodd am sicrwydd y byddai BBC Three yn aros yn safle rhif 24 ar yr EPG.

### The Children's Media Foundation (CMF)

Mae CMF yn sefydliad dielw sy'n ceisio sicrhau bod y dewis gorau posibl o gyfryngau ar gael i bobl ifanc yn y DU. Roedd wedi cyfyngu ei sylwadau ar y cynnig i elfennau a allai effeithio ar y gynulleidfa o dan 16 oed: sef, y bwriad i ailddyrannu amser darlledu CBBC i BBC Three, a chynlluniau BBC Three i gyrraedd cynulleidfa ychwanegol o bobl ifanc 13-15 oed o fewn yr oriau hyn (7-9pm).

Roedd CMF yn derbyn bod y slot 7-9pm cyn y trothwy yn gyfle i gyrraedd pobl ifanc o dan 16 oed nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n benodol gan y BBC ar hyn o bryd, ar wahân i Radio 1. Roedd yn cytuno mai cyfran fach o gyfanswm y lefelau gwylio yw colli CBBC yn yr oriau hynny. Ond, mynegodd bryder nad oedd y cynlluniau fel yr oeddent wedi'u hamlinellu yn y ddogfen ymgynghori yn cyfeirio o gwbl at gomisiynu rhaglenni penodol ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau cynnar – cynulleidfa nad yw'n cael ei gwasanaethu'n ddigonol gan y cyfryngau darlledu ar hyn o bryd – a gofynnodd am eglurhad o gynlluniau BBC Three ar gyfer y gynulleidfa 13-15 oed, gyda rhagor o wybodaeth am gomisiynu, y gyllideb a'r ddarpariaeth ar benwythnosau.

## Commercial Broadcasters Association (COBA)

Mae COBA yn gymdeithas sy'n cynrychioli darlledwyr aml-sianel a gwasanaethau ar-alw. Roedd wedi mynegi pryderon difrifol am yr effaith y byddai cynnig BBC Three yn ei chael ar y farchnad, gan gyfeirio'n benodol at y costau a'r effaith y byddai rhagor o newidiadau posibl i'r EPG yn ei chael ar ddarlledwyr llai, yn dilyn yr ad-drefnu cynharach o dan arweiniad y rheoleiddiwr yn 2019.

Roedd COBA yn cwestiynu'r cyfiawnhad ariannol dros sianel linol BBC Three wrth ystyried yr effaith bosibl ar y gynulleidfa, gan ei fod yn honni bod tueddiadau'r farchnad a'r gynulleidfa i gyd yn dangos newid i fynd ar-lein. Roedd yn codi cwestiynau ynghylch rhesymeg cynnig BBC Three mewn perthynas â newidiadau i bortffolio llinol ehangach y BBC, gan gyfeirio at gyfyngu oriau darlledu CBBC a'r penderfyniadau a wnaed ynghylch comisiynau newydd ar gyfer BBC Four. Roedd yn pwysleisio eto effaith unrhyw newidiadau i'r EPG ar ddarlledwyr llai yn y farchnad.

## Directors UK

Directors UK yw cymdeithas broffesiynol cyfarwyddwyr sgrin y DU. Roedd yn cydnabod gwerth cyhoeddus sianel linol BBC Three, ac yn cydnabod y manteision y gallai eu cynnig i gynulleidfa iau ar draws y DU, yn enwedig y rheini nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ac sydd â diffyg mynediad at wasanaethau ar-alw digidol. Roedd yn galw am ystyried yn ofalus y comisiynau ar gyfer cynnwys cyn y trothwy sydd wedi'i anelu at gynulleidfaoedd iau, a fyddai'n dod yn lle rhai o oriau darlledu CBBC.

Roedd Directors UK o blaid cynlluniau'r cynnig i sicrhau comisiynau o grwpiau amrywiol ac nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, ac yn cefnogi'r targed o gael dwy ran o dair o gomisiynau o'r tu allan i Lundain – ar yr amod nad strategaeth 'codi a symud' talentau presennol o'r brifddinas oedd hon. Nododd nifer yr

ailddarllediadau yn y gymysgedd o gynnwys a gynigiwyd ar gyfer BBC Three, ac roedd yn cwestiynu'r effaith y gallai hyn ei chael ar greu rhaglenni gwreiddiol.

Roedd Directors UK yn galw am dâl teg ar gyfer hawliau ac am ddefnyddio gwaith ar y sianel linol arfaethedig, yn enwedig mewn perthynas â chomisiynau ar gyfer iPlayer yn gyntaf, a breindaliadau a ffenestri hawliau estynedig. Roedd yn galw am fuddsoddiad gwirioneddol y tu allan i Lundain o ran comisiynwyr, cynhyrchwyr a chriwiau. Roedd yn croesawu trafodaethau'r BBC â Pact. Mynegodd rai pryderon ynghylch pwysau cyllidebol BBC Three a'r pwysau y gallai hyn ei achosi'n is i lawr ar amodau gweithio timau sy'n gwneud rhaglenni.

Roedd Directors UK o blaid rhoi safle amlwg i sianel linol BBC Three ar yr EPG, fel ffordd bwysig o sicrhau ei bod yn hwylus a'i bod yn hawdd dod o hyd iddi.

## International Broadcasting Trust (IBT)

Mae IBT yn elusen sy'n gweithio gyda'r cyfryngau i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn ymwybodol o faterion byd-eang. Roedd yn croesawu'r cynigion ar gyfer sianel linol BBC Three, ac o blaid gwrthdroi'r penderfyniad a wnaed yn 2015 i symud BBC Three i fod yn wasanaeth digidol yn unig. Roedd yn gweld gwerth mewn strategaeth ddeuol sy'n canolbwyntio ar wasanaethu cynulleidfaoedd iau ar deledu llinol, ac ar gefnogi twf iPlayer. Roedd yn cytuno y byddai sianel linol yn sicrhau bod cynnwys ar gael i ystod ehangach o gynulleidfaoedd, yn enwedig y rheini sydd â diffyg mynediad at wasanaethau digidol. Yn unol â chylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus y BBC, roedd yn cytuno mai gorau po fwyaf hwylus yw cynnwys y BBC i'w gynulleidfaoedd.

Gan ganmol hanes BBC Three o ddarparu cynnwys materion cyfoes rhyngwladol sy'n arloesol ac yn unigryw, mynegodd bryder nad oedd y ddogfen ymgynghori yn cyfeirio'n benodol at gynnwys o'r fath, gan awgrymu bod hepgor hynny wedi lleihau gwerth cyhoeddus y cynnig. Gan gyfeirio at y dibenion cyhoeddus a nodir yn Siarter y BBC, ac ymchwil sy'n pwysleisio gwerth cyhoeddus darparu cynnwys materion cyfoes i gynulleidfaoedd iau, galwodd ar y BBC i gynnwys materion cyfoes rhyngwladol yng nghylch gwaith y sianel. Roedd yn dadlau bod llawer o'r heriau y mae'r DU yn eu hwynebu (gan gynnwys Covid-19 a newid yn yr hinsawdd) yn rhai byd-eang eu natur, ac felly bod materion cyfoes rhyngwladol yn bwysicach nag erioed wrth dynnu sylw'r cyhoedd yn y DU at y byd ehangach. Byddai hefyd yn gofalu nad yw'r DU yn edrych mwy am i mewn ers iddi adael yr UE.

Nid oedd IBT yn credu y byddai effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol wrth i BBC Three ddychwelyd i deledu llinol. Roedd yn croesawu cynrychiolaeth drwy gomisiynu y tu allan i Lundain. Byddai'n hoffi gweld sianel BBC Three yn cael safle amlwg ar yr EPG.

## Pact

Pact yw cymdeithas fasnach y DU sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo buddiannau masnachol cwmnïau cyfryngau annibynnol. Roedd yn falch o'r newidiadau arfaethedig i gylch gwaith BBC Three, ac yn dadlau y byddai sianel sydd wedi'i

hailsefydlu yn adfer y comisiynau o safon uchel sydd eu hangen i gadw a chynyddu cynulleidfaoedd iau. Roedd yn cytuno bod cyfran sylweddol o bobl 16-34 oed yn parhau i wylio teledu llinol, ac y byddai cyfran fawr o'r gynulleidfa bresennol yn elwa o ailgyflwyno BBC Three ar deledu llinol.

Roedd Pact yn cydnabod y gallai ailgyflwyno BBC Three ar deledu llinol gael effaith ymhellach i fyny'r gadwyn gwerth mewn perthynas â hawliau cynnwys. Gofynnodd am eglurder ynghylch cyllidebau comisiynu ar gyfer gwasanaethau ar-lein a llinol. Roedd yn galw am i nifer y rhaglenni gwreiddiol a fwriedir ar gyfer BBC Three gael ei nodi yn y drwydded weithredu – gyda rhaniadau ffurfiol a sicrwydd y bydd y targedau'n cael eu cyrraedd.

Pwysleisiodd Pact eto ei bod yn rhaid i Delerau Masnach fod yn berthnasol i bob comisiwn. Dywedodd y dylai pecynnau hawliau newydd gael eu cynnig, a fyddai'n galluogi cynhyrchwyr i gadw a manteisio ar hawliau yn dilyn y brif ffenestr, ac yn golygu bod dulliau ar waith i alluogi cynhyrchwyr allanol i reoli hawliau Eiddo Deallusol eu cynnwys. Galwodd am eglurder ynghylch tariffau ar-lein yn unig o'u cymharu â thariffau llinol, ac ar allu cynhyrchwyr i ddal gafael ar hawliau os caiff y ffenestri hyn eu hymestyn, ac i gwmnïau annibynnol allu manteisio ar hawliau gwerthu ymlaen os bydd y newidiadau hyn yn digwydd.

Galwodd Pact am sicrwydd gan y BBC na fyddai unrhyw gomisiynu drwy'r drws cefn i BBC One na BBC Two drwy dariffau BBC Three, ac y dylai unrhyw gynnwys sy'n cael ei drosglwyddo i'r sianeli hyn gael ei gofrestru uwchlaw'r tariff comisiynu gwreiddiol.

### Yr Athro Patrick Barwise

Yr Athro Patrick Barwise yw Athro Emeritws Rheolaeth a Marchnata yn Ysgol Fusnes Llundain. Cytunodd yr Athro Barwise y byddai ail-lansio BBC Three fel sianel ddarlledu yn cynyddu'r gwerth cyhoeddus gan y byddai'r cynnwys yn cael ei ddefnyddio fwy: gyda mwy o gynnwys yn cael ei wylio gan fwy o bobl am fwy o oriau.

Roedd yr Athro Barwise yn galw am gydbwysedd gofalus rhwng gwasanaethu pobl o dan 35 oed ac apelio at gynulleidfaoedd eraill wrth dargedu cynnwys a chynulleidfaoedd, er mwyn cynyddu cyrhaeddiad y sianel a lleihau'r gost fesul awr defnyddiwr.

Dywedodd yr Athro Barwise yn ei ymateb y byddai sianel ddarlledu BBC Three yn cyfrannu at Gymdeithas a Diwylliant Prydain, a hefyd yn cael effaith fwy cadarnhaol ar y diwydiannau creadigol a'r economi ehangach. Ar hyd y trywydd hwn, roedd yr ymateb yn egluro y byddai effaith sianel ddarlledu BBC Three ar y farchnad yn fach iawn – gan ddilyn y rhesymeg y byddai BBC Three yn aelod bach iawn o farchnad cynnwys fyd-eang.

### Yr Athro Jonathan Hardy

Yr Athro Jonathan Hardy yw'r Athro Cyfathrebu a'r Cyfryngau ym Mhrifysgol y Celfyddydau, Llundain. Roedd ymateb yr Athro Hardy yn pwyso a mesur ymateb myfyrwyr ar y pryd i gau BBC Three fel sianel ddarlledu: y teimlad a oedd yn parhau oedd bod llais ac anghenion pobl ifanc yn cael eu hanwybyddu neu eu hiselhau er budd penderfyniadau polisi ac adnoddau a fyddai'n gwasanaethu poblogaeth sy'n heneiddio. Yn y cyd-destun hwn, dywedodd yr Athro Hardy fod ailsefydlu BBC Three ar lwyfan darlledu yn rhan briodol sydd i'w chroesawu o strategaeth ieuenctid y BBC.

Yn yr ymateb, croesawodd yr Athro Hardy y cynnydd yng nghyllideb BBC Three: gan ddadlau bod y ddadl ynghylch gwerth darlledu BBC Three yn gryf ar sail economaidd, oherwydd y byddai'r gwerth cyhoeddus posibl yn gallu gwrthbwyso'r costau gweithredu cymharol fach yn rhwydd. Roedd yr Athro Hardy hefyd yn croesawu'r cynnig i gomisiynu a darlledu dros 300 awr o raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf – ond gofynnodd am dargedau sy'n benodol i'r DU yn hyn o beth.

O ran y gynulleidfa darged – y gynulleidfa C2DE a'r gynulleidfa y tu allan i Lundain – croesawodd yr Athro Hardy y cynnig gyda'r cafeat y dylid gwasanaethu'r gynulleidfa hon ar y cyd ac nid ar draul ymgysylltiad croestoriadol, gwirioneddol ag amrywiaeth ethnig cymunedau'r DU. Gan rybuddio yn erbyn y risg o fwyafrifyddiaeth (majoritarianism) ddiwylliannol, roedd yr Athro Hardy yn dadlau ei bod yn bwysig i'r BBC gydnabod cyfansoddiad cymhleth gwledydd a rhanbarthau'r DU.

Roedd yr Athro Hardy yn cydnabod yr effaith gadarnhaol y gallai sianel ddarlledu BBC Three ei chael ar y farchnad ehangach mewn perthynas â'r diwydiant creadigol ehangach. Roedd yr ymateb hefyd yn amlinellu y byddai sianel BBC Three yn gweithredu'n greadigol o dan delerau a gwerthoedd gwahanol i sianeli cystadleuwyr, ac y byddai'n rhydd rhag grymoedd allanol mewn ffyrdd na fyddai'n bosibl i lwyfannau a darlledwyr masnachol neu sy'n cael eu hariannu gan hysbysebion. Dywedodd hefyd fod cyfle i ychwanegu rôl ehangach o ran comisiynu ac arddangos gwaith creadigol gan bobl ifanc eu hunain, a gwaith gan ystod ehangach o lunwyr cynnwys, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu cefnogi gan gelfyddydau cymunedol, addysg ar bob lefel, gwasanaethau ieuenctid, gwasanaethau anabledd ac adnoddau a rhwydweithiau eraill.

Roedd yr Athro Hardy yn cytuno y dylai sianel ddarlledu BBC Three fod yn un o'r 24 safle uchaf ar yr EPG.

### Sam Barcroft

Mae Sam Barcroft yn gynhyrchydd teledu, a Sam yw sylfaenydd Barcroft Studios. Roedd Sam Barcroft yn croesawu buddsoddiad y BBC mewn cynnwys gwreiddiol ar gyfer oedolion ifanc, ac yn cytuno bod angen rhaglenni o'r safon uchaf sy'n berthnasol ac yn ysbrydoledig o safbwynt diwylliannol ar gyfer y gynulleidfa hon.

Fodd bynnag, roedd Sam Barcroft yn dadlau na fyddai strategaeth linol yn ddigon i sicrhau gwerth i gynulleidfaoedd iau. Roedd yr ymateb yn awgrymu bod y BBC, yn

lle hynny, yn gwneud penderfyniadau beiddgar i ganolbwyntio ar gynnwys mewn dull sy'n cael ei arwain gan stiwdio, gyda chynnwys BBC Three yn cael ei ddosbarthu'n ddoeth i drydydd partïon drwy lwyfannau Cymdeithasol ac SVOD: gan fynd ati'n frwd i gyflwyno'r cynnwys i'r gynulleidfa.

### Voice of the Listener and Viewer (VLV)

Mae VLV yn elusen annibynnol sy'n cefnogi darlledu o safon uchel, gan gynnal traddodiadau democrataidd a diwylliannol y DU. Roedd yn croesawu'r cynnig i BBC Three ddychwelyd ar ffurf teledu llinol, gan ddweud y byddai'n sicrhau mwy o werth cyhoeddus drwy'r dulliau hyn nag fel gwasanaeth ar-lein yn unig, a phwysleisio'r gwerth cyhoeddus o sicrhau'r un gwerth i bawb wrth wneud hynny.

Gallai VLV weld budd y cynnig hwn i'r gynulleidfa darged, yn enwedig pobl iau â diffyg mynediad digidol. Roedd yn cytuno y gallai'r BBC – drwy sianel linol BBC Three – gyflawni ei genhadaeth i ddarparu cynnwys i'r boblogaeth gyfan. Er ei fod yn croesawu'r cynlluniau'n gyffredinol, cododd rai cwestiynau ynghylch y diffyg cynlluniau yn y cynnig ar gyfer cynnwys materion cyfoes neu ffeithiol rhyngwladol. Roedd yn teimlo y byddai'n fuddiol i'r cynnig gyfeirio'n benodol at y genre yma.

Nid oedd gan VLV unrhyw bryderon ynghylch effeithiau'r cynnig ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Dywedodd VLV yr hoffai weld sianel BBC Three o fewn y 24 slot cyntaf ar yr EPG.

### Writers Guild of Great Britain (WGGB)

Mae WGGB yn undeb llafur sy'n cynrychioli awduron proffesiynol ar draws y cyfryngau. Roedd yn croesawu cynnig y BBC i BBC Three ddod yn sianel linol, a gwnaeth sylwadau am amseriad y cynnig yn y cyd-destun cymdeithasol ehangach. Dywedodd fod pandemig presennol Covid-19 a'r cyfyngiadau symud dilynol wedi pwysleisio'r bwlch digidol yn y DU, ac roedd yn cytuno bod hyn yn golygu bod llawer yn methu cael mynediad at BBC Three ar iPlayer ar hyn o bryd. Roedd yn dadlau bod effeithiau tymor hwy y pandemig ar ddiweithdra ac anghydraddoldeb yn golygu bod y bwlch digidol yma'n debygol o aros yn ei unfan neu gynyddu dros y blynyddoedd nesaf. I'r perwyl hwn, roedd yn dadlau ei bod yn arbennig o bwysig bod y BBC yn darparu cynnwys BBC Three drwy sianel linol, er mwyn i'r cynnwys fod ar gael i bawb.

Roedd WGGB yn cytuno nad yw pobl rhwng 16 a 35 oed yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ym myd darlledu llinol ar hyn o bryd, ac yn gweld cynnig BBC Three fel ffordd o lenwi'r bwlch hwnnw. Roedd hefyd yn croesawu'r gynulleidfa ymestynnol o bobl ifanc 13-15 oed cyn y trothwy. Roedd yn dadlau bod y bwlch presennol o ran gwasanaethau llinol i'r cynulleidfaoedd hyn yn golygu ei bod yn annhebygol y byddai'r sianel arfaethedig yn cael effaith negyddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol yn y farchnad.

Roedd WGGB o blaid y cynnig i leihau oriau darlledu CBBC, ac yn cytuno y byddai hyn yn cael ei liniaru wrth i BBC Three wasanaethu rhywfaint o'r gynulleidfa hon drwy gynnwys arall. Mynegodd bryderon ynghylch cynyddu cyllideb BBC Three drwy leihau'r gwariant ar gomisiynau drama BBC Two, gan alw hyn yn economi ffug.

Galwodd WGGB am gynrychiolaeth briodol a chyflogau teg i awduron ledled y DU. Roedd yn croesawu'r portread o bob agwedd ar fywyd yn y DU, ac yn gobeithio y byddai awduron o gymunedau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn elwa o'r nod hwn. Roedd yn galw am i raglenni sy'n cael eu comisiynu y tu allan i Lundain a De-ddwyrain Lloegr gael yr un cymorth a buddsoddiad â'r rhaglenni a wneir yn yr ardaloedd hyn. Roedd yn galw am i awduron ac ymarferwyr creadigol gael tâl teg am greu cynnwys a'r defnydd parhaus ohono.

Roedd WGGB yn cytuno y dylai sianel BBC Three fod yn y 24 safle uchaf ar yr EPG.

### Youth Media and Culture Network (YMCN)

Mae YMCN yn rhwydwaith rhyngwladol o gydweithio academaidd rhwng prifysgolion, cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a phobl ifanc 12-16 oed. Roedd yn croesawu cynnig y BBC i'r graddau ei fod yn canolbwyntio ar gynulleidfa ifanc, ond mynegodd bryder y byddai ailsefydlu BBC Three fel sianel linol yn ffordd rhy syml a hen ffasiwn o gyrraedd y grŵp demograffig yma.

Roedd YMCN yn croesawu'r cynnwys cyn y trothwy a amlinellwyd ar gyfer pobl ifanc 13-15 oed. Gofynnodd am eglurder ynghylch cynlluniau a chomisiynau penodol gan BBC Three i gyrraedd y gynulleidfa benodol hon. Unwaith eto, roedd yn cwestiynu ai sianel linol oedd y ffordd gywir o gyrraedd neu wasanaethu'r grŵp hwn. Ymysg ei bryderon, roedd yn canolbwyntio ar dystiolaeth bod grwpiau demograffig iau yn ymgysylltu mwy ag ecosystemau brand na sianeli. Roedd yn cwestiynu a fyddai brandiau penodol sydd eisoes yn rhan o ecosystem y BBC – gan gynnwys Ru Paul, neu ddatblygu cynnwys y Gwledydd a'r Rhanbarthau ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc, fel *BBC Sesh* yng Nghymru – yn cael eu haddasu a'u hehangu drwy'r sianel hon.

Soniodd YMCN am broblemau ynghylch ymarferoldeb a defnyddioldeb iPlayer, fel y cynllun dryslyd neu swyddogaeth yr algorithm argymhellion. Awgrymodd y byddai'n well buddsoddi mewn addasu a gwella'r llwyfan hwn, er budd cynulleidfaoedd iau yn arbennig.

### YouView

Roedd YouView yn cefnogi cynnig y BBC i lansio sianel linol BBC Three, yn unol â'i egwyddorion ei hun.